Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 34/2026

Dyddiad cyhoeddi: 05/03/2026

# Arolwg o agweddau'r cyhoedd at y dreth gyngor: 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-173-9

Arolwg o agweddau'r cyhoedd at y dreth gyngor: 2025

Awduron: Sean Homer a Louisa Smith

Adroddiad Ymchwil Llawn: Homer, S. a Smith, L. (2026). Arolwg o agweddau'r cyhoedd at y dreth gyngor 2025. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 34/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/agweddaur-cyhoedd-y-dreth-gyngor-2025

Safbwyntiau'r ymchwilydd a nodir yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Ymchwil.GwasanaethauCyhoeddus@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr tablau....2

Rhestr ffigurau....3

1. Cefndir....6

2. Methodoleg....8

  2.1. Yr arolwg....8

3. Canfyddiadau: Cam mis Mawrth 2025....9

  3.1. Cyfrifoldeb am dalu'r dreth gyngor....9

  3.2. Gwybodaeth am system bresennol y dreth gyngor ac agweddau tuag ati....14

  3.3. Agweddau tuag at newid....39

  3.4. Cael gwybodaeth am y dreth gyngor....49

4. Canfyddiadau: Cam mis Medi 2025....63

  4.1. Cyfrifoldeb am dalu'r dreth gyngor....63

  4.2. Gwybodaeth am system bresennol y dreth gyngor ac agweddau tuag ati....70

  4.3. Agweddau tuag at newid....91

  4.4. Cael gwybodaeth am y dreth gyngor....101

5. Casgliadau....112

Atodiad A: Methodoleg....114

  Arolwg Omnibws Cymru....114

    Newidynnau demograffig....115

Atobiad B: Holiadur....119

  Adran 1 – Cyfrifoldeb am dalu'r dreth gyngor....119

  Adran 2 – Gwybodaeth am y dreth gyngor ac agweddau tuag ati....120

  Adran 3 – Agweddau tuag at newid....122

  Adran 4 – Cael gwybodaeth am y dreth gyngor....123

## Rhestr tablau


Tabl 3.1: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam nad yw eich cartref yn talu'r dreth gyngor? .......... 9
Tabl 3.2: Pa ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau ydych chi'n eu derbyn? .......... 12
Tabl 3.3: Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor? .......... 18
Tabl 3.4: 'Rhy uchel' – Pam ydych chi'n dweud hyn? .......... 32
Tabl 3.5: 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn? .......... 33
Tabl 3.6: Ymatebion ar ôl cael gwybodaeth – 'Rhy uchel' – Pam ydych chi'n dweud hyn? .......... 37
Tabl 3.7: Ymatebion ar ôl cael gwybodaeth – 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn? .......... 38
Tabl 3.8: Cytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn? .......... 42
Tabl 3.9: Anghytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn? .......... 43
Tabl 4.1: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam nad yw eich cartref yn talu'r dreth gyngor? .......... 64
Tabl 4.2: Pa ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau ydych chi'n eu derbyn? .......... 67
Tabl 4.3: Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor? .......... 73
Tabl 4.4: 'Rhy uchel' – Pam ydych chi'n dweud hyn? .......... 85
Tabl 4.5: 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn? .......... 86
Tabl 4.6: Ymatebion ar ôl cael gwybodaeth – 'Rhy uchel' – Pam ydych chi'n dweud hyn? .......... 90
Tabl 4.7: Ymatebion ar ôl cael gwybodaeth – 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn? .......... 90
Tabl 4.8: Cytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn? .......... 94
Tabl 4.9: Anghytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn? .......... 95

## Rhestr ffigurau

Ffigur 3.1: Beth yw eich band treth gyngor? ........ 10
Ffigur 3.2: Ydych chi'n derbyn unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau yn y dreth gyngor? ........ 11
Ffigur 3.3: Sut mae eich cartref yn talu'r dreth gyngor? ........ 12
Ffigur 3.4: Faint o dreth gyngor mae eich cartref yn ei thalu y mis? ........ 13
Ffigur 3.5: Faint fyddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor? ........ 14
Ffigur 3.6: Faint fyddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor? Yn ôl blwyddyn (2022 i 2025) ........ 17
Ffigur 3.7: Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor? Y tri ymateb mwyaf cyffredin yn ôl blwyddyn (2022 i 2025) ........ 18
Ffigur 3.8: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor ........ 19
Ffigur 3.9: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor ........ 24
Ffigur 3.10: Yn seiliedig ar eich incwm a'ch gwariant, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu? ........ 29
Ffigur 3.11: Yn seiliedig ar eich incwm a'ch gwariant, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu? Yn ôl blwyddyn (2022 i 2025) ........ 30
Ffigur 3.12: Yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu? ........ 34
Ffigur 3.13: Yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu? Yn ôl blwyddyn (2022 i 2025) ........ 34
Ffigur 3.14: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol? ........ 39
Ffigur 3.15: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol)? Yn ôl blwyddyn (2022 i 2025) ........ 40
Ffigur 3.16: Pa un o'r canlynol ydych chi'n teimlo fyddai'r mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer tegwch (1=tecaf, 6=lleiaf teg) ........ 44
Ffigur 3.17: Y mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu (Sgôr o 1) ........ 45
Ffigur 3.18: Y mesur lleiaf teg o ran faint o dreth leol y mae disgwyl i chi ei thalu (Sgôr o 6) ........ 46
Ffigur 3.19: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer pwysigrwydd (1=ddim yn bwysig o gwbl, 10=cwbl hanfodol) ........ 47

Ffigur 3.20: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? ‘Cwbl hanfodol’ ....................48
Ffigur 3.21: Yn ystod y tair blynedd diwethaf, ydych chi wedi defnyddio unrhyw rai o’r dulliau canlynol er mwyn cael gwybodaeth am eich treth gyngor? .....................................50
Ffigur 3.22: Pa mor hawdd neu anodd oedd cael gwybodaeth am eich treth gyngor ar wefan y cyngor lleol/gwefan Llywodraeth Cymru/gwefan arall?.........................................53
Ffigur 3.23: Sut yr hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer dull a ffafriwyd (1=a ffafriwyd fwyaf, 7=a ffafriwyd leiaf)..............56
Ffigur 3.24: Sut yr hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor? (Sgôr o 1)......57
Ffigur 3.25: Sut yr hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor? (Sgôr o 7)......59
Ffigur 3.26: Pa wybodaeth am y dreth gyngor yr hoffech ei chael? ....................................60
Ffigur 4.1: Beth yw eich band treth gyngor? ..........................................................................64
Ffigur 4.2: Ydych chi’n derbyn unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau yn y dreth gyngor? ..................................................................................................................65
Ffigur 4.3: Ydych chi’n derbyn unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau yn y dreth gyngor? Cyfanswm yn ôl Mawrth 2022 - Mawrth 2025 o gymharu â Medi 2025 .....66
Ffigur 4.4: Sut mae eich cartref yn talu’r dreth gyngor? .......................................................68
Ffigur 4.5: Sut mae eich cartref yn talu’r dreth gyngor? Yn fisol dros 10 mis ac yn flynyddol yn ôl cam (rhwng mis Mawrth 2022 a mis Medi 2025) ............................................68
Ffigur 4.6: Faint o dreth gyngor mae eich cartref yn ei thalu y mis?.....................................69
Ffigur 4.7: Faint fyddech chi’n ei ddweud rydych chi’n ei wybod am y dreth gyngor?..........70
Ffigur 4.8: Faint fyddech chi’n ei ddweud rydych chi’n ei wybod am y dreth gyngor? Cyfanswm yn ôl mis Mawrth 2022 - Mawrth 2025 o gymharu â Medi 2025 ............71
Ffigur 4.9: Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy’n cael eu hariannu gan y dreth gyngor? Y tri ymateb mwyaf cyffredin yn ôl cyfanswm mis Mawrth 2022 - mis Mawrth 2025 o gymharu â mis Medi 2025 .........................................................................................73
Ffigur 4.10: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor............................................74
Ffigur 4.11: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor............................................78
Ffigur 4.12: Yn seiliedig ar eich incwm a’ch gwariant, sut fyddech chi’n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i’ch cartref ei dalu?................................................................83
Ffigur 4.13: Yn seiliedig ar eich incwm a’ch gwariant, sut fyddech chi’n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i’ch cartref ei dalu? Cyfanswm yn ôl Mawrth 2022 - Mawrth 2025 o gymharu â Medi 2025.........................................................................83
Ffigur 4.14: Yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae’r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fyddech chi’n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i’ch cartref ei dalu? ..........87

Ffigur 4.15: Yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu? Cyfanswm yn ôl Mawrth 2022 - Mawrth 2025 o gymharu â Medi 2025 ................... 88
Ffigur 4.16: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol? ........................................................................ 91
Ffigur 4.17: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol? Cyfanswm yn ôl Mawrth 2022 - Mawrth 2025 o gymharu â Medi 2025.......................................................................................... 92
Ffigur 4.18: Pa un o'r canlynol ydych chi'n teimlo fyddai'r mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer tegwch (1=tecaf, 6=lleiaf teg) ................................................................................................................ 96
Ffigur 4.19: Y mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu (Sgôr o 1) .......... 96
Ffigur 4.20: Y mesur lleiaf teg o ran faint o dreth leol y mae disgwyl i chi ei thalu (Sgôr o 6) ................................................................................................................ 97
Ffigur 4.21: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer pwysigrwydd (1=ddim yn bwysig o gwbl, 10=cwbl hanfodol).......................... 98
Ffigur 4.22: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? 'Cwbl hanfodol' ................... 99
Ffigur 4.23: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? 'Cwbl hanfodol' yn ôl cam (rhwng mis Mawrth 2022 a mis Medi 2025).......................................................... 100
Ffigur 4.24: Yn ystod y tair blynedd diwethaf, ydych chi wedi defnyddio unrhyw rai o'r dulliau canlynol er mwyn cael gwybodaeth am eich treth gyngor? .................................. 102
Ffigur 4.25: Pa mor hawdd neu oedd cael gwybodaeth am eich treth gyngor ar wefan y cyngor lleol/gwefan Llywodraeth Cymru/gwefan arall? ......................................... 104
Ffigur 4.26: Sut yr hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer dull a ffafriwyd (1=a ffafriwyd fwyaf, 7=a ffafriwyd leiaf)............ 106
Ffigur 4.27: Sut yr hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor? (Sgôr o 1).... 107
Ffigur 4.28: Sut yr hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor? (Sgôr o 7).... 108
Ffigur 4.29: Pa wybodaeth am y dreth gyngor yr hoffech ei chael? .................................. 109

# 1. Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal rhaglen ymchwil i lywio’r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio’r dreth gyngor er mwyn sicrhau system decach a mwy graddoledig. Hyd yma, mae hyn wedi cynnwys ymchwil academaidd, gwaith dadansoddi mewnol gan y llywodraeth, casglu data gweinyddol ar raddfa fawr a dadansoddi canlyniad ymgyngoriadau cyhoeddus, yn ogystal â gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid ychwanegol.

Deddfwyd Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 gan y Senedd i sefydlu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diwygio’r dreth gyngor. Er mwyn llywio’r ddeddfwriaeth hon a deddfwriaeth arall, ceisiwyd barn y cyhoedd a rhanddeiliaid ar nifer o bynciau fel rhan o ddau ymgynghoriad cyhoeddus, gan gynnwys ymarfer ailbrisio eiddo a diwygiadau posibl i’r system, ac elfennau tecach o system y dreth gyngor megis disgowntiau, gostyngiadau, apeliadau a gorfodi. Cynhaliwyd Ymgynghoriad Cam 1 rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2022 ac Ymgynghoriad Cam 2 rhwng mis Tachwedd 2023 a mis Chwefror 2024. Mae crynodebau o’r ymatebion i’r ddau ymgynghoriad wedi cael eu cyhoeddi (Cam 1 a Cham 2). Ceir hefyd ragor o wybodaeth a rhestr o’r ymchwil hyd yma ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru: Diwygio’r dreth gyngor; a Tystiolaeth ac ymchwil ar y dreth gyngor ac ardrethi annomestig.

Mae dealltwriaeth y cyhoedd o systemau cyllid yn y dyfodol a’u parodrwydd i’w derbyn yn hanfodol er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni ei nodau, ac mae ymchwil flaenorol wedi nodi nad yw lefelau ymwybyddiaeth o drethi lleol nac agweddau tuag atynt yn glir ac mai anaml y cânt eu mesur. Am y rheswm hwn, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwestiynau ychwanegol am agweddau tuag at y dreth gyngor yn ystod cam mis Mawrth 2022, mis Mawrth 2023 a mis Mawrth 2024 o Arolwg Omnibws Cymru (a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd), gyda gwaith dadansoddi yn cael ei wneud yn fewnol gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi. Ers 2024, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu dadansoddiad ychwanegol (a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd) i gymharu canlyniadau camau mis Mawrth o Arolwg Omnibws Cymru er mwyn ystyried unrhyw wahaniaethau yn ymatebion y rhai a gymerodd ran i gwestiynau rhwng blynyddoedd. Y diben oedd pennu llinell sylfaen y ddealltwriaeth o agweddau pobl at y dreth gyngor yng Nghymru y gellid ei defnyddio i fonitro effaith bosibl diwygio’r dreth gyngor yn y dyfodol. Cyhoeddwyd adroddiadau a oedd yn cyflwyno’r canfyddiadau yn Agweddau’r cyhoedd at y dreth gyngor (Mack ac Owens, 2022), Agweddau’r cyhoedd at y dreth gyngor: 2023 (Tyler ac Owens, 2023) ac Agweddau’r cyhoedd at y dreth gyngor: 2024 (Smith, 2025).

Er mwyn ystyried unrhyw newidiadau mewn agweddau at y dreth gyngor yng Nghymru ers mis Mawrth 2022, mis Mawrth 2023 a mis Mawrth 2024, comisiynodd Llywodraeth Cymru gyfres bellach o gwestiynau ar gam mis Mawrth 2025 o'r arolwg. Gwnaeth Llywodraeth Cymru hefyd gomisiynu'r un gyfres o gwestiynau ar gam mis Medi 2025 o'r arolwg, er mwyn ystyried unrhyw newidiadau mewn agweddau at y dreth gyngor yn seiliedig ar yr adeg o'r flwyddyn gan fod camau mis Mawrth yn tueddu i gyd-daro â'r adeg pan fyddai talwyr y dreth gyngor yn cael eu bil treth gyngor fel arfer.

Diben yr ymchwil hon yw ystyried canfyddiadau'r cyhoedd o degwch y dreth gyngor. Mae hyn yn cynnwys dyluniad y dreth a sut mae'n cael ei gweinyddu yn ogystal â'r ffordd y caiff y refeniw ei ddefnyddio a'i fuddsoddi mewn cymunedau. Mae hefyd yn ystyried y gydberthynas rhwng y lefel o wybodaeth a dealltwriaeth o'r dreth gyngor a chanfyddiadau o ran ei thegwch ac yn casglu barn ynghylch a ddylid diwygio'r dreth yn y dyfodol. Mae set ychwanegol o gwestiynau a gynhwyswyd ers arolwg 2023 yn ystyried sut mae gwybodaeth am y dreth gyngor yn cael ei chyrchu.

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn nodi'r fethodoleg ar gyfer yr arolwg ac yn cyflwyno canfyddiadau allweddol o fis Mawrth 2025 a mis Medi 2025 o dan y themâu canlynol:

- cyfrifoldeb am dalu'r dreth gyngor
- gwybodaeth ac agweddau tuag at system bresennol y dreth gyngor
- agweddau tuag at newid
- cael gwybodaeth am y dreth gyngor.

# 2. Methodoleg

## 2.1. Yr arolwg

Mae Arolwg Omnibws Cymru yn cynnwys cyfweliadau â sampl gynrychioliadol o 1,000 o oedolion 16 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru, o leiaf. Gwnaed gwaith maes ar gyfer cam mis Mawrth 2025 rhwng 3 Mawrth a 23 Mawrth 2025, a chynhaliwyd cam mis Medi 2025 rhwng 22 Medi a 12 Hydref 2025. Cwblhawyd cyfanswm o 1,000 o gyfweliadau ym mhob cam.

Cynhaliwyd cyfweliadau ar-lein gan ddefnyddio llwyfan cyfnewid paneli ar-lein Cint, sef meddalwedd a ddefnyddir mewn ymchwil seiliedig ar arolygon digidol i gasglu gwybodaeth oddi wrth nifer mawr o ymatebwyr. Cyfluniwyd yr arolygon ar-lein i'w cwblhau ar gyfrifiadur personol/llechen a ffôn clyfar a chynigiwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg i bob ymatebydd.

Cynhaliwyd profion arwyddocâd ystadegol ar y data yn y dadansoddiad er mwyn helpu i ddehongli'r canlyniadau. Defnyddiwyd prawf z i nodi a yw cydberthynas a welwyd yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth. Pan nodir bod gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, golyga hyn fod y debygoliaeth o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20 – h.y. mae'n debygol o adlewyrchu cydberthynas wirioneddol yn y boblogaeth.

Pan gaiff data arolwg eu profi i weld a ydynt yn ystadegol arwyddocaol, tybir bod y sampl a geir yn cynrychioli hapsampl o'r boblogaeth berthnasol. Mae Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio'r dull samplu cwota cyfrannol. A bod yn fanwl gywir, ni ellir pennu arwyddocâd ystadegol gwirioneddol ar gyfer y dull samplu hwn. Felly, mae gwahaniaethau 'arwyddocaol' sy'n seiliedig ar ddata o Arolwg Omnibws Cymru yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar 95% o'r lefel hyder.

Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg, ynghyd â diffiniadau o'r newidynnau demograffig a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, wedi'i chynnwys yn Atodiad A. Ceir gwybodaeth am y cwestiynau a gomisiynwyd ar gyfer cam mis Mawrth 2025 a cham mis Medi 2025 o Arolwg Omnibws Cymru yn Atodiad B.

# 3. Canfyddiadau: Cam mis Mawrth 2025

## 3.1. Cyfrifoldeb am dalu'r dreth gyngor

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod eu haelwyd yn talu'r dreth gyngor. Y band treth gyngor mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr oedd Band D. Nododd traean o'r ymatebwyr eu bod yn cael un disgownt, eithriad neu ostyngiad neu fwy. Y disgownt person sengl oedd y disgownt mwyaf cyffredin. Y ffordd fwyaf cyffredin i aelwydydd dalu eu treth gyngor oedd rhandaliadau misol.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau cychwynnol i nodi a oedd yr ymatebydd yn talu'r dreth gyngor ai peidio. Roedd hyn yn llywio'r broses o gyfeirio ymatebwyr at gwestiynau dilynol yr arolwg er mwyn sicrhau mai dim ond cwestiynau a oedd yn berthnasol i'w hamgylchiadau a fyddai'n cael eu gofyn iddynt.

Nododd tua naw o bob 10 ymatebydd (92%) eu bod nhw, neu rywun yn eu cartref, yn talu'r dreth gyngor. O'r ffigur hwn, nododd tua hanner (48%) fod ganddynt gyfrifoldeb llwyr am dalu'r dreth gyngor a nododd 45% fod ganddynt gyd-gydraddoldeb am dalu'r dreth gyngor. Nododd tua un o bob 10 ymatebydd (8%) nad oedd ganddynt unrhyw gyfrifoldeb am fod rhywun arall yn y cartref yn talu'r dreth gyngor.

O'r 81 o ymatebwyr a nododd nad oeddent yn talu'r dreth gyngor, y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd eu bod ar incwm isel ac yn cael Gostyngiad Llawn yn y Dreth Gyngor (71%) (Tabl 3.1).

**Tabl 3.1: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam nad yw eich cartref yn talu'r dreth gyngor?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Rwyf ar incwm isel ac yn cael y Gostyngiad Llawn yn y Dreth Gyngor | 71 |
| Mae pob aelod o'r aelwyd yn fyfyriwr | 14 |
| Mae pob aelod o'r aelwyd o dan 18 oed | 3 |
| Mae pob aelod o'r aelwyd yn berson ifanc sydd wedi gadael gofal o dan 25 oed | 3 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** |
| Arall | 10 |
| Ddim yn gwybod | 5 |

Sylfaen: 81 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru


Gofynnwyd rhagor o gwestiynau am faint o dreth roeddent yn ei thalu i'r ymatebwyr a nododd eu bod yn talu'r dreth gyngor. Caiff pob eiddo yng Nghymru ei osod yn un o naw

band yn seiliedig ar werthoedd eiddo ac amodau'r farchnad dai ar 1 Ebrill 2003. Band A yw'r band isaf, sy'n gymwys i eiddo gwerth hyd at £44,000 a Band I yw'r band uchaf, sy'n gymwys i eiddo gwerth mwy na £424,000.

Y band mwyaf cyffredin a nodwyd gan yr ymatebwyr oedd Band D (25%), ac yna Fand C (16%) [troednodyn 1]. Nododd bron un o bob pum ymatebydd (17%) nad oeddent yn siŵr ym mha un o fandiau'r dreth gyngor yr oeddent (Ffigur 3.1).

Mae atebion i'r cwestiwn hwn wedi aros yn gyson ers 2022. Y band mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr bob blwyddyn yw Band D (2022 – 25%; 2023 - 25% a 2024 - 23%). Y band a nodwyd leiaf aml yw Band I (2022 - 0%; 2023 - 1% a 2024 - 1%).

**Ffigur 3.1: Beth yw eich band treth gyngor?**




Sylfaen: 919 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.1: Graff bar yn dangos dosbarthiad bandiau'r dreth gyngor ymhlith ymatebwyr sy'n talu'r dreth gyngor. Band A yw'r band isaf a gymhwysir at eiddo a Band I yw'r band uchaf. Y band mwyaf cyffredin a nodwyd gan yr ymatebwyr oedd Band D (25%), ac yna Fand C (16%).

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru


Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oeddent yn cael unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau yn eu bil treth gyngor. Nododd tua dau o bob tri ymatebydd (63%) nad oeddent

**Troednodiadau**

[1] Anheddau sy'n destun treth gyngor yn ôl awdurdod a band (StatsCymru). Mae data StatsCymru yn awgrymu, ym mlwyddyn ariannol 2025-26, mai Band C yw'r band mwyaf cyffredin (21.8%), ac yna Fand B (20.7%). Gellid priodoli dosbarthiad gwahanol y bandiau yn y sampl hon i'r ffaith mai arolwg o unigolion yw hwn yn hytrach nag aelwydydd a'r posibilrwydd bod ymatebwyr wedi nodi'r band anghywir. Nid oedd methodoleg yr arolwg yn caniatáu i ymatebwyr wirio eu hatebion drwy gyfeirio, er enghraifft, at fil treth gyngor diweddar. Gan nad oedd 17% o'r ymatebwyr yn siŵr ym mha un o fandiau'r dreth gyngor yr oeddent, ni ellir diystyru'r posibilrwydd bod rhai atebion yn anghywir.

yn eu cael, sy'n awgrymu eu bod yn talu bil llawn heb ei newid sy'n seiliedig ar fand eu heiddo. Nid oedd cyfran fach (4%) o'r ymatebwyr yn siŵr a oeddent yn cael unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau. Nododd tua un o bob tri ymatebydd (33%) eu bod yn cael un disgownt, eithriad neu ostyngiad neu fwy (Ffigur 3.2).

**Ffigur 3.2: Ydych chi'n derbyn unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau yn y dreth gyngor?**




Sylfaen: 919 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.2: Graff bar yn dangos nad oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cael unrhyw ddisgowntiau, eithriadau na gostyngiadau yn y dreth gyngor ac felly eu bod yn talu bil llawn heb ei newid yn seiliedig ar fand eu heiddo.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a nododd eu bod yn cael disgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau, beth roeddent yn ei gael. Roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu ymateb testun rhydd a chafodd ymatebion tebyg eu grwpio ynghyd. Y disgownt person sengl oedd y disgownt mwyaf cyffredin a nodwyd (49%) (Tabl 3.2).

**Tabl 3.2**: **Pa ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau ydych chi'n eu derbyn?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Disgownt Person Sengl | 49 |
| Budd-dal y Dreth Gyngor / Gostyngiad | 9 |
| Disgownt Anabledd / Taliad Annibyniaeth Personol | 8 |
| Yn cael y budd-dal tai | 5 |
| Yn cael budd-daliadau (heb eu nodi) | 3 |
| Disgownt myfyriwr | 2 |
| Gostyngiad oherwydd incwm isel | 2 |
| Yn cael Credyd Cynhwysol | 2 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** |
| Eraill | 15 |
| Ddim yn gwybod / ddim yn siŵr | 4 |
| Heb ateb | 2 |


Sylfaen: 300 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Nid oedd pob un o'r atebion a roddwyd gan ymatebwyr yn ymwneud â disgownt, eithriad neu ostyngiad presennol.

Gellir talu'r dreth gyngor yn wythnosol, yn fisol, dros 10 neu 12 mis neu mewn cyfandaliad blynyddol. Nododd tua hanner yr ymatebwyr (53%) eu bod yn talu eu treth gyngor dros 10 rhandaliad misol, a nododd tua thraean (32%) eu bod yn talu mewn 12 o randaliadau misol. Roedd yn llawer llai cyffredin i ymatebwyr dalu'n wythnosol neu'n flynyddol (3% ac 8%, yn y drefn honno). Nid oedd cyfran fach o ymatebwyr (4%) yn gwybod sut roeddent yn talu'r dreth gyngor (Ffigur 3.3).

**Ffigur 3.3: Sut mae eich cartref yn talu'r dreth gyngor?**





Sylfaen: 919 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.3: Graff bar yn dangos bod tua hanner yr ymatebwyr yn talu eu treth gyngor dros 10 rhandaliad misol a bod ychydig llai na thraean yn talu dros 12 o randaliadau misol.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Yn ogystal â gofyn pa mor aml roeddent yn gwneud taliadau, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi faint roeddent yn ei dalu. Cafodd yr ymatebion eu dosbarthu i ystodau gwerth. O'r 29 o ymatebwyr a oedd yn talu'n wythnosol, roedd 9 yn talu rhwng £1 a £30, roedd 15 yn talu rhwng £31 a £50 ac roedd 4 yn talu mwy na £50 (atebodd yr ymatebydd arall 'ddim yn gwybod'). O'r rhai a oedd yn talu'n fisol, yr ystod gwerthoedd fwyaf cyffredin oedd rhwng £151 a £200 y mis (29%) (Ffigur 3.4) [troednodyn 2]. O'r 69 o ymatebwyr a oedd yn talu cyfandaliad blynyddol, roedd tri yn talu £100 neu lai, roedd 17 yn talu rhwng £101 a £1,000, roedd 20 yn talu rhwng £1,001 a £2,000, roedd chwech yn talu rhwng £2,001 a £3,000 ac roedd saith yn talu mwy na £3,000 (atebodd yr ymatebwyr eraill 'ddim yn gwybod').

**Ffigur 3.4: Faint o dreth gyngor mae eich cartref yn ei thalu y mis?**




Sylfaen: 781 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.4: Graff bar yn dangos swm y dreth gyngor a delir gan ymatebwyr. O ran yr ymatebwyr hynny a oedd yn talu eu treth gyngor mewn rhandaliadau misol, yr ystod gwerthoedd fwy cyffredin oedd rhwng £151 a £200 y mis.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Mae'r canlyniadau hyn yn cynnwys ymatebion gan ymatebwyr sy'n talu mewn 10 neu 12 o randaliadau misol, a fydd yn dylanwadu ar eu cyfradd fisol.

**Troednodiadau**

[2] Mae canlyniadau'r ateb hwn yn cyfuno atebion gan y rhai sy'n talu mewn 10 a 12 o randaliadau misol, a fydd yn dylanwadu ar y gyfradd fisol.


## 3.2. Gwybodaeth am system bresennol y dreth gyngor ac agweddau tuag ati

Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a oedd yn gwybod eithaf tipyn am y dreth gyngor a'r rhai a oedd ond yn gwybod ychydig iawn. Pan ofynnwyd iddynt enwi gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor, y gwasanaethau mwyaf cyffredin a enwyd oedd ailgylchu a chasglu gwastraff, plismona a ffyrdd neu gynnal a chadw ffyrdd.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau i fesur lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth o system y dreth gyngor a chanfyddiadau o degwch y system honno.

Gofynnwyd i bob ymatebydd faint roedd yn ei wybod am y dreth gyngor. Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a nododd eu bod yn gwybod eithaf tipyn (43%) a'r rhai a oedd ond yn gwybod ychydig iawn (42%). Nododd cyfran fach o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod llawer iawn am y dreth gyngor (9%) neu nad oeddent yn gwybod dim byd o gwbl (5%) (Ffigur 3.5).

**Ffigur 3.5: Faint fyddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor?**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.5: Graff bar yn dangos bod tua dau o bob pum ymatebydd ond yn gwybod ychydig iawn am y dreth gyngor a bod cyfran debyg yn nodi eu bod yn gwybod eithaf tipyn.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol o ran gwybodaeth ymatebwyr am y dreth gyngor yn ôl rhanbarth, rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, anabledd, strwythur yr aelwyd, statws talu'r dreth gyngor a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi eu bod yn gwybod **llawer iawn** neu **eithaf tipyn** am y dreth gyngor:

- yn byw yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain (59%, o gymharu â 44% yn y gogledd)
- yn ddynion (56%, o gymharu â 47% o fenywod)
- yn 55 oed a hŷn (56%) neu 35 i 54 oed (53%), o gymharu â 43% o'r rhai 16 i 34 oed.
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (68% o gymharu â 51% yn C1, 50% yn C2 a 41% yn DE)
- yn gyflogeion llawn amser neu'n hunangyflogedig (60% yr un, o gymharu â 27% o fyfyrwyr)
- yn ennill dros £75,000 y flwyddyn (72%, o gymharu â 52% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 50% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999, 40% yn ennill llai na £15,000 a 34% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999)
- yn berchenogion eiddo (54%, o gymharu â 43% o rentwyr cymdeithasol)
- yn bobl nad oeddent yn anabl (54%, o gymharu â 45% o'r rhai a oedd yn anabl)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion (60%, o gymharu â 51% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn yn unig, 50% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion a 41% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn â dibynyddion)
- yn rhai a oedd yn cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (60%, o gymharu â 49% o'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn a 36% o'r rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor)
- ym mandiau E, F, G, H, ac I y dreth gyngor (65%, o gymharu â 49% ym mand B ac ym mand C).


Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi eu bod ond yn gwybod **ychydig iawn** am y dreth gyngor, neu **ddim byd o gwbl**:

- yn byw yn y gogledd (56%, o gymharu â 40% yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain)
- yn fenywod (52%, o gymharu â 42% o ddynion)
- yn 16 i 34 oed (54%, o gymharu â 43% o'r rhai 55 oed a hŷn)
- yn rhai gradd gymdeithasol DE (58%, o gymharu â 48% yn C1 a 30% yn AB)

- yn fyfyrwyr (70%, o gymharu â 46% o'r rhai sydd wedi ymddeol, 39% o gyflogeion llawn amser a 36% o'r rhai hunangyflogedig)
- yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 y flwyddyn (66%, o gymharu â 50% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999, 47% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 37% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 ac 28% yn ennill mwy na £75,000)
- yn rhentwyr cymdeithasol (56%, o gymharu â 44% o berchenogion eiddo)
- yn anabl (54%, o gymharu â 44% o'r rhai nad oeddent yn anabl)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd un oedolyn â dibynyddion (59%, o gymharu â 39% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion)
- yn rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor (61%, o gymharu â 40% o'r rhai sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor)
- ym mand B neu fand C y dreth gyngor (51% yr un, o gymharu â 39% ym mand D a 34% ym mandiau E, F, G, H ac I).

Mae Ffigur 3.6 yn dangos cymhariaeth o'r ymatebion ers i'r arolwg gael ei lansio yn 2022. Yn 2025, nododd 9% o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod 'llawer iawn' am y dreth gyngor. Roedd hyn dipyn yn uwch nag a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol (o gymharu â 6% yn 2024, 5% yn 2023 a 5% yn 2022).

**Ffigur 3.6: Faint fyddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor? Yn ôl blwyddyn (2022 i 2025)**




Sylfaen: 2022 – 1,000 o ymatebwyr; 2023 – 1,000 o ymatebwyr; 2024 – 1,000 o ymatebwyr a 2025 - 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.6: Graff bar yn dangos bod tua dau o bob pum ymatebydd, rhwng 2022 a 2025, yn gwybod eithaf tipyn am y dreth gyngor a bod cyfran debyg wedi nodi eu bod ond yn gwybod ychydig iawn. Yn 2025, nododd 9% o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod 'llawer iawn' am y dreth gyngor - roedd hyn yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol (o gymharu â 6% yn 2024, 5% yn 2023 a 5% yn 2022).

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Er mwyn mesur lefelau dealltwriaeth o'r ffordd mae'r dreth gyngor yn cael ei defnyddio, gofynnwyd i bob ymatebydd enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor. Y gwasanaeth mwyaf cyffredin a enwyd oedd biniau neu gasglu sbwriel (46%), yna blismona (38%) a ffyrdd neu gynnal a chadw ffyrdd (28%) (Tabl 3.3). Ers 2022, mae'r ymatebion hyn wedi bod ymhlith y tri gwasanaeth mwyaf cyffredin a enwyd yn gyson (Ffigur 3.7).


### Tabl 3.3: Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor?

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Biniau / casglu sbwriel | 46 |
| Yr heddlu | 38 |
| Ffyrdd / cynnal a chadw ffyrdd | 28 |
| Addysg / ysgolion | 20 |
| Gwastraff / casglu gwastraff / rheoli gwastraff | 14 |
| Gofal cymdeithasol / gwasanaethau cymdeithasol | 10 |
| Goleuadau stryd / goleuadau | 10 |
| Cyngor / cynghorwyr / llywodraeth | 10 |
| Tân / gwasanaethau tân | 9 |
| Ailgylchu | 9 |
| Llyfrgelloedd | 8 |
| Parciau | 5 |
| Glanhau strydoedd | 5 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** |
| Eraill | 5 |
| Ddim yn gwybod | 8 |
| Heb ateb | 5 |

Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

### Ffigur 3.7: Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor? Y tri ymateb mwyaf cyffredin yn ôl blwyddyn (2022 i 2025)




Sylfaen: 2022 – 1,000 o ymatebwyr; 2023 – 1,000 o ymatebwyr; 2024 – 1,000 o ymatebwyr a 2025 - 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.7: Graff bar yn dangos, rhwng 2022 a 2025, mai'r tri gwasanaeth mwyaf cyffredin a nodwyd oedd biniau neu gasglu sbwriel, yr heddlu a ffyrdd neu gynnal a chadw ffyrdd.


Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Dangosodd yr arolwg fod y mwyafrif o’r ymatebwyr yn ystyried bod talu’r dreth gyngor yn broses syml, eu bod yn ymwybodol o’r cymorth a all fod ar gael i dalu’r dreth gyngor, y byddent yn gwybod â phwy y dylid cysylltu pe bai ganddynt broblem gyda’r dreth gyngor ac nad oeddent yn ei chael hi’n anodd deall eu bil treth gyngor. Cymysg oedd agweddau’r ymatebwyr o ran a yw eu bil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref.

Gofynnwyd i’r ymatebwyr a nododd eu bod yn talu’r dreth gyngor nodi i ba raddau roeddent yn cytuno neu’n anghytuno â chyfres o osodiadau am system bresennol y dreth gyngor:

- mae talu’r dreth gyngor yn broses syml
- dydw i ddim yn gwybod â phwy y dylid cysylltu os oes gen i broblem gyda’r dreth gyngor
- rwyf yn ymwybodol o’r cymorth treth gyngor a allai fod ar gael
- mae’n anodd deall fy mil treth gyngor
- mae fy mil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol fy nghartref.

**Ffigur 3.8: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor**




Sylfaen: 919 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.8: Siart far yn dangos bod y mwyafrif o’r ymatebwyr yn cytuno bod talu’r dreth gyngor yn broses syml, eu bod yn ymwybodol o’r cymorth a all fod ar gael, y byddent yn gwybod â phwy y dylid cysylltu pe bai ganddynt broblem gyda’r dreth gyngor ac nad oeddent yn ei chael hi’n anodd deall eu bil treth gyngor. Cymysg oedd agweddau’r ymatebwyr o ran a yw eu bil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Mae ‘Cytuno’ yn cyfuno’r ymatebion ‘Cytuno’n Gryf’ a ‘Cytuno.’ Mae ‘Anghytuno’ yn cyfuno’r ymatebion ‘Anghytuno’n Gryf’ ac ‘Anghytuno.’

Fel y dengys Ffigur 3.8, roedd tua phedwar o bob pum ymatebydd (83%) yn cytuno bod **talu'r dreth gyngor yn broses syml**. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, anabledd a strwythur yr aelwyd.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod talu'r dreth gyngor yn broses syml:

- yn 55 oed a hŷn (91% o gymharu ag 85% o'r rhai 35 i 54 oed a 69% o'r rhai 16 i 34 oed)
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (86%), C1 (86%) neu C2 (85%), o gymharu â 76% yn DE
- wedi ymddeol (92%, o gymharu â 75% o gyflogeion rhan-amser, 60% o'r rhai di-waith a 54% o fyfyrwyr)
- yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 (89%), rhwng £30,000 a £49,999 (88%) neu fwy na £75,000 (88%) y flwyddyn, o gymharu â 75% a oedd yn ennill llai na £15,000 a 62% a oedd yn ennill rhwng £15,000 a £19,999.
- yn berchenogion eiddo (87%, o gymharu ag 80% o rentwyr preifat a 74% o rentwyr cymdeithasol)
- yn bobl nad oeddent yn anabl (86%, o gymharu â 78% o'r rhai a oedd yn anabl)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion (87%) neu mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (85%), o gymharu â 74% o aelwydydd lle roedd un oedolyn â dibynyddion.

Roedd bron tri chwarter yr ymatebwyr (71%) yn anghytuno â'r gosodiad **nad oeddent yn gwybod â phwy y dylid cysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor**. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhywedd, oedran, statws gweithio, strwythur yr aelwyd a statws talu'r dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno nad oeddent yn gwybod â phwy y dylid cysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor:

- yn fenywod (75%, o gymharu â 67% o ddynion)
- yn 55 oed a hŷn (77%) neu'n 35 i 54 oed (72%), o gymharu â 61% o'r rhai 16 i 34 oed.

- wedi ymddeol (79%, o gymharu â 71% o gyflogeion llawn amser, 52% o’r rhai di-waith a 46% o fyfyrwyr)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd un oedolyn yn unig (78%, o gymharu â 69% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion)
- yn rhai a oedd yn cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (78%, o gymharu â 68% o’r rhai sy’n talu’r dreth gyngor yn llawn).

Roedd tua dau o bob tri ymatebydd (65%) yn cytuno eu bod yn **ymwybodol o’r cymorth a all fod ar gael i dalu’r dreth gyngor**. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, deiliadaeth, strwythur yr aelwyd a statws talu’r dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn ymwybodol o’r cymorth a all fod ar gael i dalu’r dreth gyngor:

- yn byw yn y Cymoedd (72%, o gymharu â 61% yr un yn y gogledd ac yng Nghaerdydd a’r de-ddwyrain)
- yn ddynion (69%, o gymharu â 60% o fenywod)
- yn 55 oed a hŷn (69%, o gymharu â 59% o’r rhai 16 i 34 oed)
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (71%, o gymharu â 60% yn C1 ac yn C2)
- yn hunangyflogedig (74%, o gymharu â 53% o gyflogeion rhan-amser, 52% o fyfyrwyr a 47% o’r rhai di-waith)
- yn rhentwyr cymdeithasol (74%, o gymharu â 62% o berchenogion eiddo)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd un oedolyn yn unig (72%, o gymharu â 62% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion)
- yn rhai a oedd yn cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (78%, o gymharu â 58% o’r rhai sy’n talu’r dreth gyngor yn llawn).

Roedd tua dau o bob tri ymatebydd (64%) yn anghytuno â’r gosodiad bod eu **biliau treth gyngor yn anodd i’w deall**. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth ac anabledd.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno bod eu bil treth gyngor yn anodd i’w ddeall:

- yn 55 oed a hŷn (70%) neu'n 35 i 54 oed (65%), o gymharu â 52% o'r rhai 16 i 34 oed
- yn rhai gradd gymdeithasol C1 (72%, o gymharu â 59% yn C2 a 54% yn DE)
- wedi ymddeol (74, o gymharu â 59% o'r rhai hunangyflogedig, 49% o gyflogeion rhan-amser, 40% o'r rhai di-waith a 36% o fyfyrwyr)
- yn ennill mwy na £75,000 (73%) neu rhwng £50,000 a £74,999 (72%) y flwyddyn, o gymharu â 53% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 a 51% yn ennill llai na £15,000
- yn berchenogion eiddo (67%) neu'n rhentwyr preifat (65%), o gymharu â 53% o rentwyr cymdeithasol
- yn bobl nad oeddent yn anabl (67%, o gymharu â 56% o'r rhai a oedd yn anabl).

Mewn perthynas â'r gosodiad ynghylch a yw eu **bil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref**, roedd tua hanner yr ymatebwyr (49%) yn cytuno ac roedd tua dau o bob pum ymatebydd (38%) yn anghytuno. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, statws gweithio, incwm, deiliadaeth a statws talu'r dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod eu bil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth eu cartref:

- yn byw yng ngorllewin de Cymru (55%), Caerdydd a'r de-ddwyrain (54%) neu'r Cymoedd (50%), o gymharu â 39% yn y gogledd.
- yn 55 oed a hŷn (52%, o gymharu â 43% o'r rhai 35 i 54 oed)
- wedi ymddeol (58%), yn fyfyrwyr (58%), yn hunangyflogedig (55%) neu'n gyflogeion llawn amser (48%), o gymharu â 35% o gyflogeion rhan- amser
- yn ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (64%, o gymharu â 49% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999, 44% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 41% yn ennill llai na £15,000 a 34% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999)
- yn berchenogion eiddo (51%, o gymharu â 41% o rentwyr cymdeithasol)
- yn rhai a oedd yn cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (54%, o gymharu â 46% o'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno bod eu biliau treth gyngor yn adlewyrchu gwerth eu cartref:

- yn byw yn y gogledd (46%, o gymharu â 34% yn y Cymoedd a 32% yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain)
- yn 35 i 54 oed (44%, o gymharu â 34% o'r rhai 55 oed a hŷn)
- yn ddi-waith (49%, o gymharu â 25% o'r rhai sydd wedi ymddeol)
- yn ennill rhwng £30,000 a £49,999 y flwyddyn (47%, o gymharu â 33% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999, 31% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 a 27% yn ennill mwy na £75,000).


Mae'n werth nodi bod mwy nag un o bob deg ymatebydd (14%) wedi rhoi'r ateb 'ddim yn gwybod' mewn ymateb i'r gosodiad olaf hwn.

Dangosodd yr arolwg fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno eu bod wedi gweld budd refeniw'r dreth gyngor yn cael ei fuddsoddi yn eu cymuned leol neu fod system y dreth gyngor yn deg a nododd dros hanner nad oedd yn glir iddynt sut mae refeniw'r dreth gyngor yn cael ei wario. Cymysg oedd agweddau'r ymatebwyr ynghylch i ba raddau y mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu ac a oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor.

Gofynnwyd i bawb a gymerodd ran yn yr arolwg nodi i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres bellach o osodiadau am system bresennol y dreth gyngor:

- mae system y dreth gyngor yn deg
- rwyf wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn fy nghymuned leol
- mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu
- nid oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor
- nid yw'n glir i mi sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario.

**Ffigur 3.9: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.9: Siart far yn dangos fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno eu bod wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol neu fod system y dreth gyngor yn deg a nododd dros hanner nad oedd yn glir iddynt sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario. Cymysg oedd agweddau'r ymatebwyr ynghylch i ba raddau y mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu ac a oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Mae 'Cytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Cytuno'n Gryf' a 'Cytuno.' Mae 'Anghytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Anghytuno'n Gryf' ac 'Anghytuno.'

Fel y dengys Ffigur 3.9, roedd tri o bob pum ymatebydd (60%) yn anghytuno â'r gosodiad bod **system y dreth gyngor yn deg**. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, anabledd, strwythur yr aelwyd, statws talu'r dreth gyngor a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno bod system y dreth gyngor yn deg:

- yn byw yn y canolbarth a'r gorllewin (72%, o gymharu â 59% yng ngorllewin de Cymru, 59% yn y Cymoedd a 49% yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain)
- yn fenywod (63%, o gymharu â 56% o ddynion)
- yn 55 oed a hŷn (65%) neu'n 35 i 54 oed (64%), o gymharu â 47% o'r rhai 16 i 34 oed.
- yn rhai gradd gymdeithasol C1 (64%), C2 (62%) neu DE (61%), o gymharu â 49% yn AB

- wedi ymddeol (63%), yn gyflogeion rhan-amser (62%) neu'n gyflogeion llawn amser (60%), o gymharu â 42% o fyfyrwyr
- yn ennill rhwng £30,000 a £49,999 (68%) neu rhwng £20,000 a £29,999 (66%) y flwyddyn, o gymharu â 54% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 a 37% yn ennill mwy na £75,000
- yn anabl (67%, o gymharu â 56% o'r rhai nad ydynt yn anabl)
- yn byw mewn aelwyd lle mae dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (64%, o gymharu â 54% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion)
- yn rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn (63%) neu'n rhai sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (59%), o gymharu â 38% o'r rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor
- ym mand C y dreth gyngor (68%, o gymharu â 54% ym mandiau E, F, G, H ac I).

Roedd y mwyafrif (63%) o'r ymatebwyr hefyd yn anghytuno eu bod wedi **gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol**. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, anabledd, strwythur yr aelwyd a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno eu bod wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol:

- yn byw yn y gogledd (72%) neu'r canolbarth a'r gorllewin (70%), o gymharu â 57% yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain a 54% yng ngorllewin de Cymru
- yn fenywod (69%, o gymharu â 56% o ddynion)
- yn 55 oed a hŷn (72% o gymharu ag 61% o'r rhai 35 i 54 oed a 52% o'r rhai 16 i 34 oed)
- yn rhai gradd gymdeithasol DE (70%), C2 (68%) neu C1 (64%), o gymharu â 47% yn AB
- wedi ymddeol neu'n gyflogeion rhan-amser (70% yr un, o gymharu â 59% o gyflogeion llawn amser a 49% o fyfyrwyr)
- yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 y flwyddyn (80%, o gymharu â 51% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 a 37% yn ennill mwy na £75,000)
- yn anabl (71%, o gymharu â 60% o'r rhai nad oeddent yn anabl)

- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (70%) neu un oedolyn yn unig (66%), o gymharu â 54% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion
- ym mand B (74%) neu fand C (71%) y dreth gyngor, o gymharu â 54% ym mandiau E, F, G, H ac I.

Mewn perthynas â'r gosodiad ynghylch a yw **system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu**, roedd tua hanner yr holl ymatebwyr (46%) yn cytuno ac roedd tua dau o bob pum ymatebydd (37%) yn anghytuno. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, strwythur yr aelwyd a statws talu'r dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu:

- yn byw yng ngorllewin de Cymru (51%, o gymharu â 40% yn y gogledd)
- yn ddynion (52%, o gymharu â 41% o fenywod)
- yn 55 oed a hŷn (51%, o gymharu â 40% o'r rhai 35 i 54 oed)
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (54%) neu DE (50%), o gymharu â 40% yn C2
- yn hunangyflogedig (58%) neu wedi ymddeol (53%), o gymharu â 44% o gyflogeion llawn amser a 38% o gyflogeion rhan-amser
- yn ennill llai na £15,000 y flwyddyn (58%, o gymharu â 45% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999, 43% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999 a 40% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd un oedolyn yn unig (52%, o gymharu â 42% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion)
- yn rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor (65%) neu'n rhai sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (54%), o gymharu â 40% o'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno bod system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu:

- yn byw yn y canolbarth a'r gorllewin (41%, o gymharu â 29% yng ngorllewin de Cymru)

- yn fenywod (41%, o gymharu â 33% o ddynion)
- yn 35 i 54 oed (45%, o gymharu â 30% o'r rhai 55 oed a hŷn)
- yn ddi-waith (48%), yn gyflogeion llawn amser neu'n gyflogeion rhan-amser (44% yr un), o gymharu â 24% o'r rhai sydd wedi ymddeol
- yn ennill rhwng £30,000 a £49,999 (44%), rhwng £20,000 a £29,999 (43%) neu rhwng £50,000 a £74,999 (38%) y flwyddyn, o gymharu â 25% yn ennill llai na £15,000 a 25% yn ennill mwy na £75,000
- yn rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn (41%, o gymharu â 33% o'r rhai sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor a 17% o'r rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor).

Mewn perthynas â'r gosodiad **nad oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor**, roedd tua thraean o'r ymatebwyr (30%) yn cytuno ac roedd tua hanner yr ymatebwyr (45%) yn anghytuno. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, strwythur yr aelwyd a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno nad oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor:

- yn 16 i 34 oed (39%, o gymharu â 28% o'r rhai 55 oed a hŷn a 25% o'r rhai 35 i 54 oed)
- yn gyflogeion llawn amser (33%, o gymharu â 22% o gyflogeion rhan-amser).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno nad oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor:

- yn byw yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain (52%), o gymharu â 40% yn y gogledd a 38% yn y Cymoedd
- yn 35 i 54 oed (49%) neu'n 55 oed a hŷn (47%), o gymharu â 38% o'r rhai 16 i 34 oed
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (50%) neu C1 (49%), o gymharu â 40% yn DE
- yn gyflogeion llawn amser (48%, o gymharu â 31% o fyfyrwyr)

- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion (51%, o gymharu â 40% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion)
- ym mandiau E, F, G, H ac I y dreth gyngor (54%, o gymharu â 40% ym mand B).

Mae'n werth nodi bod un o bob pedwar ymatebydd (25%) wedi rhoi'r ateb 'ddim yn gwybod' mewn ymateb i'r gosodiad hwn.

Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr (56%) yn cytuno **nad oedd yn glir iddynt sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario**. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhywedd, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, strwythur yr aelwyd, statws talu'r dreth gyngor a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno nad oedd yn glir iddynt sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario:


- yn fenywod (60%, o gymharu â 52% o ddynion)
- yn rhai gradd gymdeithasol DE (63%), C2 (59%) neu C1 (55%) o gymharu â 45% yn AB
- yn fyfyrwyr (69%) neu'n gyflogeion rhan-amser (64%), o gymharu â 51% o'r rhai sydd wedi ymddeol
- yn ennill llai na £15,000 (64%), rhwng £15,000 a £19,999 (63%) neu rhwng £20,000 a £29,999 (62%) y flwyddyn, o gymharu â 35% yn ennill mwy na £75,000
- yn rhentwyr cymdeithasol (62%, o gymharu â 53% o berchenogion eiddo)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd un oedolyn â dibynyddion (65%) neu un oedolyn yn unig (60%), o gymharu â 51% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion
- ym mand B y dreth gyngor (66%, o gymharu â 51% ym mand D a 44% ym mandiau E, F, G, H ac I).

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu yn rhy uchel. Pan roddwyd gwybodaeth iddynt am y gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor, nododd cyfran lai o'r ymatebwyr fod eu bil treth gyngor yn rhy uchel a nododd cyfran fwy o'r ymatebwyr fod eu bil yn agos at ei le neu'n rhy isel yng ngoleuni'r wybodaeth hon.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd yn talu'r dreth gyngor, yn seiliedig ar eu hincwm a'u gwariant, sut y byddent yn disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'w cartref ei dalu. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr (62%) bod eu treth gyngor yn 'rhy uchel'. Rhoddodd un o bob 10 ymatebydd (10%) yr ateb 'ddim yn gwybod' pan gawsant eu holi am swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu (Ffigur 3.10).

Roedd gostyngiad sylweddol yng nghanran yr ymatebwyr a ddywedodd 'ddim yn gwybod' rhwng 2022 (14%) a 2025 (10%) (Ffigur 3.11).

**Ffigur 3.10: Yn seiliedig ar eich incwm a'ch gwariant, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu?**





Sylfaen: 919 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.10: Graff bar yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi nodi bod swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu yn 'rhy uchel'.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

**Ffigur 3.11: Yn seiliedig ar eich incwm a'ch gwariant, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu? Yn ôl blwyddyn (2022 i 2025)**




Sylfaen: 2022 – 927 o ymatebwyr; 2023 – 894 o ymatebwyr; 2024 – 915 o ymatebwyr a 2025 – 919 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.11: Graff bar yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg rhwng 2022 a 2025 wedi nodi bod swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu yn 'rhy uchel'. Roedd gostyngiad yng nghanran yr ymatebwyr a ddywedodd 'ddim yn gwybod' rhwng 2022 (14%) a 2025 (10%).

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, anabledd, strwythur yr aelwyd, statws talu'r dreth gyngor a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi bod y dreth gyngor yn '**rhy uchel**':

- yn byw yn y canolbarth a'r gorllewin (72%, o gymharu â 55% yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain)
- yn fenywod (67%, o gymharu â 57% o ddynion)
- yn 35 i 54 oed (68%) neu'n 55 oed a hŷn (67%), o gymharu â 48% o'r rhai 16 i 34 oed
- yn rhai gradd gymdeithasol C2 (69%), C1 (68%) neu DE (65%), o gymharu â 45% yn AB
- yn ddi-waith (71%), yn hunangyflogedig (66%), yn gyflogeion rhan-amser (63%) neu'n gyflogeion llawn amser (61%), o gymharu â 38% o fyfyrwyr

- yn ennill rhwng £20,000 a £29,999 (73%), rhwng £15,000 a £19,999 (68%), rhwng £30,000 a £49,999 (66%), llai na £15,000 (65%) neu rhwng £50,000 a £74,999 (61%) y flwyddyn, o gymharu â 38% yn ennill mwy na £75,000
- yn rhentwyr preifat (71%, o gymharu â 61% o berchenogion eiddo)
- yn rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn (66%, o gymharu â 55% o'r rhai sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor)
- ym mand D (72%) neu C (68%) y dreth gyngor, o gymharu â 54% ym mandiau E, F, G, H ac I.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi bod y dreth gyngor yn '**agos at ei lle**':

- yn byw yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain (34%, o gymharu â 22% yn y gogledd ac 21% yn y canolbarth a'r gorllewin)
- yn ddynion (32%, o gymharu â 22% o fenywod)
- yn 16 i 34 oed (35%, o gymharu â 25% o'r rhai 55 oed a hŷn a 22% o'r rhai 35 i 54 oed)
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (48%, o gymharu â 26% yn C1, 20% yn DE a 17% yn C2)
- yn ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (57%, o gymharu â 29% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999, 28% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 22% yn ennill llai na £15,000, 18% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999 ac 16% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999)
- yn bobl nad oeddent yn anabl (29%, o gymharu â 22% o'r rhai a oedd yn anabl)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion (34%, o gymharu â 23% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion a 18% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn â dibynyddion)
- yn cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (34%, o gymharu â 24% o'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn)
- ym mandiau E, F, G, H ac I y dreth gyngor (40%, o gymharu â 26% o'r rhai ym mand B, 26% ym mand C a 21% ym mand D).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi **'ddim yn gwybod'**:

- yn 16 i 34 oed (16%, o gymharu â 9% o'r rhai 35 i 54 oed a 7% o'r rhai 55 oed a hŷn)

- yn rhai gradd gymdeithasol DE (15%) neu C2 (14%), o gymharu â 6% yn C1 a 6% yn AB
- yn fyfyrwyr (25%, o gymharu ag 8% o'r rhai sydd wedi ymddeol, 7% o gyflogeion llawn amser a 7% o'r rhai hunangyflogedig)
- yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 (16%) neu lai na £15,000 (13%) y flwyddyn, o gymharu â 6% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999 a 3% yn ennill mwy na £75,000
- yn rhentwyr cymdeithasol (16%, o gymharu â 9% o berchenogion eiddo).

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a roddodd yr ateb 'rhy uchel' pam roeddent wedi dweud hynny a chafodd atebion tebyg eu grwpio ynghyd. Yr ymateb mwyaf cyffredin (28%) oedd ei bod yn ddrud iawn neu'n rhy uchel. Dywedodd tua un o bob 10 ymatebydd (12%) fod y dreth gyngor wedi cynyddu'n ddiweddar, dywedodd un o bob 10 ymatebydd (10%) na allant ei fforddio neu ei bod yn anodd ei fforddio a dywedodd un o bob deg ymatebydd (10%) ei bod yn werth gwael am arian (Tabl 3.4).

**Tabl 3.4: 'Rhy uchel' – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'rhy uchel' |
|---|---|
| Drud iawn / rhy uchel | 28 |
| Wedi cynyddu [cryn dipyn] yn ddiweddar, mae'n cynyddu drwy'r amser | 12 |
| Ddim yn gallu ei fforddio / mae'n anodd ei fforddio gyda'r arian sy'n dod i mewn, gwariant arall] | 10 |
| Gwerth gwael am arian | 10 |
| Mae gwasanaethau yn wael | 9 |
| Un o'n biliau mwyaf, rhan fawr o'n gwariant | 6 |
| Ar incwm isel / ddim yn ennill digon o gyflog/yn cael budd-daliadau | 6 |
| Ddim yn gweld unrhyw fudd / ddim yn defnyddio/cael unrhyw wasanaethau | 6 |
| Pensiynwyr ydyn ni | 5 |
| Gwasanaethau'n cael eu torri | 5 |
| Ddim yn gweld llawer o fudd / ddim yn defnyddio/cael llawer o wasanaethau | 5 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'rhy uchel'** |
| Eraill | 3 |
| Ddim yn gwybod | 1 |

Sylfaen: 573 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Ymhlith y 250 o ymatebwyr a roddodd yr ateb, ‘yn agos at ei lle’, yr esboniad mwyaf cyffredin a roddwyd ar gyfer yr ateb hwn oedd ei fod yn swm teg neu ei fod yn ymddangos yn rhesymol (33%). Nododd tua un o bob pum ymatebydd (17%) fod y dreth yn ‘agos at ei lle’ am eu bod yn gallu fforddio ei thalu ac roedd 16% yn ymwybodol o’i chyfraniad at wasanaethau (Tabl 3.5).

**Tabl 3.5**: **‘Yn agos at ei lle’ – Pam ydych chi’n dweud hyn?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb ‘yn agos at ei lle’ |
|---|---|
| Mae’n deg / swm teg / mae’n ymddangos yn rhesymol | 33 |
| Yn gallu ei fforddio | 17 |
| Mae’n talu am lawer o wasanaethau lleol / mae’n deg o ystyried y gwasanaethau rydym yn eu cael / mae angen ariannu gwasanaethau | 16 |
| Mae’n adlewyrchu ein heiddo / yr ardal lle rydym yn byw | 5 |
| Mae’n adlewyrchu incwm / seiliedig ar incwm | 5 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb ‘yn agos at ei lle’** |
| Eraill | 12 |
| Ddim yn gwybod | 3 |

Sylfaen: 250 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru


Wedyn, cafodd ymatebwyr i’r arolwg yr wybodaeth ganlynol am y ffordd y defnyddir y dreth gyngor yng Nghymru:

> “Mae’r dreth gyngor yng Nghymru yn helpu i ariannu gwasanaethau yn ein cymunedau, gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol, plismona, gwasanaethau tân ac achub, gwastraff ac ailgylchu, yn ogystal â llawer o wasanaethau eraill.”

Wedyn, gofynnwyd i’r ymatebwyr, yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae’r dreth gyngor yn eu hariannu, sut y byddent yn disgrifio swm y dreth gyngor y mae disgwyl i’w cartref ei dalu. **Ar ôl i’r wybodaeth hon gael ei chyflwyno**, nododd cyfran lai o’r ymatebwyr fod y dreth gyngor y gofynnir iddynt ei thalu yn ‘rhy uchel’ (53%, o gymharu â 62% cyn i’r wybodaeth gael ei darparu). Nododd cyfran fwy o’r ymatebwyr fod y swm y mae disgwyl iddynt ei dalu yn ‘agos at ei le’ (32%, o gymharu â 27% cyn i’r wybodaeth gael ei darparu). Ar ôl i’r wybodaeth gael ei chyflwyno, nododd 1% o’r ymatebwyr fod y swm roedd disgwyl iddynt ei dalu yn ‘rhy isel’ (Ffigur 3.12).

Roedd gostyngiad sylweddol yng nghanran yr ymatebwyr a nododd fod y swm y gofynnir iddynt ei dalu yn ‘rhy uchel’ rhwng 2024 (3%) a 2025 (1%) (Ffigur 3.13).

### Ffigur 3.12: Yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu?





Sylfaen: 919 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.12: Graff bar yn dangos bod cyfran lai o'r ymatebwyr, ar ôl cael ychydig o wybodaeth am y ffordd y defnyddir y dreth gyngor yng Nghymru, wedi nodi bod y dreth gyngor y gofynnir iddynt ei thalu yn 'rhy uchel' o gymharu â'r tro cyntaf y gofynnwyd y cwestiwn iddynt.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

### Ffigur 3.13: Yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu? Yn ôl blwyddyn (2022 i 2025)




Sylfaen: 2022 – 927 o ymatebwyr; 2023 – 894 o ymatebwyr; 2024 – 915 o ymatebwyr a 2025 – 919 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.13: Graff bar yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg rhwng 2022 a 2025 wedi nodi bod swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu yn 'rhy uchel'. Roedd gostyngiad yng nghyfran yr ymatebwyr a nododd fod y swm y gofynnir iddynt ei dalu yn 'rhy isel' rhwng 2024 (3%) a 2025 (1%).

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, strwythur yr aelwyd, statws talu'r dreth gyngor a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi bod y dreth gyngor yn **'rhy uchel'** ar ôl i wybodaeth am y gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor gael ei chyflwyno:

- yn byw yn y canolbarth a'r gorllewin (63%, o gymharu â 48% yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain)
- yn fenywod (56%, o gymharu â 49% o ddynion)
- yn 35 i 54 oed (60%) neu'n 55 oed a hŷn (58%), o gymharu â 37% o'r rhai 16 i 34 oed
- yn rhai gradd gymdeithasol C1 (57%), DE (57%) neu C2 (56%), o gymharu â 40% yn AB
- yn hunangyflogedig (62%), wedi ymddeol (57%), yn gyflogeion llawn amser (52%) neu'n gyflogeion rhan-amser (49%), o gymharu ag 28% o fyfyrwyr
- yn ennill llai na £15,000 (59%), rhwng £30,000 a £49,999 (58%), rhwng £20,000 a £29,999 (55%) neu rhwng £50,000 a £74,999 (54%) y flwyddyn, o gymharu â 37% yn ennill mwy na £75,000
- yn rhentwyr preifat (61%, o gymharu â 46% o rentwyr cymdeithasol)
- yn byw mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (60%, o gymharu â 50% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn yn unig a 49% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion)
- yn rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn (56%, o gymharu â 48% o'r rhai sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor)
- ym mand D y dreth gyngor (61%, o gymharu â 50% ym mandiau E, F, G, H ac I).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi bod y dreth gyngor yn '**agos at ei lle**' ar ôl i wybodaeth am y gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor gael ei chyflwyno:

- yn byw yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain (39%, o gymharu ag 28% yn y canolbarth a'r gorllewin a 27% yn y gogledd)
- yn ddynion (37%, o gymharu â 28% o fenywod)

- yn 16 i 34 oed (42%, o gymharu â 30% o'r rhai 55 oed a hŷn a 27% o'r rhai 35 i 54 oed)
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (51% o gymharu â 31% yn C1, 26% yn C2 a 25% yn DE)
- yn fyfyrwyr (50%) neu'n gyflogeion llawn amser (36%), o gymharu ag 20% o'r rhai sy'n hunangyflogedig
- yn ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (58%, o gymharu â 33% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999, 30% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 30% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999, 26% yn ennill llai na £15,000 a 22% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion (37%) neu un oedolyn yn unig (37%), o gymharu â 27% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion
- yn rhai a oedd yn cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (40%, o gymharu â 29% o'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn)
- ym mandiau E, F, G, H ac I y dreth gyngor (42%, o gymharu ag 28% ym mand D).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi **'ddim yn gwybod'** ar ôl i wybodaeth am y gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor gael ei chyflwyno:

- yn byw yn y gogledd (19%, o gymharu â 12% yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain a 9% yn y canolbarth a'r gorllewin)
- yn 16 i 34 oed (20%, o gymharu â 13% o'r rhai 35 i 54 oed ac 11% o'r rhai 55 oed a hŷn)
- yn rhai gradd gymdeithasol DE (18%) neu C2 (18%), o gymharu ag 11% yn C1 a 7% yn AB
- yn gyflogeion rhan-amser (21%, o gymharu â 10% o gyflogeion llawn amser a 10% o'r rhai sydd wedi ymddeol)
- yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 y flwyddyn (25%, o gymharu â 12% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 12% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 a 4% yn ennill mwy na £75,000)

- yn rhentwyr cymdeithasol (23%, o gymharu ag 11% o berchenogion eiddo a 10% o rentwyr preifat)
- ym mand B y dreth gyngor (14%, o gymharu â 6% ym mandiau E, F, G, H ac I).

Mae Tablau 3.6 a 3.7 yn cyflwyno'r ymatebion a roddwyd pan ofynnwyd i'r ymatebwyr pam roeddent wedi nodi bod eu treth gyngor yn 'rhy uchel' ac 'yn agos at ei lle' ar ôl i wybodaeth am y gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor gael ei chyflwyno.

Roedd y rhesymau a roddwyd gan y rhai a nododd bod y dreth gyngor yn 'rhy uchel' yn ymwneud â fforddiadwyedd yn ogystal â chanfyddiadau o wasanaethau. O'r 488 o ymatebwyr a nododd fod y dreth gyngor yn 'rhy uchel', dywedodd tua un o bob pump (22%) fod y dreth gyngor yn ddrud iawn/rhy uchel, dywedodd un o bob pump (20%) fod gwasanaethau yn wael a dywedodd tua un o bob deg (9%) fod arian y dreth gyngor yn cael ei wastraffu (Tabl 3.6).

**Tabl 3.6: Ymatebion ar ôl cael gwybodaeth – 'Rhy uchel' – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'rhy uchel' |
|---|---|
| Drud iawn / rhy uchel | 22 |
| Mae gwasanaethau yn wael | 20 |
| Mae arian yn cael ei wastraffu / mae cyflog cynghorwyr yn rhy uchel / gormod o dreuliau | 9 |
| Wedi cynyddu [cryn dipyn] yn ddiweddar, mae'n cynyddu drwy'r amser | 8 |
| Ddim yn gweld llawer o fudd / ddim yn defnyddio/cael llawer o wasanaethau | 8 |
| Ddim yn gallu ei fforddio / mae'n anodd ei fforddio gyda'r arian sy'n dod i mewn, gwariant arall] | 6 |
| Gwerth gwael am arian | 6 |
| Ddim yn gweld unrhyw fudd/ddim yn defnyddio neu'n cael unrhyw wasanaethau | 6 |
| Gwasanaethau'n cael eu torri | 6 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'rhy uchel'** |
| Eraill | 6 |
| Ddim yn gwybod | 2 |
| Heb ateb | 0 |

Sylfaen: 488 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

O'r 298 o ymatebwyr a nododd fod y dreth gyngor 'yn agos at ei lle', dywedodd traean (33%) fod y dreth gyngor yn talu am lawer o wasanaethau lleol, ei bod yn deg o ystyried y

gwasanaethau rydym yn eu cael neu fod angen i wasanaethau gael eu hariannu a dywedodd tua un o bob pump (22%) fod eu treth gyngor yn deg, ei bod yn swm teg neu ei bod yn ymddangos yn rhesymol (Tabl 3.7).

**Tabl 3.7**: **Ymatebion ar ôl cael gwybodaeth – 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'yn agos at ei lle'** |
|---|---|
| Mae'n talu am lawer o wasanaethau lleol / mae'n deg o ystyried y gwasanaethau rydym yn eu cael / mae angen ariannu gwasanaethau | 33 |
| Mae'n deg / swm teg / mae'n ymddangos yn rhesymol | 22 |
| Mae gwasanaethau yn dda / mae'r ardal yn cael ei chynnal yn dda | 6 |
| Yn gallu ei fforddio | 5 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'yn agos at ei lle'** |
| Eraill | 10 |
| Ddim yn gwybod | 6 |
| Heb ateb | 1 |

Sylfaen: 298 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru


## 3.3. Agweddau tuag at newid

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol i'w gwneud yn decach. Pan gawsant eu holi am opsiynau eraill, ystyriwyd mai system drethiant leol yn seiliedig ar incwm oedd y system decaf.

Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr hefyd roi eu barn ar newidiadau i system bresennol y dreth gyngor ac, yn benodol, a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol. Roedd tua dau o bob pum ymatebydd (42%) yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor, roedd tua un o bob pum ymatebydd (18%) yn anghytuno a rhoddodd dau o bob pum ymatebydd (40%) yr ateb 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn (Ffigur 3.14).

Roedd cynnydd sylweddol yng nghanran yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol rhwng mis Mawrth 2024 (14%) a mis Mawrth 2025 (18%) (Ffigur 3.15).

**Ffigur 3.14: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol?**





Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.14: Graff bar yn dangos bod dau o bob pum ymatebydd yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol i'w gwneud yn decach.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Mae 'Cytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Cytuno'n Gryf' a 'Cytuno.' Mae 'Anghytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Anghytuno'n Gryf' ac 'Anghytuno.'

**Ffigur 3.15: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y dylid disodli’r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol)? Yn ôl blwyddyn (2022 i 2025)**




Sylfaen: 2022 – 1,000 o ymatebwyr; 2023 – 1,000 o ymatebwyr; 2024 – 1,000 o ymatebwyr a 2025 – 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.15: Graff bar yn dangos bod y mwyafrif o’r ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg rhwng 2022 a 2025 yn cytuno y dylid disodli’r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol. Roedd cynnydd yng nghanran yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno y dylai’r dreth gyngor gael ei disodli â system drethiant leol wahanol rhwng 2024 (14%) a 2025 (18%).

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Mae ‘Cytuno’ yn cyfuno’r ymatebion ‘Cytuno’n Gryf’ a ‘Cytuno.’ Mae ‘Anghytuno’ yn cyfuno’r ymatebion ‘Anghytuno’n Gryf’ ac ‘Anghytuno.’

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, strwythur yr aelwyd a statws talu’r dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o ‘**gytuno**’ y dylid disodli’r dreth gyngor â system arall:

- yn byw yn y canolbarth a’r gorllewin (51%, o gymharu â 39% yn y Cymoedd a 36% yng ngorllewin de Cymru)
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (48%) neu C2 (46%), o gymharu â 37% yn DE
- yn hunangyflogedig (59%, o gymharu â 45% o gyflogeion llawn amser, 40% o’r rhai sydd wedi ymddeol, 39% o gyflogeion rhan-amser a 32% o fyfyrwyr)
- yn ennill rhwng £30,000 a £49,999 y flwyddyn (50%, o gymharu â 40% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 a 38% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999)

- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (47%) neu un oedolyn yn unig (45%), o gymharu â 36% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion
- yn cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (45%) neu'n talu'r dreth gyngor yn llawn (44%), o gymharu â 19% o'r rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor.

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o '**anghytuno**' y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall:

- yn byw yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain (23%, o gymharu â 14% yn y gogledd)
- yn ddynion (22%, o gymharu â 14% o fenywod)
- yn 16 i 34 oed (24%, o gymharu ag 16% o'r rhai 35 i 54 oed a 15% o'r rhai 55 oed a hŷn)
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (30% o gymharu â 18% yn C1, 14% yn C2 a 12% yn DE)
- yn fyfyrwyr (29%, o gymharu â 9% o gyflogeion rhan-amser)
- yn ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (41%, o gymharu â 17% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999, 17% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999, 15% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 14% yn ennill llai na £15,000 a 13% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999)
- yn berchenogion eiddo (20%, o gymharu â 13% o rentwyr cymdeithasol)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion (25%, o gymharu ag 16% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion, 15% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn yn unig a 14% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn â dibynyddion)
- yn cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (21%, o gymharu â 9% o'r rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor).

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o ddweud '**ddim yn gwybod**' o ran a ddylid disodli'r dreth gyngor â system arall:

- yn byw yng ngorllewin de Cymru (45%, o gymharu â 33% yn y canolbarth a'r gorllewin)
- yn fenywod (47%, o gymharu â 32% o ddynion)

- yn rhai gradd gymdeithasol DE (51%, o gymharu â 41% yn C1, 40% yn C2 a 22% yn AB)
- yn gyflogeion rhan-amser (52%, o gymharu â 33% o gyflogeion llawn amser a 27% o'r rhai hunangyflogedig)
- yn ennill rhwng £20,000 a £29,999 (44%), yn ennill llai na £15,000 (44%), yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 (43%), yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 (43%) neu'n ennill rhwng £30,000 a £49,999 (35%) y flwyddyn, o gymharu â 17% yn ennill mwy na £75,000
- yn rhentwyr cymdeithasol (49%, o gymharu â 38% o rentwyr preifat a 37% o berchenogion eiddo)
- yn rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor (72%, o gymharu â 39% o'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn a 34% o'r rhai sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor).

Gofynnwyd i'r 422 o ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall esbonio eu barn. Nododd tua chwarter yr ymatebwyr (23%) y dylid disodli'r dreth gyngor am fod y system yn annheg a nododd 15% o ymatebwyr y dylid disodli'r dreth gyngor am ei bod yn ddiffygiol neu wedi dyddio. Nododd 14% arall y dylai fod yn seiliedig ar incwm neu'r gallu i dalu neu y dylai ystyried incwm neu'r gallu i dalu (Tabl 3.8).

**Tabl 3.8: Cytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr sy'n 'cytuno'** |
|---|---|
| Mae'n annheg / er mwyn ei gwneud yn decach | 23 |
| Mae'r system yn ddiffygiol / wedi dyddio / mae angen ei hailwampio / ei hadolygu | 15 |
| Dylai fod yn seiliedig ar / ystyried incwm / y gallu i dalu | 14 |
| Mae angen lleihau'r gost / mae angen iddi fod yn rhatach / mae'n rhy ddrud ar hyn o bryd | 12 |
| Dylai fod yn seiliedig ar y gwasanaethau a ddefnyddir | 9 |
| Mae angen defnyddio arian yn fwy priodol / ei wario'n well / er mwyn cael gwasanaethau gwell | 6 |
| Ni ddylai fod yn seiliedig ar eiddo | 5 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr sy'n 'cytuno'** |
| Eraill | 9 |
| Ddim yn gwybod | 3 |
| Heb ateb | 0 |

Sylfaen: 422 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Gofynnwyd i'r 179 o ymatebwyr a oedd yn anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall esbonio eu barn. Y rheswm mwyaf cyffredin dros y farn hon, a fynegwyd gan 49% o'r ymatebwyr hyn, oedd bod y system bresennol yn iawn fel y mae ac nad oes angen ei diwygio. Nododd tua un o bob 10 ymatebydd (9%) fod y system bresennol yn deg. Dywedodd 8% arall o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw system amlwg i gymryd lle'r dreth gyngor neu fod system well ar gael a nododd 8% arall o'r ymatebwyr y byddai newid yn cynyddu costau (Tabl 3.9).

**Tabl 3.9: Anghytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr sy'n 'anghytuno'** |
|---|---|
| Mae'r system bresennol yn iawn / yn gweithio / yn iawn fel y mae / nid oes angen ei diwygio | 49 |
| Mae'r system bresennol yn deg | 9 |
| Nid oes unrhyw system amlwg i gymryd ei lle / ddim yn siŵr beth fyddai'n system well | 8 |
| Byddai newid y system yn cynyddu costau | 8 |
| Byddai newid yn gwneud y system yn fwy cymhleth / anodd i'w deall | 6 |
| Mae'n hawdd i'w deall / mae pawb yn ei deall | 5 |
| **Y tri ymateb mwyaf cyffredin a gyflwynwyd gan lai na 5% o'r ymatebwyr:** | |
| Mae angen defnyddio arian yn fwy priodol / ei wario'n well / er mwyn cael gwasanaethau gwell | |
| Mae'n annheg / er mwyn ei gwneud yn decach | |
| Byddai angen mwy o wybodaeth am unrhyw system i gymryd ei lle | |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr sy'n 'anghytuno'** |
| Eraill | 6 |
| Ddim yn gwybod | 5 |
| Heb ateb | 1 |

Sylfaen: 179 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Gan adeiladu ar y cwestiwn hwn, gofynnwyd i bob ymatebydd ystyried chwe mesur amgen o swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu a'i sgorio ar raddfa o 1 i 6, gydag 1 yn dynodi'r mesur tecaf a 6 yn dynodi'r mesur lleiaf teg. Y mesurau amgen y gofynnwyd iddynt eu hystyried a'u sgorio oedd:

- eich incwm
- y defnydd rydych yn ei wneud o wasanaethau lleol
- nifer y bobl sy'n byw yn eich eiddo.
- gwerth yr eiddo rydych yn berchen arno a/neu'n byw ynddo

- dylai pawb dalu’r un swm
- gwerth y tir lle y lleolir eich eiddo.

Cyfrifwyd cyfartaledd cymedrig yn seiliedig ar y sgoriau a roddwyd i bob mesur amgen, a roddodd sgôr gyfartalog gymedrig gyffredinol ar gyfer tegwch. Yn seiliedig ar y cyfartaledd cymedrig hwn, ystyriwyd mai system o drethiant leol yn seiliedig ar eich incwm oedd y system decaf, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 2.64 ar gyfer tegwch. Ystyriwyd mai system o drethiant lleol lle mae pawb yn talu’r un swm oedd y system leiaf teg, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 4.51 ar gyfer tegwch (Ffigur 3.16).

**Ffigur 3.16: Pa un o’r canlynol ydych chi’n teimlo fyddai’r mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer tegwch (1=tecaf, 6=lleiaf teg)**





Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.16: Siart far yn dangos ymatebion pan ofynnwyd i’r ymatebwyr ystyried chwe mesur amgen o swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu a’i sgorio ar raddfa o 1 i 6, gydag 1 yn dynodi’r mesur tecaf a 6 yn dynodi’r mesur lleiaf teg. Ystyriwyd mai system drethiant leol yn seiliedig ar eich incwm oedd y system decaf, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 2.64 ar gyfer tegwch.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Fel y dengys Ffigur 3.17, nododd tua dau o bob pum ymatebydd (41%) mai ‘eich incwm’ oedd y mesur tecaf ar gyfer system drethiant leol newydd.

**Ffigur 3.17: Y mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu (Sgôr o 1)**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.17: Siart far yn dangos bod tua dau o bob pum ymatebydd wedi dweud mai incwm oedd y mesur tecaf ar gyfer system drethiant leol newydd.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, gradd gymdeithasol, incwm, deiliadaeth, anabledd, strwythur yr aelwyd a statws talu’r dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi mai incwm oedd y mesur tecaf ar gyfer swm y dreth leol y mae disgwyl ichi ei thalu:

- yn byw yn y Cymoedd (45%), gorllewin de Cymru (45%) neu’r canolbarth a’r gorllewin (45%), o gymharu â 33% yn y gogledd
- yn 16 i 34 oed (46%, o gymharu â 37% o’r rhai 55 oed a hŷn)
- yn rhai gradd gymdeithasol DE (48%, o gymharu â 39% yn C1, 39% yn AB a 36% yn C2)
- yn ennill llai na £15,000 y flwyddyn (55%, o gymharu â 42% yn ennill mwy na £75,000, 41% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 39% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999 a 29% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999)
- yn rhentwyr preifat (54%, o gymharu â 37% o berchenogion eiddo)
- yn anabl (46%, o gymharu â 39% o’r rhai nad oeddent yn anabl)

- yn byw mewn aelwyd lle roedd un oedolyn â dibynyddion (54%, o gymharu â 39% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion a 37% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion)
- yn rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor (53%, o gymharu â 40% o'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn).

Nododd tua hanner yr ymatebwyr (53%) mai system lle mae pawb yn talu'r un swm oedd y mesur lleiaf teg ar gyfer system drethiant leol newydd (Ffigur 3.18).

**Ffigur 3.18: Y mesur lleiaf teg o ran faint o dreth leol y mae disgwyl i chi ei thalu (Sgôr o 6)**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.18: Siart far yn dangos bod tua hanner yr ymatebwyr wedi nodi mai system lle mae pawb yn talu'r un swm oedd y system leiaf teg.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

| |
|---|
| Nododd yr ymatebwyr mai sicrhau bod trethi lleol yn glir ac yn hawdd i'w deall yw'r nod pwysicaf ar gyfer system drethiant leol newydd. |


Gan adeiladu ar yr hyn a fyddai'r mesur tecaf ar gyfer system drethiant leol newydd, gofynnwyd i bob un o'r ymatebwyr roi eu barn ynglŷn â beth yw nodau pwysicaf trethiant lleol. Cafodd yr ymatebwyr chwe nod i'w hystyried a'u sgorio ar raddfa o 1 i 10, gydag 1 yn dynodi 'ddim yn bwysig o gwbl' a 10 yn dynodi 'cwbl hanfodol':

- dylai biliau treth lleol adlewyrchu'r gallu i dalu
- dylai gwasanaethau lleol gael eu hariannu'n dda
- dylai systemau talu fod yn syml

- dylai cymorth fod ar gael i unigolion na allant dalu trethi lleol
- dylid casglu trethi lleol yn effeithlon
- dylai trethi lleol fod yn glir ac yn hawdd i'w deall.

Fel uchod, defnyddiwyd yr ymatebion i gyfrifo sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer pwysigrwydd. Yn seiliedig ar y mesur hwn, roedd y canlyniadau yn dangos mai nod pwysicaf trethiant lleol, yn ôl yr ymatebwyr, oedd sicrhau bod trethi lleol yn glir ac yn hawdd i'w deall (sgôr gyfartalog gymedrig o 8.04 ar gyfer pwysigrwydd). Y nod o sicrhau bod biliau treth lleol yn adlewyrchu'r gallu i dalu a gafodd y sgôr gyfartalog gymedrig isaf ar gyfer pwysigrwydd, sef 7.33, ond nid oedd y sgôr honno ond 0.71 yn is, sy'n dangos nad oedd fawr ddim gwahaniaeth rhwng y sgoriau cyfartalog cymedrig ar gyfer pwysigrwydd a roddwyd i'r chwe nod (Ffigur 3.19).

**Ffigur 3.19: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer pwysigrwydd (1=ddim yn bwysig o gwbl, 10=cwbl hanfodol)**





Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.19: Siart far yn dangos mai'r nod pwysicaf ar gyfer trethiant lleol yn ôl yr ymatebwyr oedd y dylai trethi lleol fod yn glir ac yn syml i'w deall.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Fel y dengys Ffigur 3.20, dywedodd tua thraean o'r ymatebwyr (30%) bod y gosodiad 'dylai trethi lleol fod yn glir ac yn syml i'w deall' yn gwbl hanfodol. Roedd y canrannau ar gyfer pob un o'r nodau, o ran faint o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn gwbl hanfodol, yn is, o gymharu â chamau misoedd Mawrth blaenorol.

### Ffigur 3.20: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? ‘Cwbl hanfodol’




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.20: Siart far yn dangos bod tua thraean o’r ymatebwyr wedi dweud bod y gosodiad ‘dylai trethi lleol fod yn glir ac yn syml i’w deall’ yn gwbl hanfodol.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

## 3.4. Cael gwybodaeth am y dreth gyngor

Y dull mwyaf cyffredin o gael gwybodaeth am y dreth gyngor oedd gwefan cyngor lleol, a oedd yn hawdd ei defnyddio ym marn y rhan fwyaf o'r ymatebwyr. Pan ofynnwyd iddynt nodi pa ddulliau o gael gwybodaeth a ffafriwyd ganddynt, y ddau ymateb mwyaf cyffredin oedd drwy'r post ac e-bost. Pan ofynnwyd iddynt pa wybodaeth yr hoffent ei chael, yr ymateb mwyaf cyffredin oedd gwybodaeth am yr hyn y mae'r dreth gyngor yn talu amdano.

Yn rhan olaf yr arolwg, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi sut roeddent yn cael gwybodaeth am y dreth gyngor. Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr nodi sut maent wedi cael gwybodaeth am eu treth gyngor yn ystod y tair blynedd diwethaf. Gallai hyn gynnwys ymholiad ynglŷn â'u bil, holi am ddisgowntiau, rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau, canfod sut mae eu treth gyngor yn cael ei gwario neu unrhyw beth arall sy'n ymwneud â'r dreth gyngor. Cafodd yr ymatebwyr saith categori i ddewis o'u plith, sef:


- gwefan cyngor lleol
- gwefan Llywodraeth Cymru
- ffonio'r cyngor lleol
- anfon llythyr i'r cyngor lleol
- gwefan arall
- arall
- dim un o'r uchod.

Fel y dengys Ffigur 3.21, nododd tua dau o bob pum ymatebydd (43%) eu bod wedi cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan cyngor lleol ac atebodd un o bob pum ymatebydd (20%) eu bod wedi defnyddio gwefan Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, atebodd tua dau o bob pum ymatebydd (43%) nad oeddent wedi defnyddio 'dim un o'r uchod' [troednodyn 3].

**Troednodiadau**

[3] Tybir bod y rhai sydd wedi dewis 'dim un o'r uchod' wedi gwneud hynny am nad ydynt wedi cael gwybodaeth am eu treth gyngor yn y tair blynedd diwethaf.

**Ffigur 3.21: Yn ystod y tair blynedd diwethaf, ydych chi wedi defnyddio unrhyw rai o’r dulliau canlynol er mwyn cael gwybodaeth am eich treth gyngor?**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.21: Siart far yn dangos bod tua dau o bob pum ymatebydd wedi nodi eu bod wedi cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan cyngor lleol, a bod un o bob pum ymatebydd wedi defnyddio gwefan Llywodraeth Cymru i gael gwybodaeth am y dreth gyngor.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, strwythur yr aelwyd, statws talu’r dreth gyngor a band y dreth gyngor.

Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn fwy tebygol o gael gwybodaeth drwy ddefnyddio **gwefan cyngor lleol**:

- yn byw yn y canolbarth a’r gorllewin (49%) neu Gaerdydd a’r de-ddwyrain (47%), o gymharu â 32% yng ngorllewin de Cymru
- yn 16 i 34 oed neu’n 35 i 54 oed (47% yr un, o gymharu â 37% o ymatebwyr 55 oed a hŷn)
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (52%) neu C2 (49%), o gymharu â 32% yn DE
- yn hunangyflogedig (57%) neu’n gyflogeion llawn amser (51%), o gymharu â 39% o gyflogeion rhan-amser, 31% o’r rhai sydd wedi ymddeol a 25% o fyfyrwyr
- yn ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (63%, o gymharu â 45% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999, 41% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 40% yn ennill rhwng £20,000 a £29,000 a 33% yn ennill llai na £15,000)

- yn rhentwyr preifat (53%, o gymharu â 42% o berchenogion eiddo a 36% o rentwyr cymdeithasol)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion (52%) neu un oedolyn yn unig (45%), o gymharu â 35% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion
- yn cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (51%, o gymharu â 41% o'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn ac 21% o'r rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor)
- ym mand A (59%) neu fand C (55%) y dreth gyngor, o gymharu â 43% ym mand D a 35% ym mand B.

Roedd y rhai a oedd yn fwy tebygol o gael gwybodaeth drwy ddefnyddio **gwefan Llywodraeth Cymru**:

- yn byw yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain (29%, o gymharu â 18% yn y canolbarth a'r gorllewin ac yng ngorllewin de Cymru, 17% yn y gogledd a 16% yn y Cymoedd)
- yn 16 i 34 oed (36%, o gymharu â 23% o'r rhai 35 i 54 oed a 7% o'r rhai 55 oed a hŷn)
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (28%, o gymharu â 18% yn C1 a 16% yn DE)
- yn fyfyrwyr (43%, o gymharu â 23% o'r rhai sy'n hunangyflogedig, 21% o gyflogeion rhan-amser a 7% o'r rhai sydd wedi ymddeol)
- yn ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (33%, o gymharu â 22% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 18% yn ennill llai na £15,000, 15% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999 a 14% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999)
- yn rhentwyr preifat (27%, o gymharu â 19% o berchenogion eiddo)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd un oedolyn â dibynyddion (32%) neu ddau neu fwy o oedolion â dibynyddion (28%), o gymharu â 15% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion a 14% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn yn unig
- ym mandiau E, F, G, H ac I y dreth gyngor (27%, o gymharu â 17% ym mand B).


Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gael gwybodaeth drwy beidio â defnyddio **dim un o'r uchod**:

- yn byw yng ngorllewin de Cymru (52%), y gogledd (46%) neu’r canolbarth a’r gorllewin (46%), o gymharu â 34% yng Nghaerdydd a’r de-ddwyrain
- yn fenywod (46%, o gymharu â 40% o ddynion)
- yn 55 oed a hŷn (56% o gymharu â 40% o’r rhai 35 i 54 oed a 27% o’r rhai 16 i 34 oed)
- yn rhai gradd gymdeithasol DE (51%, o gymharu â 38% yn C2 a 33% yn AB)
- wedi ymddeol (61%, o gymharu â 41% o gyflogeion rhan-amser, 32% o gyflogeion llawn amser a 27% o’r rhai hunangyflogedig)
- yn ennill rhwng £20,000 a £29,999 (50%), llai na £15,000 (49%), rhwng £30,000 a £49,999 (42%), rhwng £15,000 a £19,999 (42%) neu rhwng £50,000 a £74,999 (40%) y flwyddyn, o gymharu â 24% yn ennill mwy na £75,000
- yn berchenogion eiddo neu’n rhentwyr cymdeithasol (46% yr un, o gymharu â 30% o rentwyr preifat)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (54%, o gymharu â 43% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn yn unig, 34% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn â dibynyddion a 31% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion)
- yn rhai nad ydynt yn talu’r dreth gyngor (67%, o gymharu â 46% o’r rhai sy’n talu’r dreth gyngor yn llawn a 31% o’r rhai sy’n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor).

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi a oedd yn hawdd neu’n anodd cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan y cyngor lleol, gwefan Llywodraeth Cymru neu’r wefan arall a ddefnyddiwyd ganddynt.

Fel y dengys Ffigur 3.22, roedd yn hawdd i’r mwyafrif o’r ymatebwyr gael gwybodaeth am eu treth gyngor. Roedd pedwar o bob pum ymatebydd yn ei chael hi’n hawdd cael gwybodaeth ar wefan y cyngor lleol (80%) a dywedodd tua thri chwarter yr un peth am wefan Llywodraeth Cymru (72%).

**Ffigur 3.22: Pa mor hawdd neu anodd oedd cael gwybodaeth am eich treth gyngor ar wefan y cyngor lleol/gwefan Llywodraeth Cymru/gwefan arall?**




Sylfaen: Gwefan cyngor lleol – 426 o ymatebwyr; Gwefan Llywodraeth Cymru – 202 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.22: Graff bar yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi'i chael hi'n hawdd cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan y cyngor lleol ac ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Roedd gan y categori gwefan arall faint sylfaen o dri ymatebydd yn unig felly cafodd ei hepgor o'r dadansoddiad.

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, anabledd, strwythur yr aelwyd a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi ei bod **yn hawdd cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan eu cyngor lleol**:

- yn rhai gradd gymdeithasol AB (86%, o gymharu â 71% yn DE)
- yn gyflogeion llawn amser (84%, o gymharu â 67% o'r rhai sy'n hunangyflogedig)
- yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 y flwyddyn (93%, o gymharu â 79% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999, 76% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 73% yn ennill llai na £15,000 a 65% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999)
- yn bobl nad oeddent yn anabl (84%, o gymharu â 71% o bobl anabl)
- ym mand B y dreth gyngor (95%, o gymharu â 78% ym mand C).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi ei bod **yn anodd cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan eu cyngor lleol**:

- yn rhai gradd gymdeithasol DE (26%, o gymharu â 13% yn AB)
- yn ddi-waith (37%) neu'n hunangyflogedig (30%), o gymharu â 14% o gyflogeion llawn amser
- yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 (32%) neu rhwng £30,000 a £49,999 (22%) y flwyddyn, o gymharu â 9% yn ennill mwy na £75,000 a 6% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999
- yn anabl (28%, o gymharu â 14% o'r rhai nad ydynt yn anabl).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi ei bod **yn hawdd cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan Llywodraeth Cymru**:

- yn rhai gradd gymdeithasol AB (87% o gymharu â 69% yn C1, 65% yn C2 a 63% yn DE)
- yn gyflogeion llawn amser (79%, o gymharu â 56% o fyfyrwyr a 39% o'r rhai sydd wedi ymddeol)
- yn ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (94%, o gymharu â 70% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 59% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 a 56% yn ennill llai na £15,000)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion (78%), un oedolyn â dibynyddion (77%) neu ddau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (76%), o gymharu â 48% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn yn unig
- ym mand B y dreth gyngor (90%, o gymharu â 62% ym mand D).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi ei bod **yn anodd cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan Llywodraeth Cymru**:


- yn rhai gradd gymdeithasol C2 (35%), DE (32%) neu C1 (29%), o gymharu ag 11% yn AB
- wedi ymddeol (54%, o gymharu ag 20% o gyflogeion llawn amser ac 17% o gyflogeion rhan-amser)
- yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 y flwyddyn (41%, o gymharu â 6% yn ennill mwy na £75,000)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd un oedolyn yn unig (47%, o gymharu â 19% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion).

Ychwanegwyd rhagor o gwestiynau ar gam mis Mawrth 2025 ynglŷn â pa ddulliau o gael gwybodaeth a ffafriwyd. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa ddulliau a ffafriwyd ganddynt o ran cael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am ddisgowntiau'r dreth gyngor, cymorth, eithriadau a sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario. Gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio'r holl opsiynau ar raddfa o 1 i 7, gan roi 1 i'r opsiwn a ffafriwyd fwyaf a 7 i'r opsiwn a ffafriwyd leiaf. Y dulliau y gofynnwyd iddynt eu hystyried a'u sgorio oedd:

- drwy'r post (e.e. mewn taflen)
- drwy e-bost
- drwy neges destun
- mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyngor lleol
- mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb â grwpiau annibynnol (e.e. Cyngor ar Bopeth, grwpiau tai cymdeithasol)
- cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, X (Twitter gynt), Instagram)
- cyfryngau eraill (teledu, radio).

Cyfrifwyd cyfartaledd cymedrig yn seiliedig ar y sgoriau a roddwyd i bob dull, a roddodd sgôr gyfartalog gymedrig gyffredinol ar gyfer y dulliau a ffafriwyd. Yn seiliedig ar y sgôr gyfartalog gymedrig hon, drwy e-bost oedd y dull a ffafriwyd fwyaf, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 2.17 ar gyfer y dull a ffafriwyd a chyfryngau eraill (teledu, a radio) oedd y dull a ffafriwyd leiaf, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 5.24 ar gyfer dull a ffafriwyd (Ffigur 3.23).

**Ffigur 3.23: Sut yr hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer dull a ffafriwyd (1=a ffafriwyd fwyaf, 7=a ffafriwyd leiaf)**





Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.23: Siart far yn dangos ymatebion pan ofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried drwy ba ddulliau y byddai'n well ganddynt gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor a'u sgorio ar raddfa o 1 i 7, gan roi 1 i'r dull a ffafriwyd fwyaf a 7 i'r dull a ffafriwyd leiaf. Drwy e-bost, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 2.17 ar gyfer dull a ffafriwyd, oedd y dull a ffafriwyd fwyaf.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Fel y dengys Ffigur 3.24, nododd tua dau o bob pum ymatebydd (42%) mai drwy'r post (e.e mewn taflen) oedd y dull a ffafriwyd fwyaf o gael gwybodaeth am y dreth gyngor. Yn ail agos roedd y 40% o ymatebwyr a nododd mai e-bost oedd y dull a ffafriwyd fwyaf ganddynt.

**Ffigur 3.24: Sut yr hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor? (Sgôr o 1)**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.24: Siart far yn dangos bod tua dau o bob pum ymatebydd wedi nodi mai drwy'r post oedd y dull o gael gwybodaeth am y dreth gyngor a ffafriwyd fwyaf ganddynt, a nododd cyfran debyg mai drwy e-bost oedd y dull a ffafriwyd fwyaf ganddynt.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio incwm, deiliadaeth, anabledd, strwythur yr aelwyd a statws talu'r dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi mai **drwy'r post (e.e. mewn taflen)** oedd y dull o gael gwybodaeth am y dreth gyngor a ffafriwyd fwyaf ganddynt:

- yn 55 oed a hŷn (53% o gymharu ag 38% o'r rhai 35 i 54 oed a 28% o'r rhai 16 i 34 oed)
- yn rhai gradd gymdeithasol DE (53%, o gymharu â 40% yn C1, 35% yn C2 a 34% yn AB)
- wedi ymddeol (55%, o gymharu â 43% o gyflogeion rhan-amser, 36% o'r rhai hunangyflogedig, 30% o gyflogeion llawn amser, 28% o fyfyrwyr ac 28% o'r rhai di-waith)
- yn ennill llai na £15,000 y flwyddyn (52%, o gymharu â 40% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 37% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 ac 28% yn ennill mwy na £75,000)
- yn berchenogion eiddo (44%) neu'n rhentwyr cymdeithasol (43%), o gymharu â 32% o rentwyr preifat)


- yn anabl (49%, o gymharu â 38% o'r rhai nad oeddent yn anabl)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (48%) neu un oedolyn yn unig (47%), o gymharu â 31% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion
- yn rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor (52%, o gymharu â 38% o'r rhai sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi mai **drwy e-bost** oedd y dull o gael gwybodaeth am y dreth gyngor a ffafriwyd fwyaf ganddynt:

- yn byw yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain (43%), gorllewin de Cymru (43%), y gogledd (41%) neu'r canolbarth a'r gorllewin (41%), o gymharu â 30% yn y Cymoedd
- yn 35 i 54 oed (44%, o gymharu â 36% o'r rhai 55 oed a hŷn)
- yn rhai gradd gymdeithasol C2 (49%), C1 (43%) neu AB (42%), o gymharu â 30% yn DE
- yn hunangyflogedig (54%, o gymharu â 37% o'r rhai sydd wedi ymddeol a 22% o'r rhai sy'n ddi-waith)
- yn ennill mwy na £75,000 (48%), rhwng £15,000 a £19,999 (46%) neu rhwng £50,000 a £74,999 (43%) y flwyddyn, o gymharu â 31% yn ennill llai na £15,000
- yn rhentwyr preifat (45%, o gymharu â 34% o rentwyr cymdeithasol)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion (45%, o gymharu â 34% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn un unig).

Nododd tua dau o bob tri ymatebydd (35%) 'cyfryngau eraill (teledu, radio)' fel y dull o gael gwybodaeth am y dreth gyngor a ffafriwyd leiaf. Yn ail agos roedd y 25% o ymatebwyr a nododd 'cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, X (Twitter gynt), Instagram)' fel y dull a ffafriwyd leiaf (Ffigur 3.25).

**Ffigur 3.25: Sut yr hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor? (Sgôr o 7)**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.25: Siart far yn dangos bod tua dau o bob tri ymatebydd wedi nodi mai cyfryngau eraill oedd y dull o gael gwybodaeth am y dreth gyngor a ffafriwyd leiaf.


Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr am y math o wybodaeth am y dreth gyngor y byddai'n well ganddynt ei chael. Cafodd yr ymatebwyr bum categori i ddewis o'u plith, sef:

- yr hyn y mae fy nhreth gyngor yn talu amdano
- sut mae fy eiddo yn cael ei brisio
- sut mae bandiau'r dreth gyngor yn gweithio
- cymorth, disgowntiau a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
- arall.

Fel y dengys Ffigur 3.26, nododd tua thri o bob pedwar ymatebydd (77%) y byddai'n well ganddynt gael gwybodaeth am yr hyn y mae eu treth gyngor yn talu amdano. Yn ail agos roedd 63% o ymatebwyr a hoffai gael gwybodaeth ynglŷn â sut mae bandiau'r dreth gyngor yn gweithio, 60% a hoffai gael gwybodaeth ynglŷn â sut mae eu heiddo yn cael ei brisio a 58% a hoffai gael gwybodaeth am gymorth, disgowntiau a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

**Ffigur 3.26: Pa wybodaeth am y dreth gyngor yr hoffech ei chael?**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 3.26: Siart far yn dangos bod tua thri o bob pedwar ymatebydd wedi nodi y byddai'n well ganddynt gael gwybodaeth am yr hyn y mae eu treth gyngor yn talu amdano.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, anabledd, strwythur yr aelwyd, statws talu'r dreth gyngor a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi y byddai'n well ganddynt gael gwybodaeth **am yr hyn y mae eu treth gyngor yn talu amdano**:

- yn fenywod (80%, o gymharu â 74% o ddynion)
- yn rhai gradd gymdeithasol C2 (82%, o gymharu â 72% o'r rhai DE)
- yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 neu fwy na £75,000 y flwyddyn (82% yr un, o gymharu â 69% o'r rhai sy'n ennill llai na £15,000)
- yn berchenogion eiddo (80%, o gymharu â 69% o rentwyr cymdeithasol)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (81%) neu ddau neu fwy o oedolion â dibynyddion (79%), o gymharu â 67% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn yn unig
- yn rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn (81%, o gymharu â 71% o'r rhai sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor a 66% o'r rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi y byddai'n well ganddynt gael gwybodaeth ynglŷn â **sut mae bandiau'r dreth gyngor yn gweithio**:

- yn 55 oed a hŷn (68%) neu'n 35 i 54 oed (65%), o gymharu â'r rhai 16 i 34 oed (52%)
- yn rhai gradd gymdeithasol C1 (68%, o gymharu â 60% yn DE a 59% yn C2)
- wedi ymddeol (66%, o gymharu â 49% o fyfyrwyr)
- yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 y flwyddyn (71%, o gymharu â 54% yn ennill llai na £15,000 a 53% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999)
- yn berchenogion eiddo (67%, o gymharu â 54% o rentwyr cymdeithasol)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (69%, o gymharu â 57% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn yn unig a 53% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn â dibynyddion)
- yn rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn (67%, o gymharu â 57% o'r rhai sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor a 51% o'r rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi y byddai'n well ganddynt gael gwybodaeth ynglŷn â **sut mae eu heiddo yn cael ei brisio**:

- yn rhai gradd gymdeithasol AB (67%) neu C1 (63%), o gymharu â 54% yn DE
- wedi ymddeol (68%, o gymharu â 59% o gyflogeion llawn amser)
- yn ennill mwy na £75,000 (72%), rhwng £30,000 a £49,999 (68%), rhwng £50,000 a £74,999 (62%) neu rhwng £20,000 a £29,999 (61%) y flwyddyn, o gymharu â 47% yn ennill llai na £15,000 a 42% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999
- yn berchenogion eiddo (68%, o gymharu ag 49% o rentwyr preifat a 45% o rentwyr cymdeithasol)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (70%h, o gymharu â 59% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion, 54% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn yn unig a 45% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn â dibynyddion)
- yn rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn (65%, o gymharu â 57% o'r rhai sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor a 34% o'r rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor)
- ym mandiau E, F, G, H ac I (67%) neu fand D (66%) y dreth gyngor, o gymharu â 53% ym mand C.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi y hoffent gael gwybodaeth am **gymorth, disgowntiau a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**:

- yn 55 oed a hŷn (62%, o gymharu â 53% o'r rhai 16 i 34 oed)

- yn rhai gradd gymdeithasol C1 (61%, o gymharu â 51% yn AB)
- yn hunangyflogedig (66%) neu wedi ymddeol (63%), o gymharu â 51% o gyflogeion llawn amser
- yn ennill llai na £15,000 (71%) neu rhwng £15,000 a £19,999 (68%) y flwyddyn, o gymharu â 52% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999, 52% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 a 48% yn ennill mwy na £75,000
- yn rhentwyr preifat (67%, o gymharu â 55% o berchenogion eiddo)
- yn anabl (69%, o gymharu â 53% o'r rhai nad oeddent yn anabl)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd un oedolyn yn unig (68%, o gymharu â 56% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion a 51% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion)
- yn rhai a oedd yn cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (69%, o gymharu â 52% o'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn).

# 4. Canfyddiadau: Cam mis Medi 2025

Yn 2025 yn unig, cafodd cam mis Medi ei gynnwys i brofi am unrhyw dymoroldeb yn atebion yr ymatebwyr, gan fod camau mis Mawrth yn tueddu i gyd-daro â'r adeg o'r flwyddyn pan fydd talwyr y dreth gyngor wedi cael bil treth gyngor o bosibl. Mae'r adran hon ond yn nodi detholiad o ganfyddiadau o gymharu â chamau misoedd Mawrth yn 2025 ac mewn blynyddoedd blaenorol.

## 4.1. Cyfrifoldeb am dalu'r dreth gyngor

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr ar gam mis Medi fod eu cartref yn talu'r dreth gyngor. Y band treth gyngor mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr oedd Band D. Nododd tua chwarter yr ymatebwyr eu bod yn cael un disgownt, eithriad neu ostyngiad neu fwy. Y disgownt person sengl oedd y disgownt mwyaf cyffredin. Y ffordd fwyaf cyffredin i aelwydydd dalu eu treth gyngor oedd rhandaliadau misol.

Nododd tua naw o bob 10 ymatebydd (88%) eu bod nhw, neu rywun yn eu cartref, yn talu'r dreth gyngor. O'r ffigur hwn, nododd tua hanner yr holl ymatebwyr (45%) fod ganddynt gyfrifoldeb llwyr am dalu'r dreth gyngor a nododd 44% arall fod ganddynt gyd-gydraddoldeb am dalu'r dreth gyngor. Nododd tua un o bob 10 ymatebydd (11%) nad oedd ganddynt unrhyw gyfrifoldeb am fod rhywun arall yn y cartref yn talu'r dreth gyngor.

O'r 116 o ymatebwyr a nododd nad oeddent yn talu'r dreth gyngor, y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd eu bod ar incwm isel ac yn cael Gostyngiad llawn yn y Dreth Gyngor (77%) (Tabl 4.1). Roedd y ffigur hwn yn gynnydd o 8% ym mis Medi o gymharu â chamau mis Mawrth [troednodyn 4] (69%).

**Troednodiadau**
[4] Mae hyn yn cyfeirio at gyfanswm y camau canlynol: Mawrth 2022, Mawrth 2023, Mawrth 2024 a Mawrth 2025.

### Tabl 4.1: Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio orau pam nad yw eich cartref yn talu’r dreth gyngor?


| | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Rwyf ar incwm isel ac yn cael y Gostyngiad llawn yn y Dreth Gyngor | 77 |
| Mae pob aelod o’r aelwyd yn fyfyriwr | 10 |
| Mae pob aelod o’r aelwyd o dan 18 oed | 6 |
| Mae pob aelod o’r aelwyd yn berson ifanc sydd wedi gadael gofal o dan 25 oed | 2 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** |
| Arall | 6 |
| Ddim yn gwybod | 3 |

Sylfaen: 116 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Gofynnwyd rhagor o gwestiynau am faint o dreth roeddent yn ei thalu i’r ymatebwyr a nododd eu bod yn talu’r dreth gyngor. Yn gyson â cham mis Mawrth 2025, y band treth gyngor mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr oedd Band D (23%), ac yna Fand C (19%) [troednodyn 5]. Nododd bron un o bob pum ymatebydd (19%) nad oeddent yn siŵr ym mha un o fandiau’r dreth gyngor yr oeddent (Ffigur 4.1).

### Ffigur 4.1: Beth yw eich band treth gyngor?




Sylfaen: 884 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.1: Graff bar yn dangos dosbarthiad bandiau’r dreth gyngor ymhlith ymatebwyr sy’n talu’r dreth gyngor. Band A yw’r band isaf a gymhwysir at eiddo a Band I yw’r band uchaf. Y band mwyaf cyffredin a nodwyd gan yr ymatebwyr oedd Band D, sef 23%, ac yna Fand C ar 19%.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru


---

**Troednodiadau**
[5] Anheddau sy'n destun treth gyngor yn ôl awdurdod a band (StatsCymru). Mae data StatsCymru yn awgrymu, ym mlwyddyn ariannol 2025-26, mai Band C yw’r band mwyaf cyffredin (21.8%), ac yna Fand B (20.7%). Gellid priodoli dosbarthiad gwahanol y bandiau yn y sampl hon i’r ffaith mai arolwg o unigolion yw hwn yn hytrach nag aelwydydd a’r posibilrwydd bod ymatebwyr wedi nodi’r band anghywir. Nid oedd methodoleg yr arolwg yn caniatáu i ymatebwyr wirio eu hatebion drwy gyfeirio, er enghraifft, at fil treth gyngor diweddar. Gan nad oedd 17% o’r ymatebwyr yn siŵr ym mha un o fandiau’r dreth gyngor yr oeddent, ni ellir diystyru’r posibilrwydd bod rhai atebion yn anghywir.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oeddent yn cael unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau yn eu bil treth gyngor. Nododd tua dau o bob tri ymatebydd (67%) nad oeddent yn eu cael, sy'n awgrymu eu bod yn talu bil llawn heb ei newid sy'n seiliedig ar fand eu heiddo. Nid oedd cyfran fach (8%) o'r ymatebwyr yn siŵr a oeddent yn cael unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau. Nododd tua chwarter yr ymatebwyr (24%) eu bod yn cael un disgownt, eithriad neu ostyngiad neu fwy (Ffigur 4.2).

Roedd gostyngiad o 5% yng nghanran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn cael un disgownt, eithriad, neu ostyngiad neu fwy o gymharu â chamau mis Mawrth (Ffigur 4.3).

**Ffigur 4.2: Ydych chi'n derbyn unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau yn y dreth gyngor?**





Sylfaen: 884 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.2: Graff bar yn dangos nad oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cael unrhyw ddisgowntiau, eithriadau na gostyngiadau yn y dreth gyngor ac felly eu bod yn talu bil llawn heb ei newid yn seiliedig ar fand eu heiddo.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

**Ffigur 4.3: Ydych chi'n derbyn unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau yn y dreth gyngor? Cyfanswm yn ôl Mawrth 2022 - Mawrth 2025 o gymharu â Medi 2025**




Sylfaen: Mawrth 2022 - Mawrth 2025 – 3,656 o ymatebwyr; Medi 2025 - 884 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.3: Graff bar yn dangos nad oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2025 ac ym mis Medi 2025, yn cael unrhyw ddisgowntiau, eithriadau na gostyngiadau yn eu treth gyngor ac felly eu bod yn talu bil llawn, heb ei newid yn seiliedig ar fand eu heiddo. Roedd gostyngiad yng nghanran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn cael unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau ym mis Medi 2025 (24%), o gymharu â'r cyfnod rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2025 (29%).

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a nododd eu bod yn cael disgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau, beth roeddent yn ei gael. Roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu ymateb testun rhydd a chafodd ymatebion tebyg eu grwpio ynghyd. Y disgownt mwyaf cyffredin a nodwyd oedd y disgownt person sengl (55%), yn gyson â chamau mis Mawrth (Tabl 4.2).

**Tabl 4.2: Pa ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau ydych chi'n eu derbyn?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Disgownt Person Sengl | 55 |
| Budd-dal y Dreth Gyngor / Gostyngiad | 12 |
| Disgownt Anabledd / Taliad Annibyniaeth Personol | 9 |
| Disgownt myfyriwr | 3 |
| Gostyngiad oherwydd incwm isel | 3 |
| Yn cael Credyd Cynhwysol | 3 |
| Yn cael y budd-dal tai | 2 |
| Yn cael budd-daliadau (heb eu nodi) | 2 |
| Gostyngiad treth (heb ei nodi) | 1 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** |
| Eraill | 9 |
| Ddim yn gwybod / ddim yn siŵr | 3 |
| Heb ateb | 0 |

Sylfaen: 216 o ymatebwyr


Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Nid yw pob un o'r atebion a roddwyd gan ymatebwyr yn ymwneud â disgownt, eithriad neu ostyngiad presennol.

Gellir talu'r dreth gyngor yn wythnosol, yn fisol, dros 10 neu 12 mis neu mewn cyfandaliad blynyddol. Nododd tua hanner yr ymatebwyr (53%) eu bod yn talu eu treth gyngor dros 10 rhandaliad misol, a nododd tua thraean (31%) eu bod yn talu mewn 12 o randaliadau misol. Roedd yn llawer llai cyffredin i ymatebwyr dalu'n wythnosol neu'n flynyddol (2% ac 8%, yn y drefn honno). Nid oedd cyfran fach o ymatebwyr (6%) yn gwybod sut roeddent yn talu'r dreth gyngor (Ffigur 4.4).

Roedd canran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn talu eu treth gyngor yn fisol dros 10 rhandaliad misol ac yn flynyddol yr un fath ym mis Mawrth 2025. Ar y ddau gam, yn 2025, hon yw'r ganran isaf a gofnodwyd ar gyfer y dull talu cyntaf a'r ganran uchaf a gofnodwyd ar gyfer y dull talu olaf ers dechrau'r arolwg (Ffigur 4.5).

**Ffigur 4.4: Sut mae eich cartref yn talu'r dreth gyngor?**





Sylfaen: 884 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.4: Graff bar yn dangos bod tua hanner yr ymatebwyr yn talu eu treth gyngor dros 10 rhandaliad misol a bod ychydig llai na thraean yn talu dros 12 o randaliadau misol.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

**Ffigur 4.5: Sut mae eich cartref yn talu'r dreth gyngor? Yn fisol dros 10 mis ac yn flynyddol yn ôl cam (rhwng mis Mawrth 2022 a mis Medi 2025)**




Sylfaen: Mawrth 2022 – 927 o ymatebwyr; Mawrth 2023 – 894 o ymatebwyr; Mawrth 2024 – 915 o ymatebwyr; Mawrth 2025 - 919 o ymatebwyr; Medi 2025 – 884 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.5: Graff bar yn dangos, ar y ddau gam yn 2025, ym mis Mawrth 2025 ac ym mis Medi 2025, mai hon yw'r ganran isaf o ymatebwyr a nododd eu bod yn talu eu treth gyngor yn fisol dros 10 rhandaliad misol (53% yr un) a'r ganran uchaf o ymatebwyr a nododd eu bod yn talu eu treth gyngor yn flynyddol (8% yr un) ers dechrau'r arolwg.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Yn ogystal â gofyn pa mor aml roeddent yn gwneud taliadau, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi faint roeddent yn ei dalu. O'r 18 o ymatebwyr a oedd yn talu'n wythnosol, roedd 6 yn talu rhwng £1 a £30, roedd 6 yn talu rhwng £31 a £50 ac roedd 4 yn talu mwy na £50 (atebodd yr ymatebwyr eraill 'ddim yn gwybod'). O'r rhai a oedd yn talu'n fisol, yr ystod gwerthoedd fwyaf cyffredin oedd rhwng £151 a £200 y mis (28%) (Ffigur 4.6) [troednodyn 6]. O'r 71 o ymatebwyr a oedd yn talu cyfandaliad blynyddol, roedd pedwar yn talu £100 neu lai, roedd wyth yn talu rhwng £101 a £1,000, roedd 26 yn talu rhwng £1,001 a £2,000, roedd 14 yn talu rhwng £2,001 a £3,000 ac roedd saith yn talu mwy na £3,000 (atebodd yr ymatebwyr eraill 'ddim yn gwybod').

**Ffigur 4.6: Faint o dreth gyngor mae eich cartref yn ei thalu y mis?**




Sylfaen: 747 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.6: Graff bar yn dangos swm y dreth gyngor a dalwyd gan ymatebwyr O ran yr ymatebwyr hynny a oedd yn talu eu treth gyngor mewn rhandaliadau misol, yr ystod gwerthoedd fwy cyffredin oedd rhwng £151 a £200 y mis.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Mae'r canlyniadau hyn yn cynnwys ymatebion gan ymatebwyr sy'n talu mewn 10 neu 12 o randaliadau misol, a fydd yn dylanwadu ar eu cyfradd fisol.

**Troednodiadau**

[6] Mae canlyniadau'r ateb hwn yn cyfuno atebion gan y rhai sy'n talu mewn 10 a 12 rhandaliad misol, a fydd yn dylanwadu ar y gyfradd fisol.

## 4.2. Gwybodaeth am system bresennol y dreth gyngor ac agweddau tuag ati


Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a oedd yn gwybod eithaf tipyn am y dreth gyngor a'r rhai a oedd ond yn gwybod ychydig iawn. Pan ofynnwyd iddynt enwi gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor, y gwasanaethau mwyaf cyffredin a enwyd oedd ailgylchu a chasglu gwastraff, plismona a ffyrdd neu gynnal a chadw ffyrdd.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau i fesur lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth o system y dreth gyngor a chanfyddiadau o degwch y system honno.

Gofynnwyd i bob ymatebydd faint roedd yn ei wybod am y dreth gyngor. Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a nododd eu bod yn gwybod eithaf tipyn (45%) a'r rhai a oedd ond yn gwybod ychydig iawn (39%). Nododd cyfran fach o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod llawer iawn am y dreth gyngor (7%) neu nad oeddent yn gwybod dim byd o gwbl (6%) (Ffigur 4.7).

Roedd gostyngiad o 4% yng nghanran yr ymatebwyr a nododd eu bod ond yn gwybod ychydig iawn am y dreth gyngor ym mis Medi 2025 o gymharu â chamau mis Mawrth. Yn lle hynny, roedd cynnydd bach yng nghanran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn gwybod llawer iawn (+1%) neu eithaf tipyn (+1%), ond roedd cynnydd bach hefyd yng nghanran yr ymatebwyr nad oedd yn gwybod dim byd o gwbl (+1%) (Ffigur 4.8).

**Ffigur 4.7: Faint fyddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor?**





Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.7: Graff bar yn dangos bod tua dau o bob pum ymatebydd ond yn gwybod ychydig iawn am y dreth gyngor a bod cyfran debyg yn nodi eu bod yn gwybod eithaf tipyn.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

**Ffigur 4.8: Faint fyddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor? Cyfanswm yn ôl mis Mawrth 2022 - Mawrth 2025 o gymharu â Medi 2025**




Sylfaen: Mawrth 2022 - Mawrth 2025 – 4,000 o ymatebwyr; Medi 2025 - 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.8: Graff bar yn dangos, rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2025 ac ym mis Medi 2025, fod tua dau o bob pum ymatebydd ond yn gwybod ychydig iawn am y dreth gyngor a bod cyfran debyg wedi nodi eu bod yn gwybod eithaf tipyn. Roedd gostyngiad yng nghanran yr ymatebwyr a nododd eu bod ond yn gwybod ychydig iawn am y dreth gyngor ym mis Medi 2025 (39%) o gymharu â'r cyfnod rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2025 (43%).

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol o ran gwybodaeth ymatebwyr am y dreth gyngor yn ôl rhanbarth, rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, statws anabledd, strwythur yr aelwyd, statws talu'r dreth gyngor a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi eu bod yn gwybod **llawer iawn** neu **eithaf tipyn** am y dreth gyngor yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran rhywedd, oedran, incwm deiliadaeth, anabledd a statws talu'r dreth gyngor, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn byw yn y gogledd (58%, o gymharu â 43% yn y Cymoedd)
- yn rhai gradd gymdeithasol C1 (63%, o gymharu â 50% yn C2 a 39% yn DE)
- wedi ymddeol (66%) neu'n gyflogeion llawn amser (58%), o gymharu â 45% o gyflogeion rhan-amser, 31% o'r rhai sy'n ddi-waith a 29% o fyfyrwyr
- yn byw mewn aelwyd lle roedd un oedolyn yn unig (58%) neu ddau neu fwy o oedolion â dibynyddion (56%), o gymharu â 39% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn â dibynyddion.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi eu bod ond yn gwybod **ychydig iawn** neu nad oeddent yn gwybod **dim byd o gwbl** am y dreth gyngor yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, statws anabledd, strwythur yr aelwyd a statws talu'r dreth gyngor, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn byw yn y Cymoedd (57%, o gymharu â 45% yng ngorllewin de Cymru, 44% yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain, 44% yn y canolbarth a'r gorllewin a 40% yn y gogledd)
- yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 (55%), yn ennill rhwng £20,000 a £29,999 (54%), yn ennill llai na £15,000 (52%) neu'n ennill rhwng £30,000 a £49,999 (47%) y flwyddyn, o gymharu â 36% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 a 29% yn ennill mwy na £75,000
- yn rhentwyr cymdeithasol (59%) neu'n rhentwyr preifat (52%), o gymharu â 39% o berchenogion eiddo
- ym mand C y dreth gyngor (44%, o gymharu â 33% ym mandiau E, F, G, H ac I).

Er mwyn mesur lefelau dealltwriaeth o'r ffordd mae'r dreth gyngor yn cael ei defnyddio, gofynnwyd i bob ymatebydd enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor. Ar gam mis Medi, y gwasanaeth mwyaf cyffredin a enwyd oedd biniau neu gasglu sbwriel (48%), yna blismona (40%) a ffyrdd neu gynnal a chadw ffyrdd (28%) (Tabl 4.3). Y rhain yw'r tri gwasanaeth mwyaf cyffredin a enwyd o hyd, yn unol â chamau misoedd Mawrth blaenorol (Ffigur 4.9).


**Tabl 4.3: Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Biniau / casglu sbwriel | 48 |
| Yr heddlu | 40 |
| Ffyrdd / cynnal a chadw ffyrdd | 28 |
| Addysg / ysgolion | 17 |
| Gwastraff / casglu gwastraff / rheoli gwastraff | 11 |
| Goleuadau stryd / goleuadau | 10 |
| Tân / gwasanaethau tân | 10 |
| Gofal cymdeithasol / gwasanaethau cymdeithasol | 9 |
| Cyngor / cynghorwyr / llywodraeth | 8 |
| Llyfrgelloedd | 8 |
| Ailgylchu | 7 |
| Glanhau strydoedd | 6 |
| Gwasanaethau'r cyngor | 5 |
| Iechyd / gwasanaethau iechyd / y GIG | 5 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** |
| Eraill | 3 |
| Ddim yn gwybod | 8 |
| Heb ateb | 5 |

Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

**Ffigur 4.9: Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor? Y tri ymateb mwyaf cyffredin yn ôl cyfanswm mis Mawrth 2022 - mis Mawrth 2025 o gymharu â mis Medi 2025**




Sylfaen: Mawrth 2022 - Mawrth 2025 – 4,000 o ymatebwyr; Medi 2025 – 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.9: Graff bar yn dangos, rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2025 ac ym mis Medi 2025, mai'r tri gwasanaeth mwyaf cyffredin a enwyd oedd biniau neu gasglu sbwriel, yr heddlu a ffyrdd neu gynnal a chadw ffyrdd.


Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Dangosodd yr arolwg fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn ystyried bod talu'r dreth gyngor yn broses syml, eu bod yn ymwybodol o'r cymorth a all fod ar gael i dalu'r dreth gyngor, y byddent yn gwybod â phwy y dylid cysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor ac nad oeddent yn ei chael hi'n anodd deall eu bil treth gyngor. Cymysg oedd agweddau'r ymatebwyr o ran a yw eu bil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a nododd eu bod yn talu'r dreth gyngor nodi i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o osodiadau am system bresennol y dreth gyngor:

- mae talu'r dreth gyngor yn broses syml
- dydw i ddim yn gwybod â phwy y dylid cysylltu os oes gen i broblem gyda'r dreth gyngor
- rwyf yn ymwybodol o'r cymorth treth gyngor a allai fod ar gael
- mae'n anodd deall fy mil treth gyngor
- mae fy mil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol fy nghartref.

**Ffigur 4.10: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor**




Sylfaen: 884 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.10: Siart far yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod talu'r dreth gyngor yn broses syml, eu bod yn ymwybodol o'r cymorth a all fod ar gael, y byddent yn gwybod â phwy y dylid cysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor ac nad oeddent yn ei chael hi'n anodd deall eu bil treth gyngor. Cymysg oedd agweddau'r ymatebwyr o ran a yw eu bil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Mae 'Cytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Cytuno'n Gryf' a 'Cytuno.' Mae 'Anghytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Anghytuno'n Gryf' ac 'Anghytuno.'

Fel y dengys Ffigur 4.10, roedd pedwar o bob pum ymatebydd (80%) yn cytuno bod **talu'r dreth gyngor yn broses syml**. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, anabledd a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod talu'r dreth gyngor yn broses syml yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran oedran, statws gweithio a deiliadaeth, ond roedd gwahaniaeth ar y sail eu bod:

- yn rhai gradd gymdeithasol C1 (84%) neu AB (83%), o gymharu â 74% yn DE
- yn ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (92%, o gymharu â 79% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 79% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999, 76% yn ennill llai na £15,000 a 75% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999)
- yn anabl (83%, o gymharu â 73% o'r rhai nad oeddent yn anabl)
- ym mandiau E, F, G, H ac I y dreth gyngor (88%, o gymharu â 78% ym mand B).

Roedd tua dau o bob tri ymatebydd (69%) yn anghytuno â'r gosodiad **nad ydynt yn gwybod â phwy y dylid cysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor**. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm a deiliadaeth.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno nad oeddent yn gwybod â phwy y dyllid cysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran rhywedd, oedran a statws gweithio ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn rhai gradd gymdeithasol C1 (76%) neu AB (75%), o gymharu â 64% yn C2 a 61% yn DE
- yn ennill mwy na £75,000 (77%) neu rhwng £30,000 a £49,999 (70%) y flwyddyn, o gymharu â 57% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999
- yn berchenogion eiddo (75%, o gymharu ag 62% o rentwyr preifat a 57% o rentwyr cymdeithasol).

Roedd tua thri o bob pum ymatebydd (57%) yn cytuno eu bod yn **ymwybodol o'r cymorth i dalu'r dreth gyngor a all fod ar gael**. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, strwythur yr aelwyd a statws talu'r dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno eu bod yn ymwybodol o'r cymorth i dalu'r dreth gyngor a all fod ar gael yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran oedran, strwythur yr aelwyd a statws talu'r dreth gyngor, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn rhai gradd gymdeithasol C1 (62%, o gymharu â 52% yn DE)
- yn gyflogeion rhan-amser (64%, o gymharu â 41% o fyfyrwyr a 40% o'r rhai di-waith).

Roedd tua thraean o'r ymatebwyr (62%) yn anghytuno ei bod **yn anodd deall eu bil treth gyngor**. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, strwythur yr aelwyd a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno ei bod yn anodd deall eu bil treth gyngor yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran gradd gymdeithasol a statws gweithio, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn byw yn y canolbarth a'r gorllewin (70%, o gymharu â 57% yng ngorllewin de Cymru)
- yn 55 oed a hŷn (71% o gymharu ag 62% o'r rhai 35 i 54 oed a 47% o'r rhai 16 i 34 oed)
- yn ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (78%, o gymharu â 62% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 58% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999, 56% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999 a 53% yn ennill llai na £15,000)
- yn berchenogion eiddo (69%, o gymharu â 59% o rentwyr preifat a 42% o rentwyr cymdeithasol)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (66%), un oedolyn yn unig (64%) neu ddau neu fwy o oedolion â dibynyddion (61%), o gymharu â 43% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn â dibynyddion
- ym mand D y dreth gyngor (73%, o gymharu â 60% ym mand B).

Mewn perthynas â'r gosodiad ynghylch a yw eu **bil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref**, roedd tua dau o bob pum ymatebydd (44%) yn cytuno ac roedd tua dau o bob pum ymatebydd (38%) yn anghytuno. Roedd gostyngiad o 3% yng nghanran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno, o gymharu â mis Mawrth 2022 - mis Mawrth 2025. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod eu bil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran incwm a deiliadaeth, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn byw yng ngorllewin de Cymru (48%) neu yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain (46%), o gymharu â 35% yn y canolbarth a'r gorllewin
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (52%, o gymharu â 39% yn DE a 37% yn C2)
- yn hunangyflogedig (48%), yn gyflogeion llawn amser (46%) neu wedi ymddeol (45%), o gymharu â 26% o fyfyrwyr
- ym mand A y dreth gyngor (57%, o gymharu â 41% ym mand D a 37% ym mand B).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno bod eu biliau treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol eu cartref [troednodyn 7]:

- yn byw yn y canolbarth a'r gorllewin (45%, o gymharu â 33% yn byw yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain)
- yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 (42%), rhwng £30,000 a £49,999 (42%) neu rhwng £20,000 a £29,999 (37%) y flwyddyn, o gymharu â 24% yn ennill mwy na £75,000
- ym mand B y dreth gyngor (49%, o gymharu â 29% ym mand A).

Mae'n werth nodi bod tua un o bob pum ymatebydd (19%) wedi rhoi'r ateb 'ddim yn gwybod' mewn ymateb i'r gosodiad olaf hwn.

> Dangosodd yr arolwg fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno eu bod wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol neu fod system y dreth gyngor yn deg a nododd dros hanner nad oedd yn glir iddynt sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario. Cymysg oedd agweddau'r ymatebwyr ynghylch i ba raddau y mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu ac a oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor.


Gofynnwyd i bawb a gymerodd ran yn yr arolwg nodi i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres bellach o osodiadau am system bresennol y dreth gyngor:

**Troednodiadau**

[7] Nid oedd yr un o'r is-grwpiau yr un fath ym mis Medi ag yr oeddent ym mis Mawrth 2025.

- mae system y dreth gyngor yn deg
- rwyf wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn fy nghymuned leol
- mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu
- nid oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor
- nid yw'n glir i mi sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario.

**Ffigur 4.11: Gosodiadau am system bresennol y dreth gyngor**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.11: Siart far yn dangos fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn anghytuno eu bod wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol neu fod system y dreth gyngor yn deg a nododd dros hanner nad oedd yn glir iddynt sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario. Cymysg oedd agweddau'r ymatebwyr ynghylch i ba raddau y mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu ac a oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Mae 'Cytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Cytuno'n Gryf' a 'Cytuno.' Mae 'Anghytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Anghytuno'n Gryf' ac 'Anghytuno.'

Fel y dengys Ffigur 4.11, roedd mwy na hanner (55%) yr ymatebwyr yn anghytuno â'r gosodiad bod **system y dreth gyngor yn deg**. Fodd bynnag, roedd hyn yn ostyngiad o 3% o gymharu â mis Mawrth 2022 - mis Mawrth 2025 (58%). Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhywedd, oedran, statws gweithio, incwm a statws talu'r dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno bod system y dreth gyngor yn deg yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran rhywedd, oedran a statws talu'r dreth gyngor, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn hunangyflogedig (64%, o gymharu â 40% o’r rhai sy’n ddi-waith)
- yn ennill rhwng £20,000 a £29,999 neu rhwng £30,000 a £49,999 y flwyddyn (62% yr un, o gymharu â 47% yn ennill llai na £15,000, 45% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 a 43% yn ennill mwy na £75,000).

Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr (56%) hefyd yn anghytuno eu bod wedi **gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol**. Fodd bynnag, roedd hyn yn ostyngiad o 6% o gymharu â mis Mawrth 2022 - mis Mawrth 2025 (62%). Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth a statws talu’r dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno eu bod wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran rhywedd, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn byw yn y canolbarth a’r gorllewin (61%, o gymharu â 51% yng Nghaerdydd a’r de-ddwyrain)
- yn 55 oed a hŷn (61%) neu’n 35 i 54 oed (59%), o gymharu â 47% o’r rhai 16 i 34 oed
- yn rhai gradd gymdeithasol C2 (67%, o gymharu â 55% yn C1, 54% yn AB a 52% yn DE)
- yn hunangyflogedig (68%, o gymharu â 48% o fyfyrwyr a 30% o’r rhai sy’n ddi-waith)
- yn ennill rhwng £20,000 a £29,999 neu rhwng £30,000 a £49,999 y flwyddyn (62% yr un, o gymharu â 47% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 a 44% yn ennill mwy na £75,000)
- yn berchenogion eiddo (61%, o gymharu â 50% o rentwyr preifat a 49% o rentwyr cymdeithasol)
- yn rhai sy’n talu’r dreth gyngor yn llawn (59%, o gymharu â 45% o’r rhai nad ydynt yn talu’r dreth gyngor).

Mewn perthynas â’r gosodiad ynghylch a yw **system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu**, roedd tua hanner yr ymatebwyr (47%) yn cytuno ac roedd traean o’r ymatebwyr (33%) yn anghytuno. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, statws gweithio, incwm a statws talu’r dreth gyngor. Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno bod system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu yr un

fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran oedran, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn hunangyflogedig (59%, o gymharu â 41% o gyflogeion rhan-amser)
- yn ennill mwy na £75,000 (56%), llai na £15,000 (55%) neu rhwng £15,000 a £19,999 (54%) y flwyddyn, o gymharu â 41% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999 a 40% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999
- yn rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor (62%, o gymharu â 43% o'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno bod system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran oedran a statws talu'r dreth gyngor, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn byw yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain (39%, o gymharu â 28% yng ngorllewin de Cymru)
- yn gyflogeion llawn amser (41%) neu'n gyflogeion rhan-amser (36%), o gymharu ag 21% o'r rhai sydd wedi ymddeol
- yn ennill rhwng £20,000 a £29,999 y flwyddyn (42%, o gymharu â 27% yn ennill llai na £15,000, 27% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 a 23% yn ennill mwy na £75,000.

Mewn perthynas â'r gosodiad **nad oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor**, roedd traean o'r ymatebwyr (33%) yn cytuno ac roedd tua dau o bob pum ymatebydd (41%) yn anghytuno. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth a statws talu'r dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno nad oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor [troednodyn 8]:

- yn byw yng ngorllewin de Cymru (38%) neu yn y gogledd (37%), o gymharu â 25% yn y canolbarth a'r gorllewin
- yn ddynion (45%, o gymharu â 37% o fenywod)

**Troednodiadau**

[8] Nid oedd yr un o'r is-grwpiau yr un fath ym mis Medi ag yr oeddent ym mis Mawrth 2025.

- yn 16 i 34 oed (38%) neu'n 35 i 54 oed (35%), o gymharu ag 28% o'r rhai 55 oed a hŷn
- yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 y flwyddyn (39%, o gymharu â 27% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999)
- yn rhentwyr preifat (44%, o gymharu â 32% o rentwyr cymdeithasol a 30% o berchenogion eiddo)
- yn rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor (43%, o gymharu â 32% o'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o anghytuno nad oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau'r dreth gyngor:

- yn byw yn y canolbarth a'r gorllewin (51%, o gymharu â 39% yn y Cymoedd, 38% yn y gogledd a 31% yng ngorllewin de Cymru)
- yn 55 oed a hŷn (44%, o gymharu â 36% o'r rhai 16 i 34 oed)
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (50%, o gymharu â 39% yn C2 a 33% yn DE)
- yn hunangyflogedig (49%) neu'n gyflogeion llawn amser (46%), o gymharu â 23% o fyfyrwyr
- yn ennill mwy na £75,000 (49%), rhwng £50,000 a £74,999 (46%), rhwng £30,000 a £49,999 (44%) neu rhwng £20,000 a £29,999 (43%) y flwyddyn, o gymharu â 29% yn ennill llai na £15,000 a 29% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999
- yn berchenogion eiddo (47%, o gymharu â 33% o rentwyr cymdeithasol a 31% o rentwyr preifat)
- yn rhai sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (44%) neu sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn (43%), o gymharu â 23% o'r rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor.

Mae'n werth nodi bod tua un o bob pedwar ymatebydd (26%) wedi rhoi'r ateb 'ddim yn gwybod' mewn ymateb i'r gosodiad hwn.

Roedd mwy na hanner yr ymatebwyr (56%) yn cytuno **nad oedd yn glir iddynt sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario**. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhywedd, oedran, statws gweithio, incwm, deiliadaeth ac anabledd.


Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gytuno nad oedd yn glir iddynt sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran rhywedd, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn 35 i 54 oed (61%, o gymharu â 53% o'r rhai 55 oed a hŷn)
- yn fyfyrwyr (66%, o gymharu â 49% o'r rhai sydd wedi ymddeol)
- yn ennill llai na £15,000 (61%), rhwng £20,000 a £29,999 (60%), rhwng £30,000 a £49,999 (58%) neu rhwng £50,000 a £74,999 (57%) y flwyddyn, o gymharu â 43% yn ennill mwy na £75,000
- yn anabl (62%, o gymharu â 53% o'r rhai nad oeddent yn anabl).

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu yn rhy uchel. Pan roddwyd gwybodaeth iddynt am y gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor, nododd cyfran lai o'r ymatebwyr fod eu bil treth gyngor yn rhy uchel a nododd cyfran fwy o'r ymatebwyr fod eu bil yn agos at ei le neu'n rhy isel yng ngoleuni'r wybodaeth hon.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd yn talu'r dreth gyngor, yn seiliedig ar eu hincwm a'u gwariant, sut y byddent yn disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'w cartref ei dalu. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr (59%) bod eu treth gyngor yn 'rhy uchel'. Atebodd tua un o bob chwe ymatebydd (16%) 'ddim yn gwybod' pan gawsant eu holi am swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu (Ffigur 4.12). Roedd gostyngiad yng nghanran yr ymatebwyr a nododd fod y dreth gyngor yn 'rhy uchel' (o 62%) a chynnydd yn y ganran a ddywedodd 'ddim yn gwybod' (o 12%), o gymharu â'r cyfnod rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2025 (Ffigur 4.13).

**Ffigur 4.12: Yn seiliedig ar eich incwm a'ch gwariant, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu?**





Sylfaen: 884 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.12: Graff bar yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi nodi bod swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu yn 'rhy uchel'.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

**Ffigur 4.13: Yn seiliedig ar eich incwm a'ch gwariant, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu? Cyfanswm yn ôl Mawrth 2022 - Mawrth 2025 o gymharu â Medi 2025**




Sylfaen: Mawrth 2022 - Mawrth 2025 – 3,656 o ymatebwyr; Medi 2025 – 884 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.13: Graff bar yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2025 ac ym mis Medi 2025, wedi nodi bod swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu yn 'rhy uchel'. Roedd gostyngiad yng nghanran yr ymatebwyr a nododd fod y dreth gyngor yn 'rhy uchel' (o 62% i 59%) a chynnydd yn y ganran a ddywedodd 'ddim yn gwybod' (o 12% i 16%) ym mis Medi 2025, o gymharu â'r cyfnod rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2025.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, anabledd a strwythur yr aelwyd.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi bod y dreth gyngor yn **'rhy uchel'** yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran rhanbarth a gradd gymdeithasol, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn 55 oed a hŷn (69% o gymharu â 60% o'r rhai 35 i 54 oed a 50% o'r rhai 16 i 34 oed)
- wedi ymddeol (67%), yn hunangyflogedig (65%), yn gyflogeion llawn amser (60%), yn gyflogeion rhan-amser (59%) neu'n ddi-waith (50%), o gymharu â 24% o fyfyrwyr
- yn ennill rhwng £30,000 a £49,999 (67%) neu rhwng £20,000 a £29,999 (66%) y flwyddyn, o gymharu â 51% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999, 45% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 a 40% yn ennill mwy na £75,000
- yn berchenogion eiddo (62%, o gymharu â 53% o rentwyr cymdeithasol a 52% o rentwyr preifat)
- yn byw mewn aelwyd lle mae dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (65%, o gymharu â 52% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion)

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi bod y dreth gyngor yn **'yn agos at ei lle'** yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran oedran, gradd gymdeithasol, incwm a strwythur yr aelwyd, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn rhentwyr preifat (33%, o gymharu â 22% o rentwyr cymdeithasol)

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi **'ddim yn gwybod'** yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio a deiliadaeth, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn byw yn y Cymoedd (29%, o gymharu â 15% yng ngorllewin de Cymru, 14% yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain, 12% yn y gogledd ac 11% yn y canolbarth a'r gorllewin)
- yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 y flwyddyn (35%, o gymharu â 18% yn ennill llai na £15,000, 16% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999, 12% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999, 11% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999 a 9% yn ennill mwy na £75,000)
- yn anabl (20%, o gymharu â 14% o'r rhai nad oeddent yn anabl)

Gofynnwyd i'r 519 o ymatebwyr hynny a roddodd yr ateb 'rhy uchel' pam roeddent wedi dweud hynny a chafodd atebion tebyg eu grwpio ynghyd. Yr ymateb mwyaf cyffredin (24%) oedd ei bod yn 'ddrud iawn / rhy uchel'. Dywedodd tua un o bob deg ymatebydd (14%) ei

bod yn werth gwael am arian, a dywedodd cyfran debyg (10%) fod gwasanaethau yn wael (Tabl 4.4).

**Tabl 4.4: 'Rhy uchel' – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'rhy uchel' |
|---|---:|
| Drud iawn / rhy uchel | 24 |
| Gwerth gwael am arian | 14 |
| Mae gwasanaethau yn wael | 10 |
| Wedi cynyddu [cryn dipyn] yn ddiweddar, mae'n cynyddu drwy'r amser | 9 |
| Ddim yn gallu ei fforddio / mae'n anodd ei fforddio gyda'r arian sy'n dod i mewn, gwariant arall] | 8 |
| Ar incwm isel / ddim yn ennill digon o gyflog/yn cael budd-daliadau | 7 |
| Pensiynwyr ydyn ni | 7 |
| Un o'n biliau mwyaf, rhan fawr o'n gwariant | 5 |
| Ddim yn gweld llawer o fudd / ddim yn defnyddio/cael llawer o wasanaethau | 5 |
| Nid yw'n adlewyrchu maint, gwerth fy eiddo | 5 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'rhy uchel'** |
| Eraill | 5 |
| Ddim yn gwybod | 0 |
| Heb ateb | 0 |

Sylfaen: 519 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Ymhlith y 224 o ymatebwyr a roddodd yr ateb, 'yn agos at ei lle', yr esboniad mwyaf cyffredin a roddwyd ar gyfer yr ateb hwn oedd ei fod yn swm teg neu ei fod yn ymddangos yn rhesymol (43%). Roedd 15% yn cydnabod bod y dreth 'yn agos at ei lle' oherwydd ei chyfraniad at wasanaethau a nododd 14% eu bod yn gallu ei fforddio (Tabl 4.5).

**Tabl 4.5: 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'yn agos at ei lle' |
|---|---|
| Mae'n deg / swm teg / mae'n ymddangos yn rhesymol | 43 |
| Mae'n talu am lawer o wasanaethau lleol / mae'n deg o ystyried y gwasanaethau rydym yn eu cael / mae angen ariannu gwasanaethau | 15 |
| Yn gallu ei fforddio | 14 |
| Mae'n adlewyrchu ein heiddo / yr ardal lle rydym yn byw | 6 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'yn agos at ei lle'** |
| Eraill | 8 |
| Ddim yn gwybod | 4 |
| Heb ateb | 0 |

Sylfaen: 224 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru


Wedyn, cafodd ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn talu'r dreth gyngor yr wybodaeth ganlynol am y ffordd y defnyddir y dreth gyngor yng Nghymru:

> "Mae'r dreth gyngor yng Nghymru yn helpu i ariannu gwasanaethau yn ein cymunedau, gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol, plismona, gwasanaethau tân ac achub, gwastraff ac ailgylchu, yn ogystal â llawer o wasanaethau eraill."

Wedyn, gofynnwyd i'r ymatebwyr, yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut y byddent yn disgrifio swm y dreth gyngor y mae disgwyl i'w cartref ei dalu. Ar ôl i'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno, nododd cyfran lai o'r ymatebwyr fod y dreth gyngor y gofynnir iddynt ei thalu yn 'rhy uchel' (50%, o gymharu â 59% cyn i'r wybodaeth gael ei darparu). Nododd cyfran fwy o'r ymatebwyr fod y swm y mae disgwyl iddynt ei dalu yn 'agos at ei le' (29%, o gymharu â 25% cyn i'r wybodaeth gael ei darparu). Ar ôl i'r wybodaeth gael ei chyflwyno, nododd 1% o'r ymatebwyr fod y swm roedd disgwyl iddynt ei dalu yn 'rhy isel' (Ffigur 4.14).

Roedd gostyngiad yng nghanran yr ymatebwyr a nododd ei bod 'yn agos at ei lle' (o 32%) a chynnydd yng nghanran yr ymatebwyr a ddywedodd 'ddim yn gwybod' (o 16%) o gymharu â mis Mawrth 2022 - mis Mawrth 2025 (Ffigur 4.15).

**Ffigur 4.14: Yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu?**





Sylfaen: 884 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.14: Graff bar yn dangos bod cyfran lai o'r ymatebwyr, ar ôl cael ychydig o wybodaeth am y ffordd y defnyddir y dreth gyngor yng Nghymru, wedi nodi bod y dreth gyngor y gofynnir iddynt ei thalu yn 'rhy uchel' o gymharu â'r tro cyntaf y gofynnwyd y cwestiwn iddynt.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

**Ffigur 4.15: Yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae'r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fyddech chi'n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i'ch cartref ei dalu? Cyfanswm yn ôl Mawrth 2022 - Mawrth 2025 o gymharu â Medi 2025**




Sylfaen: Mawrth 2022 – Mawrth 2025 – 3,656 o ymatebwyr; Medi 2025 - 884 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.15: Graff bar yn dangos bod cyfran lai o'r ymatebwyr, ar ôl cael ychydig o wybodaeth am y ffordd y defnyddir y dreth gyngor yng Nghymru, ac a gwblhaodd yr arolwg rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2025 ac ym mis Medi 2025, wedi nodi bod y dreth gyngor y gofynnir iddynt ei thalu yn 'rhy uchel' o gymharu â'r tro cyntaf y gofynnwyd y cwestiwn iddynt. Roedd gostyngiad yng nghanran yr ymatebwyr a nododd ei bod 'yn agos at ei lle' (o 32% i 29%) a chynnydd yn y ganran a ddywedodd 'ddim yn gwybod' (o 16% i 19%) ym mis Medi 2025 o gymharu â'r cyfnod rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2025.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, strwythur yr aelwyd a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi bod y dreth gyngor yn **'rhy uchel'** ar ôl i'r wybodaeth am y gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor gael ei chyflwyno yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran strwythur yr aelwyd, a band y dreth gyngor, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn byw yn y canolbarth a'r gorllewin (56%), y gogledd (54%), Caerdydd a'r de-ddwyrain (51%) neu orllewin de Cymru (51%), o gymharu â 38% yn y Cymoedd
- yn 55 oed a hŷn (63%, o gymharu â 52% o'r rhai 35 i 54 oed a 26% o'r rhai 16 i 34 oed)
- yn rhai gradd gymdeithasol C1 (57%, o gymharu â 41% yn AB)

- wedi ymddeol (56%), yn gyflogeion llawn amser (51%), yn gyflogeion rhan-amser (49%) neu’n ddi-waith (43%), o gymharu â 13% o fyfyrwyr
- yn ennill rhwng £20,000 a £29,999 (59%) neu rhwng £30,000 a £49,999 (57%) y flwyddyn, o gymharu â 41% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999, 40% yn ennill mwy na £75,000 a 39% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi bod y dreth gyngor **‘yn agos at ei lle’** ar ôl i’r wybodaeth am y gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor gael ei chyflwyno yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran oedran a gradd gymdeithasol, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn ennill mwy na £75,000 (51%) neu rhwng £50,000 a £74,999 (41%) y flwyddyn, o gymharu â 26% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 26% yn ennill llai na £15,000, 23% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 ac 21% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999
- yn rhentwyr preifat (36%, o gymharu â 22% o rentwyr cymdeithasol)
- ym mand C y dreth gyngor (40%, o gymharu â 26% ym mand D).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi **‘ddim yn gwybod’** ar ôl i’r wybodaeth am y gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor gael ei chyflwyno yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran oedran, gradd gymdeithasol, incwm a deiliadaeth, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn byw yn y Cymoedd (33%, o gymharu â 22% yng ngorllewin de Cymru, 17% yn y canolbarth a’r gorllewin), 15% yn y gogledd a 13% yng Nghaerdydd a’r de-ddwyrain)
- yn fyfyrwyr (46%, o gymharu ag 20% o gyflogeion rhan-amser, 17% o’r rhai sydd wedi ymddeol, 14% o gyflogeion llawn amser ac 11% o’r rhai sy’n hunangyflogedig)
- ym mand A y dreth gyngor (22%, o gymharu ag 11% ym mandiau E, F, G, H ac I)

Mae Tablau 4.6 a 4.7 yn cyflwyno’r ymatebion a roddwyd pan ofynnwyd i’r ymatebwyr pam roeddent wedi nodi bod eu treth gyngor yn ‘rhy uchel’ neu ‘yn agos at ei lle’ ar ôl i wybodaeth am y gwasanaethau sy’n cael eu hariannu gan y dreth gyngor gael ei chyflwyno.

O’r 444 o ymatebwyr a nododd fod y dreth gyngor yn ‘rhy uchel’, nododd tua un o bob pum ymatebydd (17%) fod gwasanaethau yn wael, nododd tua un o bob pum ymatebydd (15%) ei bod yn ddrud iawn/rhy uchel a nododd tua un o bob pum ymatebydd (15%) ei bod yn werth gwael am arian (Tabl 4.6).

**Tabl 4.6: Ymatebion ar ôl cael gwybodaeth – 'Rhy uchel' – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'rhy uchel' |
|---|---|
| Mae gwasanaethau yn wael | 17 |
| Drud iawn / rhy uchel | 15 |
| Gwerth gwael am arian | 15 |
| Mae arian yn cael ei wastraffu / mae cyflog cynghorwyr yn rhy uchel / gormod o dreuliau | 10 |
| Ddim yn gweld llawer o fudd / ddim yn defnyddio/cael llawer o wasanaethau | 8 |
| Ddim yn gallu ei fforddio / mae'n anodd ei fforddio gyda'r arian sy'n dod i mewn, gwariant arall] | 6 |
| Gwasanaethau'n cael eu torri | 5 |
| Wedi cynyddu [cryn dipyn] yn ddiweddar, mae'n cynyddu drwy'r amser | 5 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'rhy uchel'** |
| Eraill | 5 |
| Ddim yn gwybod | 0 |
| Heb ateb | 0 |

Sylfaen: 444 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

O'r 261 o ymatebwyr a nododd fod y dreth gyngor 'yn agos at ei lle', nododd tua un o bob tri ymatebydd (35%) fod y dreth gyngor yn talu am lawer o wasanaethau lleol / yn deg o ystyried y gwasanaethau rydym yn eu cael / bod angen i wasanaethau gael eu hariannu, a nododd tua un o bob tri ymatebydd (32%) hefyd fod y dreth gyngor yn deg / yn swm teg / yn ymddangos yn rhesymol (Tabl 4.7).

**Tabl 4.7: Ymatebion ar ôl cael gwybodaeth – 'Yn agos at ei lle' – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'yn agos at ei lle' |
|---|---|
| Mae'n talu am lawer o wasanaethau lleol/mae'n deg o ystyried y gwasanaethau rydym yn eu cael/mae angen ariannu gwasanaethau | 35 |
| Mae'n deg /swm teg / mae'n ymddangos yn rhesymol | 32 |
| Yn gallu ei fforddio | 5 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr a roddodd yr ateb 'yn agos at ei lle'** |
| Eraill | 6 |
| Ddim yn gwybod | 7 |
| Heb ateb | 0 |

Sylfaen: 261 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru


## 4.3. Agweddau tuag at newid

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol i'w gwneud yn decach. Pan gawsant eu holi am opsiynau eraill, ystyriwyd mai system drethiant leol yn seiliedig ar incwm oedd y system decaf.

Gofynnodd yr arolwg i'r ymatebwyr hefyd roi eu barn ar newidiadau i system bresennol y dreth gyngor ac, yn benodol, a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol. Roedd tua dau o bob pum ymatebydd (39%) yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall, roedd 17% yn anghytuno a rhoddodd 44% yr ateb 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn (Ffigur 4.16).

Roedd gostyngiad yng nghanran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall a chynnydd yng nghanran yr ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent yn gwybod, o gymharu â mis Mawrth 2022 - mis Mawrth 2025 (Ffigur 4.17).

**Ffigur 4.16: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol?**





Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.16: Graff bar yn dangos bod dau o bob pum ymatebydd yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol i'w gwneud yn decach.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Mae 'Cytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Cytuno'n Gryf' a 'Cytuno.' Mae 'Anghytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Anghytuno'n Gryf' ac 'Anghytuno.'

**Ffigur 4.17: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol? Cyfanswm yn ôl Mawrth 2022 - Mawrth 2025 o gymharu â Medi 2025**




Sylfaen: Mawrth 2022 – Mawrth 2025 – 4,000 o ymatebwyr; Medi 2025 - 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.17: Graff bar yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr, a gwblhaodd yr arolwg rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2025 ac ym mis Medi 2025, yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol i'w gwneud yn decach. Fodd bynnag, roedd gostyngiad yng nghanran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall ym mis Medi 2025 (42%) o gymharu â'r cyfnod rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2025 (39%).

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Mae 'Cytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Cytuno'n Gryf' a 'Cytuno.' Mae 'Anghytuno' yn cyfuno'r ymatebion 'Anghytuno'n Gryf' ac 'Anghytuno.'

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, rhywedd, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, anabledd, strwythur yr aelwyd, statws talu'r dreth gyngor a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o '**gytuno'** y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran rhanbarth, incwm a statws talu'r dreth gyngor, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn rhai gradd gymdeithasol C1 (44%), AB (43%) neu C2 (40%), o gymharu â 31% yn DE
- yn hunangyflogedig (48%) neu'n gyflogeion llawn amser (45%), o gymharu â 24% o fyfyrwyr
- yn berchenogion eiddo (43%, o gymharu â 30% o rentwyr cymdeithasol)

- ym mandiau E, F, G, H ac I y dreth gyngor (52%, o gymharu â 39% ym mand C).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o '**anghytuno'** y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran oedran, incwm a strwythur yr aelwyd, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn byw yn y gorllewin a'r de (20%) neu yng Nghaerdydd a'r de-ddwyrain (19%), o gymharu ag 11% yn y canolbarth a'r gorllewin
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (24%), C2 (19%) neu C1 (17%), o gymharu â 10% yn DE
- yn hunangyflogedig (28%), yn fyfyrwyr (24%) neu'n gyflogeion llawn amser (21%), o gymharu â 10% o'r rhai sydd wedi ymddeol
- yn rhentwyr preifat (22%, o gymharu â 13% o rentwyr cymdeithasol)
- yn bobl nad ydynt yn anabl (19%, o gymharu â 13% o'r rhai a oedd yn anabl)
- ym mand B y dreth gyngor (26%, o gymharu ag 16% ym mand D a 15% ym mand C).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi eu bod '**ddim yn gwybod'** a ddylid disodli'r dreth gyngor â system arall yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran rhywedd, gradd gymdeithasol a deiliadaeth, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn 55 oed a hŷn (48%, o gymharu â 40% o'r rhai 16 i 34 oed)
- wedi ymddeol (53%), yn fyfyrwyr (51%) neu'n gyflogeion rhan-amser (46%), o gymharu â 34% o gyflogeion llawn amser a 25% o'r rhai hunangyflogedig
- yn ennill llai na £15,000 (57%) neu rhwng £15,000 a £19,999 (55%) y flwyddyn, o gymharu â 40% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999, 39% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999 a 22% yn ennill mwy na £75,000
- yn byw mewn aelwyd lle roedd un oedolyn yn unig (49%, o gymharu â 37% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion a 33% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn â dibynyddion)
- ym mand C (47%), D (42%) neu A (40%) y dreth gyngor, o gymharu â 26% ym mandiau E, F, G, H ac I.

Mae Tablau 4.8 a 4.9 yn cyflwyno'r ymatebion a roddwyd pan ofynnwyd i'r ymatebwyr esbonio pam roeddent wedi 'cytuno' neu 'anghytuno' y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol.

O'r 389 o ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall, nododd tua chwarter yr ymatebwyr (26%) y dylid disodli'r dreth gyngor am fod y system yn annheg a nododd tua un o bob pum ymatebydd (17%) y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall am ei bod yn ddiffygiol neu wedi dyddio (Tabl 4.8).

**Tabl 4.8: Cytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr sy'n 'cytuno' |
|---|---|
| Mae'n annheg / er mwyn ei gwneud yn decach | 27 |
| Mae'r system yn ddiffygiol / wedi dyddio / mae angen ei hailwampio / ei hadolygu | 17 |
| Mae angen lleihau'r gost / mae angen iddi fod yn rhatach / mae'n rhy ddrud ar hyn o bryd | 12 |
| Dylai fod yn seiliedig ar / ystyried incwm/y gallu i dalu | 12 |
| Mae angen defnyddio arian yn fwy priodol / ei wario'n well / er mwyn cael gwasanaethau gwell | 9 |
| Ni ddylai fod yn seiliedig ar eiddo | 8 |
| Mae gan ardaloedd gwahanol amodau economaidd gwahanol / mae angen adlewyrchu'r ardal leol | 5 |
| Dylai fod yn seiliedig ar nifer yr unigolion mewn cartref / nid yw'n deg bod aelwydydd llai o faint yn talu'r un swm ag aelwydydd mwy o faint | 5 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr sy'n 'cytuno'** |
| Eraill | 5 |
| Ddim yn gwybod | 4 |
| Heb ateb | 0 |

Sylfaen: 389 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system arall esbonio eu barn. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd, a fynegwyd gan tua thri o bob pum ymatebydd (58%) o'r ymatebwyr hyn, oedd bod y system bresennol yn iawn fel y mae ac nid oes angen ei diwygio. Nododd un o bob 10 ymatebydd (10%) nad oedd unrhyw system amlwg i gymryd lle'r dreth gyngor neu nad oedd system well ar gael (Tabl 4.9).

**Tabl 4.9: Anghytuno – Pam ydych chi'n dweud hyn?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr sy'n 'anghytuno' |
|---|---|
| Mae'r system bresennol yn iawn / yn gweithio / yn iawn fel y mae / nid oes angen ei diwygio | 58 |
| Nid oes unrhyw system amlwg i gymryd ei lle / ddim yn siŵr beth fyddai'n system well | 10 |
| Byddai newid y system yn cynyddu costau | 7 |
| Mae angen lleihau'r gost / mae angen iddi fod yn rhatach / mae'n rhy ddrud ar hyn o bryd | 6 |
| **Dim ymateb** | **Canran yr ymatebwyr sy'n 'anghytuno'** |
| Eraill | 3 |
| Ddim yn gwybod | 3 |
| Heb ateb | 0 |

Sylfaen: 169 o ymatebwyr

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Gan adeiladu ar y cwestiwn hwn, gofynnwyd i bob ymatebydd ystyried chwe mesur amgen o swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu a'i sgorio ar raddfa o 1 i 6, gydag 1 yn dynodi'r mesur tecaf a 6 yn dynodi'r mesur lleiaf teg. Y mesurau amgen y gofynnwyd iddynt eu hystyried a'u sgorio oedd:

- eich incwm
- y defnydd rydych yn ei wneud o wasanaethau lleol
- nifer y bobl sy'n byw yn eich eiddo
- gwerth yr eiddo rydych yn berchen arno a/neu'n byw ynddo
- dylai pawb dalu'r un swm
- gwerth y tir lle y lleolir eich eiddo.

Cyfrifwyd cyfartaledd cymedrig yn seiliedig ar y sgoriau a roddwyd i bob mesur amgen, a roddodd sgôr gyfartalog gymedrig gyffredinol ar gyfer tegwch. Yn seiliedig ar y cyfartaledd cymedrig hwn, ystyriwyd mai system o drethiant leol yn seiliedig ar eich incwm oedd y system decaf, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 2.84 ar gyfer tegwch. Ystyriwyd mai system o drethiant lleol lle mae pawb yn talu'r un swm oedd y system leiaf teg, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 4.34 ar gyfer tegwch (Ffigur 4.18).

**Ffigur 4.18: Pa un o'r canlynol ydych chi'n teimlo fyddai'r mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer tegwch (1=tecaf, 6=lleiaf teg)**





Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.18: Siart far yn dangos ymatebion pan ofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried chwe mesur amgen o swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu a'i sgorio ar raddfa o 1 i 6, gydag 1 yn dynodi'r mesur tecaf a 6 yn dynodi'r mesur lleiaf teg. Ystyriwyd mai system drethiant leol yn seiliedig ar eich incwm oedd y system decaf, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 2.84 ar gyfer tegwch.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Fel y dengys Ffigur 4.19, nododd tua dau o bob pum ymatebydd (38%) mai 'eich incwm' oedd y mesur tecaf ar gyfer system drethiant leol newydd.

**Ffigur 4.19: Y mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu (Sgôr o 1)**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.19: Siart far yn dangos bod tua dau o bob pum ymatebydd wedi dweud mai incwm oedd y mesur tecaf ar gyfer system drethiant leol newydd.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru


Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl incwm, deiliadaeth, anabledd, statws talu'r dreth gyngor a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi mai incwm oedd y mesur tecaf ar gyfer swm y dreth leol y mae disgwyl i chi ei dalu yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran anabledd a statws talu'r dreth gyngor, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 (48%) neu rhwng £20,000 a £29,999 (42%) y flwyddyn, o gymharu â 29% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 a 29% yn ennill mwy na £75,000
- yn rhentwyr preifat (49%) neu'n rhentwyr cymdeithasol (43%), o gymharu â 34% o berchenogion eiddo
- ym mand B (45%) neu fand C (43%) y dreth gyngor, o gymharu â 23% ym mand A.

Nododd tua hanner yr ymatebwyr (53%) mai system lle mae pawb yn talu'r un swm oedd y mesur lleiaf teg ar gyfer system drethiant leol newydd (Ffigur 4.20).

**Ffigur 4.20: Y mesur lleiaf teg o ran faint o dreth leol y mae disgwyl i chi ei thalu (Sgôr o 6)**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.20: Siart far yn dangos bod tua hanner yr ymatebwyr wedi nodi mai system lle mae pawb yn talu'r un swm oedd y system leiaf teg.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Nododd yr ymatebwyr mai sicrhau bod trethi lleol yn glir ac yn hawdd i'w deall yw'r nod pwysicaf ar gyfer system drethiant leol newydd.


Gan adeiladu ar yr hyn a fyddai'r mesur tecaf ar gyfer system drethiant leol newydd, gofynnwyd i bob un o'r ymatebwyr roi eu barn ynglŷn â beth yw nodau pwysicaf trethiant

lleol. Cafodd yr ymatebwyr chwe nod i'w hystyried a'u sgorio ar raddfa o 1 i 10, gydag 1 yn dynodi 'ddim yn bwysig o gwbl' a 10 yn dynodi 'cwbl hanfodol':

- dylai biliau treth lleol adlewyrchu'r gallu i dalu
- dylai gwasanaethau lleol gael eu hariannu'n dda
- dylai systemau talu fod yn syml
- dylai cymorth fod ar gael i unigolion na allant dalu trethi lleol
- dylid casglu trethi lleol yn effeithlon
- dylai trethi lleol fod yn glir ac yn hawdd i'w deall.

Fel uchod, defnyddiwyd yr ymatebion i gyfrifo sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer pwysigrwydd. Yn seiliedig ar y mesur hwn, roedd y canlyniadau yn dangos mai nod pwysicaf trethiant lleol, yn ôl yr ymatebwyr, oedd sicrhau bod trethi lleol yn glir ac yn hawdd i'w deall (sgôr gyfartalog gymedrig o 8.58 ar gyfer pwysigrwydd). Y nod o sicrhau bod biliau treth lleol yn adlewyrchu'r gallu i dalu a gafodd y sgôr gyfartalog gymedrig isaf ar gyfer pwysigrwydd, sef 7.74, ond nid oedd y sgôr honno ond 0.84 yn is, sy'n dangos nad oedd fawr ddim gwahaniaeth rhwng y sgoriau cyfartalog cymedrig ar gyfer pwysigrwydd a roddwyd i'r chwe nod (Ffigur 4.21).

**Ffigur 4.21: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer pwysigrwydd (1=ddim yn bwysig o gwbl, 10=cwbl hanfodol)**





Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.21: Siart far yn dangos mai'r nod pwysicaf ar gyfer trethiant lleol yn ôl yr ymatebwyr oedd y dylai trethi lleol fod yn glir ac yn syml i'w deall.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Fel y dengys Ffigur 4.22, roedd tua dau o bob pum ymatebydd (44%) yn nodi bod ‘dylai trethi lleol fod yn glir ac yn syml i’w deall’ yn gwbl hanfodol. Roedd canrannau’r ymatebwyr a oedd wedi nodi bod pob nod yn gwbl hanfodol wedi cynyddu ers y canrannau llai a nodwyd ym mis Mawrth 2025 ac felly roeddent yn debyg i’r rhai a nodwyd rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2024 (Ffigur 4.23).

**Ffigur 4.22: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? ‘Cwbl hanfodol’**





Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.22: Siart far yn dangos bod tua dau o bob pum ymatebydd wedi nodi bod y gosodiad ‘dylai trethi lleol fod yn glir ac yn syml i’w deall’ yn gwbl hanfodol.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

**Ffigur 4.23: Pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? ‘Cwbl hanfodol’ yn ôl cam (rhwng mis Mawrth 2022 a mis Medi 2025)**




Sylfaen: Mawrth 2022 - 1,000 o ymatebwyr; Mawrth 2023 – 1,000 o ymatebwyr; Mawrth 2024 - 1,000 o ymatebwyr; Mawrth 2025 - 1,000 o ymatebwyr; Medi 2025 - 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.23: Siart far yn dangos bod canrannau’r ymatebwyr a oedd wedi nodi bod pob nod yn gwbl hanfodol wedi cynyddu ers y canrannau llai a nodwyd ym mis Mawrth 2025 ac felly roeddent yn debyg i’r rhai a nodwyd rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2024. Nodau pwysicaf trethiant lleol oedd y dylai trethi lleol fod yn glir ac yn syml i’w deall neu y dylai systemau talu fod yn syml.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Nid oedd ‘Dylai trethi lleol fod yn glir ac yn syml i’w deall’ wedi’i gynnwys fel opsiwn ateb ym mis Mawrth 2022.

## 4.4. Cael gwybodaeth am y dreth gyngor

Y dull mwyaf cyffredin o gael gwybodaeth am y dreth gyngor oedd gwefan cyngor lleol, a oedd yn hawdd ei defnyddio ym marn y rhan fwyaf o'r ymatebwyr. Pan ofynnwyd i ymatebwr nodi drwy ba ddulliau y byddai'n well ganddynt gael gwybodaeth, y ddau ymateb mwyaf poblogaidd oedd drwy e-bost a thrwy'r post. Pan ofynnwyd iddynt pa wybodaeth yr hoffent ei chael, yr ymateb mwyaf cyffredin oedd gwybodaeth am yr hyn y mae'r dreth gyngor yn talu amdano.

Yn rhan olaf yr arolwg, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi sut roeddent yn cael gwybodaeth am y dreth gyngor. Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr nodi sut maent wedi cael gwybodaeth am eu treth gyngor yn ystod y tair blynedd diwethaf. Gallai hyn gynnwys ymholiad ynglŷn â'u bil, holi am ddisgowntiau, rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau, canfod sut mae eu treth gyngor yn cael ei gwario neu unrhyw beth arall sy'n ymwneud â'r dreth gyngor. Cafodd yr ymatebwyr saith categori i ddewis o'u plith, sef:


- gwefan cyngor lleol
- gwefan Llywodraeth Cymru
- ffonio'r cyngor lleol
- anfon llythyr i'r cyngor lleol
- gwefan arall
- arall
- dim un o'r uchod.

Fel y dengys Ffigur 4.24, nododd tua dau o bob pum ymatebydd (42%) eu bod wedi cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan cyngor lleol ac atebodd tua un o bob pum ymatebydd (19%) eu bod wedi cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, atebodd tua dau o bob pum ymatebydd (45%) nad oeddent wedi defnyddio 'dim un o'r uchod' [troednodyn 9].

**Troednodiadau**

[9] Tybir bod y rhai sydd wedi dewis 'dim un o'r uchod' wedi gwneud hynny am nad ydynt wedi cael gwybodaeth am eu treth gyngor yn y tair blynedd diwethaf.

**Ffigur 4.24: Yn ystod y tair blynedd diwethaf, ydych chi wedi defnyddio unrhyw rai o'r dulliau canlynol er mwyn cael gwybodaeth am eich treth gyngor?**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.24: Siart far yn dangos bod dau o bob pum ymatebydd wedi nodi eu bod wedi cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan cyngor lleol, a bod tua un o bob pum ymatebydd wedi defnyddio gwefan Llywodraeth Cymru i gael gwybodaeth am y dreth gyngor.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, strwythur yr aelwyd a statws talu'r dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gael gwybodaeth drwy ddefnyddio **gwefan cyngor lleol** yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025 o ran oedran a statws talu'r dreth gyngor, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn rhai gradd gymdeithasol C1 (47%) neu AB (47%), o gymharu â 36% yn DE
- yn gyflogeion llawn amser (52%), yn gyflogeion rhan-amser (50%) neu'n hunangyflogedig (45%), o gymharu â 30% o'r rhai sydd wedi ymddeol ac 20% o'r rhai sy'n ddi-waith
- yn ennill mwy na £75,000 (55%) neu rhwng £50,000 a £74,999 (49%) y flwyddyn, o gymharu â 35% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 a 28% yn ennill llai na £15,000
- yn rhentwyr preifat (48%) neu'n berchenogion eiddo (44%), o gymharu â 34% o rentwyr cymdeithasol

- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion (48%, o gymharu â 38% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gael gwybodaeth drwy ddefnyddio **gwefan Llywodraeth Cymru** yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran oedran, gradd gymdeithasol, incwm, deiliadaeth a strwythur yr aelwyd, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:


- yn gyflogeion llawn amser (28%) neu'n ddi-waith (28%), o gymharu ag 8% o'r rhai sydd wedi ymddeol
- yn rhai a oedd yn cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (25%, o gymharu â 17% o'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o gael gwybodaeth drwy beidio â defnyddio **dim un o'r uchod** yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran oedran, statws gweithio a strwythur yr aelwyd, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn rhai gradd gymdeithasol C2 (50%) neu DE (49%), o gymharu â 36% yn AB
- yn ennill llai na £15,000 y flwyddyn (59%, o gymharu â 45% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 43% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999, 42% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999, 40% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999 a 29% yn ennill mwy na £75,000)
- yn berchenogion eiddo (46%, o gymharu â 36% o rentwyr preifat)
- yn rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor (50%) neu'n rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn (47%), o gymharu â 34% o'r rhai sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor.

Yna, gofynnwyd i ymatebwyr nodi a oedd yn hawdd neu'n anodd cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan y cyngor lleol, gwefan Llywodraeth Cymru neu'r wefan arall a ddefnyddiwyd ganddynt. Fel y dengys Ffigur 4.25, roedd yn hawdd i'r mwyafrif o'r ymatebwyr gael gwybodaeth am eu treth gyngor. Nododd tua phedwar o bob pum ymatebydd ei bod yn hawdd cael gwybodaeth ar wefan y cyngor lleol (82%) a dywedodd tua thri chwarter yr un peth am wefan Llywodraeth Cymru (77%) a ddefnyddiwyd ganddynt.

**Ffigur 4.25: Pa mor hawdd neu oedd cael gwybodaeth am eich treth gyngor ar wefan y cyngor lleol/gwefan Llywodraeth Cymru/gwefan arall?**




Sylfaen: Gwefan cyngor lleol – 423 o ymatebwyr; Gwefan Llywodraeth Cymru – 189 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.25: Graff bar yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi'i chael hi'n hawdd cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan y cyngor lleol ac ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

[Noder]: Roedd gan wefan arall faint sylfaen o naw ymatebydd yn unig felly cafodd ei hepgor o'r dadansoddiad.

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl statws gweithio, anabledd a strwythur yr aelwyd.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi ei bod yn **hawdd cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan y cyngor lleol** [troednodyn 10]:

- yn gyflogeion llawn amser (84%), yn gyflogeion rhan-amser (84%) neu wedi ymddeol (83%), o gymharu â 59% o fyfyrwyr.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi ei bod yn **hawdd cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan Llywodraeth Cymru** [troednodyn 11]:

- yn bobl nad oeddent yn anabl (82%, o gymharu â 65% o'r rhai a oedd yn anabl)
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion (86%, o gymharu â 61% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn un unig).

**Troednodiadau**
[10] Nid oedd yr un o'r is-grwpiau yr un fath ym mis Medi ag yr oeddent ym mis Mawrth 2025.
[11] Nid oedd yr un o'r is-grwpiau yr un fath ym mis Medi ag yr oeddent ym mis Mawrth 2025.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi ei bod yn **anodd cael gwybodaeth am eu treth gyngor ar wefan Llywodraeth Cymru** yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran strwythur yr aelwyd, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:


- yn anabl (27%, o gymharu â 13% o'r rhai nad oeddent yn anabl).

Ychwanegwyd rhagor o gwestiynau ar gam mis Mawrth 2025 ynglŷn â'r dulliau a ffafriwyd o ran cael gwybodaeth – cadwyd y rhain ar gam mis Medi 2025. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa ddulliau a ffafriwyd ganddynt o ran cael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am ddisgowntiau'r dreth gyngor, cymorth, eithriadau a sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario. Gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio'r holl opsiynau ar raddfa o 1 i 7, gan roi 1 i'r opsiwn a ffafriwyd fwyaf a 7 i'r opsiwn a ffafriwyd leiaf. Y dulliau y gofynnwyd iddynt eu hystyried a'u sgorio oedd:

- drwy'r post (e.e. mewn taflen)
- drwy e-bost
- drwy neges destun
- mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyngor lleol
- mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb â grwpiau annibynnol (e.e. Cyngor ar Bopeth, grwpiau tai cymdeithasol)
- cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, X (Twitter gynt), Instagram)
- cyfryngau eraill (teledu, radio).

Cyfrifwyd cyfartaledd cymedrig yn seiliedig ar y sgoriau a roddwyd i bob dull, a roddodd sgôr gyfartalog gymedrig gyffredinol ar gyfer y dulliau a ffafriwyd. Yn seiliedig ar y cyfartaledd cymedrig, drwy e-bost oedd y dull a ffafriwyd fwyaf, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 2.23 ar gyfer y dull a ffafriwyd. Cyfryngau eraill (teledu, radio) oedd y dull a ffafriwyd leiaf, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 5.05 ar gyfer y dull a ffafriwyd (Ffigur 4.26).

**Ffigur 4.26: Sut yr hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor? Sgôr gyfartalog gymedrig ar gyfer dull a ffafriwyd (1=a ffafriwyd fwyaf, 7=a ffafriwyd leiaf)**





Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.26: Siart far yn dangos ymatebion pan ofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried drwy ba ddulliau y byddai'n well ganddynt gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor a'u sgorio ar raddfa o 1 i 7, gan roi 1 i'r dull a ffafriwyd fwyaf a 7 i'r dull a ffafriwyd leiaf. Drwy e-bost, gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 2.23 ar gyfer dull a ffafriwyd, oedd y dull a ffafriwyd fwyaf.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Fel y dengys Ffigur 4.27, roedd tua dau o bob pum ymatebydd (42%) wedi nodi mai 'drwy e-bost' oedd y dull o gael gwybodaeth am y dreth gyngor a ffafriwyd fwyaf. Yn ail agos roedd y 37% o ymatebwyr a nododd mai 'drwy'r post (e.e. mewn taflen)' oedd y dull a ffafriwyd fwyaf. Roedd y dulliau hyn wedi cyfnewid safle fel y dull a ffafriwyd fwyaf o gymharu â mis Mawrth 2025 (gweler Pennod 3.4).

**Ffigur 4.27: Sut yr hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor? (Sgôr o 1)**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.27: Siart far yn dangos bod tua dau o bob pum ymatebydd wedi nodi mai e-bost oedd y dull o gael gwybodaeth am y dreth gyngor a ffafriwyd fwyaf ganddynt, a nododd cyfran debyg mai drwy'r post oedd y dull a ffafriwyd fwyaf.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm a strwythur yr aelwyd.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi mai **drwy e-bost** oedd y dull o gael gwybodaeth am y dreth gyngor a ffafriwyd fwyaf yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran strwythur yr aelwyd, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:


- yn byw yn y canolbarth a'r gorllewin (52%, o gymharu â 40% yn y gogledd a 31% yn y Cymoedd)
- yn 55 oed a hŷn (44%, o gymharu â 36% o'r rhai 16 i 34 oed)
- yn rhai gradd gymdeithasol C1 (49%, o gymharu â 41% yn DE, 37% yn C2 a 37% yn AB)
- yn gyflogeion rhan-amser (48%, o gymharu â 29% o fyfyrwyr).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi mai **drwy'r post (e.e. mewn taflen)** oedd y dull o gael gwybodaeth am y dreth gyngor a ffafriwyd fwyaf yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran oedran a statws gweithio, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn byw yn y gogledd (44%, o gymharu â 32% yn y gorllewin a'r de)
- yn rhai gradd gymdeithasol C2 (43%) neu AB (42%), o gymharu â 30% yn C1
- yn ennill rhwng £30,000 a £49,999 (41%), rhwng £20,000 a £29,999 (39%) neu lai na £15,000 (37%) y flwyddyn, o gymharu â 24% yn ennill mwy na £75,000
- yn byw mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (46%, o gymharu â 34% mewn aelwydydd lle roedd un oedolyn yn unig a 26% mewn aelwydydd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion).

Nododd tua un o bob tri ymatebydd (30%) 'cyfryngau eraill (teledu, radio)' fel y dull o gael gwybodaeth am y dreth gyngor a ffafriwyd leiaf. Yn ail agos roedd y 27% o ymatebwyr a nododd 'cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, X (Twitter gynt), Instagram)' fel y dull a ffafriwyd leiaf (Ffigur 4.28).

**Ffigur 4.28: Sut yr hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor? (Sgôr o 7)**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.28: Siart far yn dangos bod tua un o bob tri ymatebydd wedi nodi mai cyfryngau eraill oedd y dull o gael gwybodaeth am y dreth gyngor a ffafriwyd leiaf.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru


Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr am y math o wybodaeth am y dreth gyngor y byddai'n well ganddynt ei chael. Cafodd yr ymatebwyr bum categori i ddewis o'u plith, sef:

- yr hyn y mae fy nhreth gyngor yn talu amdano
- sut mae fy eiddo yn cael ei brisio

- sut mae bandiau’r dreth gyngor yn gweithio
- cymorth, disgowntiau a Chynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor
- arall.

Fel y dengys Ffigur 4.29, nododd tua phedwar o bob pum ymatebydd (79%) yr hoffent gael gwybodaeth am yr hyn y mae eu treth gyngor yn talu amdano. Yn ail agos roedd 65% o ymatebwyr a hoffai gael gwybodaeth ynglŷn â sut mae bandiau’r dreth gyngor yn gweithio, 59% a hoffai gael gwybodaeth ynglŷn â sut mae eu heiddo yn cael ei brisio a 56% a hoffai gael gwybodaeth am gymorth, disgowntiau a Chynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor.

**Ffigur 4.29: Pa wybodaeth am y dreth gyngor yr hoffech ei chael?**




Sylfaen: 1,000 o ymatebwyr

Disgrifiad o ffigur 4.29: Siart far yn dangos bod tua phedwar o bob pum ymatebydd wedi nodi yr hoffent gael gwybodaeth am yr hyn y mae eu treth gyngor yn talu amdano.

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws Cymru

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, gradd gymdeithasol, statws gweithio, incwm, deiliadaeth, anabledd, strwythur yr aelwyd, statws talu’r dreth gyngor a band y dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi y byddai’n well ganddynt gael gwybodaeth **am yr hyn y mae eu treth gyngor yn talu amdano** [troednodyn 12]:

- yn 35 i 54 oed (84%, o gymharu â 76% o’r rhai 16 i 34 oed)

**Troednodiadau**
[12] Nid oedd yr un o’r is-grwpiau yr un fath ym mis Medi ag yr oeddent ym mis Mawrth 2025.

- yn ddi-waith (96%, o gymharu â 79% o'r rhai sydd wedi ymddeol, 77% o gyflogeion llawn amser a 77% o fyfyrwyr)
- yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 (85%) neu lai na £15,000 (83%) y flwyddyn, o gymharu â 71% yn ennill mwy na £75,000
- ym mand A y dreth gyngor (90%, o gymharu â 76% ym mand C a 75% ym mandiau E, F, G, H ac I).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi eu bod am gael gwybodaeth ynglŷn **â sut mae bandiau'r dreth gyngor yn gweithio** yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran gradd gymdeithasol a statws gweithio, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn ennill rhwng £30,000 a £49,999 y flwyddyn (69%, o gymharu â 58% yn ennill llai na £15,000)
- yn rhentwyr preifat (70%) neu'n berchenogion eiddo (66%), o gymharu â 57% o rentwyr cymdeithasol
- yn rhai sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (67%) neu sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn (66%), o gymharu â 54% o'r rhai nad ydynt yn talu'r dreth gyngor.

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi eu bod am gael gwybodaeth ynglŷn â **sut mae eu heiddo yn cael ei brisio** yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran statws gweithio a deiliadaeth, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn 55 oed a hŷn (66% o gymharu ag 58% o'r rhai 35 i 54 oed a 49% o'r rhai 16 i 34 oed)
- yn rhai gradd gymdeithasol AB (70%, o gymharu â 57% yn C2 a 50% yn DE)
- yn ennill mwy na £75,000 (75%) neu rhwng £50,000 a £74,999 (72%) y flwyddyn, o gymharu â 59% yn ennill rhwng £30,000 a £49,999, 59% yn ennill rhwng £20,000 a £29,999, 47% yn ennill rhwng £15,000 a £19,999 a 45% yn ennill llai na £15,000
- yn byw mewn aelwyd lle roedd dau neu fwy o oedolion â dibynyddion (63%) neu ddau neu fwy o oedolion heb ddibynyddion (62%), o gymharu â 43% mewn aelwyd lle roedd un oedolyn â dibynyddion
- yn rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn llawn (62%) neu sy'n cael disgownt neu ostyngiad yn eu treth gyngor (60%), o gymharu â 38% nad ydynt yn talu'r dreth gyngor
- ym mandiau E, F, G, H ac I y dreth gyngor (70%, o gymharu â 56% ym mand C a 55% ym mand B).

Roedd ymatebwyr a oedd yn fwy tebygol o nodi eu bod am gael gwybodaeth am **gymorth, disgowntiau a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** yr un fath ym mis Medi â mis Mawrth 2025, o ran oedran, deiliadaeth, anabledd, strwythur yr aelwyd a statws talu'r dreth gyngor, ond roedd gwahaniaethau ar y sail eu bod:

- yn rhai gradd gymdeithasol DE (61%, o gymharu â 51% yn AB)
- wedi ymddeol (64%, o gymharu â 52% o gyflogeion llawn amser, 51% o gyflogeion rhan-amser a 46% o fyfyrwyr)
- yn ennill llai na £15,000 (62%) neu rhwng £20,000 a £29,999 (61%) y flwyddyn, o gymharu â 48% yn ennill rhwng £50,000 a £74,999
- ym mand A y dreth gyngor (66%, o gymharu â 51% ym mandiau E, F, G, H ac I).

# 5. Casgliadau

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod nhw, neu rywun yn eu cartref, yn talu'r dreth gyngor (92% ym mis Mawrth 2025 ac 88% ym mis Medi 2025). Roedd ymatebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a nododd fod ganddynt gyfrifoldeb llwyr am dalu'r dreth gyngor (48% ym mis Mawrth 2025 a 45% ym mis Medi 2025) a'r rhai a nododd fod ganddynt gyd-gyfrifoldeb am dalu'r dreth gyngor (45% ym mis Mawrth 2025 a 44% ym mis Medi 2025). Y band treth gyngor mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr oedd Band D ar y ddau gam (25% ym mis Mawrth 2025 a 23% ym mis Medi 2025). Nododd traean o'r ymatebwyr (33%) ym mis Mawrth 2025 a thua chwarter yr ymatebwyr (24%) ym mis Medi 2025 eu bod wedi cael un disgownt, eithriad, neu ostyngiad neu fwy. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn talu eu treth gyngor mewn rhandaliadau misol naill ai dros 10 mis (53% ym mis Mawrth 2025 a 53% ym mis Medi 2025) neu dros 12 mis (32% ym mis Mawrth 2025 a 31% ym mis Medi 2025). Fodd bynnag, ar y ddau gam yn 2025, hon oedd y ganran isaf a oedd wedi nodi'r dull talu cyntaf ers dechrau'r arolwg.

Roedd ymatebwyr yn yr arolwg wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a oedd yn gwybod eithaf tipyn am y dreth gyngor a'r rhai a oedd ond yn gwybod ychydig iawn amdani (43% a 42% yn y drefn honno ym mis Mawrth 2025, a 45% a 39% yn y drefn honno ym mis Medi 2025). Dylid nodi bod canran sylweddol uwch o ymatebwyr ym mis Mawrth 2025 nag mewn blynyddoedd blaenorol wedi nodi eu bod yn gwybod 'llawer iawn' am y dreth gyngor (9% o gymharu â 6% yn 2024 a 5% yn 2023 ac yn 2022). Pan ofynnwyd iddynt enwi gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor, y gwasanaethau mwyaf cyffredin a enwyd oedd ailgylchu a chasglu gwastraff (46% ym mis Mawrth 2025 a 48% ym mis Medi 2025), plismona (38% ym mis Mawrth 2025 a 40% ym mis Medi 2025) a ffyrdd neu gynnal a chadw ffyrdd (28% ym mis Mawrth 2025 ac 28% ym mis Medi 2025). Mae'r ymatebion hyn wedi cael eu rhoi'n gyson fel y tri gwasanaeth mwyaf cyffredin a enwyd ers i'r arolwg ddechrau yn 2022.

Dangosodd yr arolwg fod y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi nodi'r agweddau cadarnhaol canlynol tuag at system bresennol y dreth gyngor: bod talu'r dreth gyngor yn broses syml (83% ym mis Mawrth 2025 ac 80% ym mis Medi 2025), eu bod yn ymwybodol o'r cymorth i dalu'r dreth gyngor a all fod ar gael (65% ym mis Mawrth 2025 a 57% ym mis Medi 2025), y byddent yn gwybod â phwy y dylid cysylltu pe bai ganddynt broblem gyda'r dreth gyngor (71% ym mis Mawrth 2025 a 69% ym mis Medi 2025) ac nad oedd eu bil treth gyngor yn anodd i'w ddeall (64% ym mis Mawrth 2025 a 62% ym mis Medi 2025).

Fodd bynnag, nododd y mwyafrif hefyd yr agweddau negyddol canlynol tuag at system bresennol y dreth gyngor: nad oeddent yn gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn eu cymuned leol (63% ym mis Mawrth 2025 a 56% ym mis Medi), nad yw system y dreth gyngor yn deg (60%, ym mis Mawrth 2025 a 55% ym mis Medi 2025) ac nad yw'n glir sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario (56% ym mis Mawrth 2025 a 56% ym mis Medi 2025). Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr hefyd fod swm y dreth gyngor y mae disgwyl iddynt ei dalu yn rhy uchel (62% ym mis Mawrth 2025 a 59% ym mis Medi 2025). Ond pan gawsant wybodaeth am y gwasanaethau a ariennir gan y dreth gyngor, gwnaeth y ganran hon ostwng (i 53% ym mis Mawrth 2025 ac i 50% ym mis Medi 2025).

Roedd tua dau o bob pum ymatebydd (42% ym mis Mawrth 2025 a 39% ym mis Medi 2025) yn cytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol. Fodd bynnag, nododd canran debyg o ymatebwyr 'ddim yn gwybod' mewn ymateb i'r gosodiad hwn (40% ym mis Mawrth 2025 a 44% ym mis Medi 2025). Dylid nodi hefyd fod cynnydd sylweddol yng nghanran yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol rhwng mis Mawrth 2024 (14%) a mis Mawrth 2025 (18%). Pan holwyd am systemau eraill, ystyriwyd mai system drethiant leol sy'n seiliedig ar incwm oedd y system decaf ar y ddau gam (gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 2.64 ar gyfer tegwch ym mis Mawrth 2025 a 2.84 ym mis Medi 2025). Nododd ymatebwyr mai nod pwysicaf system drethiant leol newydd yw y dylai trethi lleol fod yn glir ac yn syml i'w deall (gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 8.04 ar gyfer pwysigrwydd ym mis Mawrth 2025 ac 8.58 ym mis Medi 2025). Dylid nodi bod gostyngiad yng nghanrannau'r ymatebwyr a oedd yn dweud bod pob un o'r nodau yn 'gwbl hanfodol' ym mis Mawrth 2025.

Y dull mwyaf cyffredin o gael gwybodaeth am y dreth gyngor oedd gwefan cyngor lleol (43% ym mis Mawrth 2025 a 42% ym mis Medi 2025). Fodd bynnag, dylid nodi nad oedd canran debyg wedi defnyddio'r un dull a gyflwynwyd i ymatebwyr (43% ym mis Mawrth 2025 a 45% ym mis Medi 2025). O ran yr ymatebwyr hynny a ddefnyddiodd gwefan eu cyngor lleol, nododd y mwyafrif (80% ym mis Mawrth 2025 ac 82% ym mis Medi 2025) ei bod yn hawdd cael gwybodaeth am eu treth gyngor. Pan ofynnwyd iddynt nodi drwy ba ddulliau y byddai'n well ganddynt gael gwybodaeth, y ddau ymateb mwyaf cyffredin oedd drwy e-bost (gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 2.17 ar gyfer dull a ffafriwyd ym mis Mawrth 2025 a 2.23 ym mis Medi 2025) a thrwy'r post (gyda sgôr gyfartalog gymedrig o 2.54 ar gyfer dull a ffafriwyd ym mis Mawrth 2025 a 2.76 ym mis Medi 2025). Roedd yr ymateb mwyaf cyffredin o ran pa wybodaeth yr hoffai ymatebwyr ei chael yn ymwneud â'r hyn y mae'r dreth gyngor yn talu amdano (77% ym mis Mawrth 2025 a 79% ym mis Medi 2025).

# Atodiad A: Methodoleg

## Arolwg Omnibws Cymru

Bwriedir i sampl Omnibws gynrychioli’r boblogaeth o oedolion sy’n preswylio yng Nghymru sy’n 16 oed a hŷn. Cwblhawyd y cyfweliadau gan yr ymatebwyr eu hunain ac fe’u cynhaliwyd ar-lein gan ddefnyddio llwyfan cyfnewid paneli ar-lein Cint.

Mae llwyfan Cint a’i gynhyrchion yn cydymffurfio â safonau ESOMAR, MRS, ARF, MRIA, AMA, AMSRO ac Insights Association. Mae Cint hefyd yn cydymffurfio ag ISO 20252. Mae sawl gwiriad ansawdd data wedi’u hymgorffori yn system Cint gan gynnwys gwiriad GEO IP a CAPTCHA ar adeg cofrestru, rhif adnabod unigryw ymatebydd a gwiriadau ymddygiad twyllodrus. Yn ogystal â hyn, mae Beaufort yn ymgorffori ei gwestiynau a’i fesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac yn hepgor ymatebwyr sy’n methu’r gwiriadau hyn.

Roedd yr arolwg yn destun rheolaethau cwota demograffig plethedig ar gyfer oedran o fewn rhyw. Pennwyd rheolaeth cwota ar wahân arall ar radd gymdeithasol a chynhaliwyd cyfweliadau â thrigolion ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

Cyfluniwyd arolygon ar-lein i’w cwblhau ar gyfrifiadur personol/llechen neu ffôn clyfar a chynigiwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg i bob ymatebydd. Gwnaed gwaith maes ar gyfer cam mis Mawrth 2025 rhwng 3 Mawrth a 23 Mawrth 2025, a chynhaliwyd cam mis Medi 2025 rhwng 22 Medi a 12 Hydref 2025. Cafodd cyfanswm o 1,000 o gyfweliadau eu cwblhau a’u dadansoddi ym mhob cam.

Mae data wedi’u pwysoli yn ôl grŵp oedran, rhywedd, grŵp awdurdodau lleol a gradd gymdeithasol er mwyn iddynt gyd-fynd â ffigurau Cyfrifiad 2021 a sicrhau eu bod yn cynrychioli’r boblogaeth o oedolion (16+) yng Nghymru yn llawn.

Mae talgrynnu rhifyddol i rifau cyfain yn golygu nad yw cyfanswm y ffigurau mewn colofnau canrannau, o reidrwydd, yn cyfateb yn union i 100%. Lle y gellir rhoi mwy nag un ateb i gwestiwn, efallai y bydd cyfanswm y canrannau yn fwy na 100%. Mae 0 yn dynodi sampl wedi’i phwysoli o lai na 0.5 ac mae 0% yn dynodi canran o lai na 0.5 y cant. Lle mae bonau colofnau yn llai na 50, mae angen dehongli canrannau yn ofalus.

Defnyddiwyd prawf z i nodi a yw cydberthynas a welwyd yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth.

**Newidynnau demograffig**

1. Rhanbarth:

    - Y gogledd - y rhai sy'n byw yn Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, Gwynedd.
    - Y Canolbarth / Gorllewin - y rhai sy'n byw ym Mhowys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro.
    - Gorllewin De Cymru - y rhai sy'n byw yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr.
    - Cymoedd De Cymru - y rhai sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Torfaen, Caerffili, Blaenau Gwent.
    - Caerdydd a'r de-ddwyrain - y rhai sy'n byw yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Sir Fynwy, Casnewydd.

2. Oedran:

    - 16-24
    - 25-34
    - 35-44
    - 45-54
    - 55-64
    - 65+

    - 16-34
    - 35-54
    - 55+

3. Gradd gymdeithasol:

    - AB - y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol A neu B.
    - C1 - y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol C1.
    - C2 - y rhai sy'n byw mewn cartrefi lle mae'r prif enillydd incwm wedi'i ddosbarthu'n radd gymdeithasol C2.

- DE - y rhai sy’n byw mewn cartrefi lle mae’r prif enillydd incwm wedi’i ddosbarthu’n radd gymdeithasol D neu E.

- ABC1 - y rhai sy’n byw mewn cartrefi lle mae’r prif enillydd incwm wedi’i ddosbarthu’n radd gymdeithasol A neu B neu C1.
- C2DE - y rhai sy’n byw mewn cartrefi lle mae’r prif enillydd incwm wedi’i ddosbarthu’n radd gymdeithasol C2 neu D neu E.

4. Statws gweithio:
    - Cyflogai llawn amser - y rhai sy’n gyflogeion llawn amser (mwy na 30 awr yr wythnos).
    - Cyflogai rhan-amser - y rhai sy’n gyflogeion rhan-amser (30 awr neu lai yr wythnos).
    - Hunangyflogedig - y rhai sy’n hunangyflogedig.
    - Di-waith / yn chwilio am waith - y rhai sy’n ddi-waith neu’n chwilio am waith.
    - Myfyriwr - y rhai sy’n fyfyrwyr llawn amser neu ran-amser.
    - Y rhai sydd wedi ymddeol - y rhai sydd wedi lled-ymddeol neu wedi ymddeol yn llwyr.
    - Unigolion eraill nad ydynt yn gweithio’n barhaol - unigolion eraill nad ydynt yn gweithio (e.e. gofalwr, gofalu am aelod o’r teulu, salwch / anabledd).
5. Bandiau incwm aelwydydd:
    - Llai na £15,000
    - £15,000 - £19,999
    - £20,000 - £29,999
    - £30,000 - £49,999
    - £50,000 - £74,999
    - £75,000 +
    - Gwell gennyf beidio â dweud / ddim yn gwybod
6. Deiliadaeth:
    - Yn berchen ar yr eiddo (â morgais neu hebddo) - y rhai sy’n byw mewn eiddo y maent yn berchen arno (â morgais neu hebddo).

- Rhentu eiddo cymdeithasol - y rhai sy’n byw mewn eiddo y maent yn ei rentu gan y cyngor lleol neu gymdeithas dai.
- Rhentu eiddo preifat - y rhai sy’n byw mewn eiddo y maent yn ei rentu gan landlord preifat.
- Rhanberchnogaeth - y rhai sy’n byw mewn eiddo y maent yn berchen arno’n rhannol ac yn ei rentu’n rhannol.

7. Anabledd:
    - Ie - y rhai sydd ag unrhyw salwch hirdymor, problem iechyd neu anabledd y disgwylir y bydd yn para am o leiaf 12 mis AC sy’n cyfyngu ar eu gweithgareddau beunyddiol neu’r gwaith y maent yn ei wneud i ryw raddau neu gryn dipyn.
    - Na - y rhai NAD oes ganddynt unrhyw salwch hirdymor, problem iechyd nac anabledd y disgwylir y bydd yn para am o leiaf 12 mis nac unrhyw salwch hirdymor, problem iechyd nac anabledd sy’n cyfyngu ar eu gweithgareddau beunyddiol neu’r gwaith y maent yn ei wneud i ryw raddau neu gryn dipyn.
8. Strwythur yr aelwyd:
    - Un oedolyn sy’n byw ar ei ben ei hun
    - Un oedolyn sy’n byw gyda dibynyddion
    - Cwpl neu ddau neu fwy o oedolion sy’n byw heb ddibynyddion
    - Cwpl neu ddau oedolyn neu fwy sy’n byw gyda dibynyddion
    - Sefyllfa arall / heb ei nodi
9. Talu’r dreth gyngor:
    - Ydynt – yn llawn - y rhai sy’n byw mewn cartrefi sy’n talu’r dreth gyngor lawn.
    - Ydynt – yn cael disgownt / gostyngiad - y rhai sy’n byw mewn cartrefi sy’n talu swm gostyngol o’r dreth gyngor.
    - Nac ydynt - y rhai sy’n byw mewn cartrefi nad ydynt yn talu’r dreth gyngor.
10. Band cyngor:
    - A - y rhai sy’n byw mewn eiddo ym mand A y dreth gyngor (y band isaf).
    - B - y rhai sy’n byw mewn eiddo ym mand B y dreth gyngor.
    - C - y rhai sy’n byw mewn eiddo ym mand C y dreth gyngor.
    - D - y rhai sy’n byw mewn eiddo ym mand D y dreth gyngor.

- E, F, G, H, I - y rhai sy’n byw mewn eiddo ym mandiau E neu F neu G neu H neu I (y bandiau uchaf).
- Ddim yn gwybod / ddim yn siŵr - y rhai nad ydynt yn siŵr ym mha un o fandiau’r dreth gyngor y maent.

# Atobiad B: Holiadur

## Adran 1 – Cyfrifoldeb am dalu'r dreth gyngor

1. Ydych chi neu unrhyw un yn eich cartref yn talu'r dreth gyngor?
   - Ydw
   - Na

1a. Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau eich cyfrifoldeb am dalu treth gyngor eich cartref?
   - Cyfrifoldeb llwyr
   - Cyd-gyfrifoldeb
   - Dim cyfrifoldeb, mae rhywun arall ar yr aelwyd yn ei thalu

1b. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam nad yw eich cartref yn talu'r dreth gyngor?
   - Mae pob aelod o'r aelwyd o dan 18 oed
   - Mae pob aelod o'r aelwyd yn fyfyriwr
   - Mae pob aelod o'r aelwyd yn berson ifanc sydd wedi gadael gofal o dan 25 oed
   - Rwyf ar incwm isel ac yn cael y Gostyngiad Llawn yn y Dreth Gyngor
   - Arall, nodwch:

(Neidiwch dros gwestiynau 2, 3, 3a 4, 4a, 7, 9, 9a, 10, 10a)

2. Beth yw eich band treth gyngor?
   - A (Isaf)
   - B
   - C
   - D
   - E
   - F
   - G
   - H
   - I (Uchaf)
   - Ddim yn siŵr

3. Ydych chi'n derbyn unrhyw ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau yn y dreth gyngor?
   - Ydw
   - Nac ydw
   - Ddim yn siŵr

3a. Pa ddisgowntiau, eithriadau neu ostyngiadau ydych chi'n eu derbyn?

4. Sut mae eich cartref yn talu'r dreth gyngor?
   - Yn wythnosol
   - Yn fisol dros 10 mis
   - Yn fisol dros 12 mis
   - Yn flynyddol

4a. Faint o dreth gyngor mae eich cartref yn ei thalu bob wythnos/mis/blwyddyn? [Dilëwch fel y bo'n briodol, yn dilyn yr ymateb i C4]

## Adran 2 – Gwybodaeth am y dreth gyngor ac agweddau tuag ati

5. Faint fyddech chi'n ei ddweud rydych chi'n ei wybod am y dreth gyngor?
   - Llawer iawn
   - Eithaf tipyn
   - Ychydig iawn
   - Dim byd o gwbl

6. Allwch chi enwi tri gwasanaeth sy'n cael eu hariannu gan y dreth gyngor?

7. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol:
   - Mae talu'r dreth gyngor yn broses syml
   - Dydw i ddim yn gwybod â phwy y dylid cysylltu os oes gen i broblem gyda'r dreth gyngor
   - Rwyf yn ymwybodol o'r cymorth treth gyngor a allai fod ar gael
   - Mae'n anodd deall fy mil treth gyngor
   - Mae fy mil treth gyngor yn adlewyrchu gwerth presennol fy nghartref

- Cytuno’n gryf
- Cytuno
- Anghytuno

- Anghytuno’n gryf

8. I ba raddau rydych yn cytuno neu’n anghytuno â’r gosodiadau canlynol:
    - Mae system y dreth gyngor yn deg
    - Rwyf wedi gweld budd y dreth gyngor yn cael ei buddsoddi yn fy nghymuned leol
    - Mae system y dreth gyngor yn cefnogi pobl na allant fforddio talu
    - Nid oes gan gynghorau lleol ddigon o reolaeth dros gyfraddau’r dreth gyngor
    - Nid yw’n glir i mi sut mae’r dreth gyngor yn cael ei gwario

    - Cytuno’n gryf
    - Cytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno’n gryf

9. Yn seiliedig ar eich incwm a’ch gwariant, sut fyddech chi’n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i’ch cartref ei dalu?
    - Rhy uchel
    - Yn agos at ei le
    - Rhy isel

9a. Pam ydych chi’n dweud hyn?

10. Mae’r dreth gyngor yng Nghymru yn helpu i ariannu gwasanaethau yn ein cymunedau, gan gynnwys addysg, gofal cymdeithasol, plismona, gwasanaethau tân ac achub, gwastraff ac ailgylchu, yn ogystal â llawer o wasanaethau eraill.
    Yn seiliedig ar y gwasanaethau y mae’r dreth gyngor yn eu hariannu, sut fyddech chi’n disgrifio swm y dreth gyngor mae disgwyl i’ch cartref ei dalu?
    - Rhy uchel
    - Yn agos at ei le
    - Rhy isel

10a. Pam ydych chi'n dweud hyn?

## Adran 3 – Agweddau tuag at newid

11. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid disodli'r dreth gyngor â system drethiant leol wahanol?
    - Cytuno'n gryf
    - Cytuno
    - Anghytuno
    - Anghytuno'n gryf

11a. Pam ydych chi'n dweud hyn?

12. Pe bai'r system drethu leol yn cael ei newid, pa un o'r canlynol ydych chi'n teimlo fyddai'r mesur tecaf o ran faint o dreth leol y disgwylir i chi ei thalu?

    Nodwch eich atebion o 1 i 6, gydag 1 fel y mesur tecaf a 6 fel y mesur lleiaf teg.
    - Eich incwm
    - Gwerth yr eiddo rydych yn berchen arno a/neu'n byw ynddo
    - Y defnydd rydych yn ei wneud o wasanaethau lleol
    - Gwerth yr eiddo lle y lleolir eich eiddo
    - Dylai pawb dalu'r un swm
    - Nifer y bobl sy'n byw yn eich eiddo

13. Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw nodau canlynol trethiant lleol? Sgoriwch eich ateb ar raddfa o 1 i 10, gydag 1 yn dynodi 'ddim yn bwysig o gwbl' a 10 yn dynodi 'cwbl hanfodol'.
    - Dylai trethi lleol fod yn glir ac yn hawdd i'w deall
    - Dylai biliau treth lleol adlewyrchu'r gallu i dalu
    - Dylai gwasanaethau lleol gael eu hariannu'n dda
    - Dylai systemau talu fod yn syml
    - Dylai cymorth fod ar gael i unigolion na allant dalu trethi lleol
    - Dylid casglu trethi lleol yn effeithlon

## Adran 4 – Cael gwybodaeth am y dreth gyngor

14. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, ydych chi wedi defnyddio unrhyw rai o'r dulliau canlynol er mwyn cael gwybodaeth am eich treth gyngor? Gallai hyn gynnwys ymholiad ynglŷn â'ch bil, holi am ddisgowntiau, rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau, canfod sut mae eich treth gyngor yn cael ei gwario neu unrhyw beth arall sy'n ymwneud â'r dreth gyngor.

- Gwefan cyngor lleol
- Gwefan Llywodraeth Cymru
- Ffonio'r cyngor lleol
- Anfon llythyr i'r cyngor lleol
- Gwefan arall (nodwch)
- Arall (nodwch)
- Dim un o'r uchod

14a. Pa mor hawdd neu anodd oedd cael gwybodaeth am eich treth gyngor ar wefan y cyngor lleol?

- Hawdd iawn
- Eithaf hawdd
- Eithaf anodd
- Anodd iawn
- Ddim yn gwybod

14b. Pa mor hawdd neu anodd oedd cael gwybodaeth am eich treth gyngor ar wefan Llywodraeth Cymru?

- Hawdd iawn
- Eithaf hawdd
- Eithaf anodd
- Anodd iawn
- Ddim yn gwybod

14c. Pa mor hawdd neu anodd oedd cael gwybodaeth am eich treth gyngor ar y wefan arall a ddefnyddiwyd gennych?

- Hawdd iawn
- Eithaf hawdd

- Eithaf anodd
- Anodd iawn
- Ddim yn gwybod

15. Sut yr hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am y dreth gyngor (e.e. disgowntiau'r dreth gyngor, cymorth, eithriadau, sut mae'r dreth gyngor yn cael ei gwario)?

    Sgoriwch eich atebion o 1 i 7, gan roi 1 i'r dull a ffefrir **fwyaf** gennych a 7 i'r dull a ffefrir leiaf.

    - Drwy'r post (e.e. mewn taflen)
    - Drwy e-bost
    - Drwy neges destun
    - Mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyngor lleol
    - Mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb â grwpiau annibynnol (e.e. Cyngor ar Bopeth, grwpiau tai cymdeithasol)
    - Cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, X (Twitter gynt), Instagram)
    - Cyfryngau eraill (teledu, radio)

16. Pa wybodaeth am y dreth gyngor yr hoffech ei chael? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

    - Yr hyn y mae fy nhreth gyngor yn talu amdano
    - Sut mae fy eiddo yn cael ei brisio
    - Sut mae bandiau'r dreth gyngor yn gweithio
    - Cymorth, disgowntiau a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
    - Arall (amlinellwch)